PREGETH ANGLADDOL I'R DIWEDDAR BARCH. HENRY REES,

GAN Y DIWEDDAR BARCH. LEWIS EDWARDS, D.D.

Yr hon a draddodwyd ganddo yn Nghapel y Bala, nos Iau, Mawrth 4ydd, 1869.

(YSGRIFENWYD GAN Y PARCH. O. T. WILLIAMS, RHYL.)

Hebreaid xiii. 7, 8: "Meddyliwch am eich blaenoriaid, y rhai a draethasant i chwi air Duw: ffydd y rhai dilynwch, gan ystyried diwedd eu hymarweddiad hwynt. Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd."

Y mae yn ymddangos, ar yr olwg gyntaf, fel pe buasai yr awdwr yn y bennod hon yn taflu at eu gilydd gynifer o gynghorion heb ddim cysylltiad rhyngddynt. Mae dau fath o gysylltiad, un yn ymresymiadol a'r llall yn awgrymiadol. 'Does yma ddim cysylltiad gwahanol rana u mewn un ymresymiad, fel y cawn yn y rhanau blaenorol o'r llyfr: ond eto y mae yn debyg fod yma gysylltiad awgrymiadol er hyny, sef y naill gynghor yn awgrymu y cynghor nesaf; rhyw air, fe allai, neu syniad mewn un adnod, yn arwain y meddwl at yr adnod arall. Mae yr Apostol yn dechreu gyda brawdgarwch—y pwnc mawr oedd ganddo ef ac Ioan i alw sylw yr holl eglwysi ato ymhob Epistol. Mae hyn yn arwain yn naturiol iawn i roddi cynghor ar lettýgarwch. Yna y mae y meddwl o lettýgarwch yn awgrymu y meddwl am berthynas deuluaidd, yr hon sydd yn seiliedig ar briodas. O ganlyniad y mae rhyw air neu ddau ar anrhydedd yr undeb priodasol yn dylyn. Yna y mae y berthynas deuluaidd yn arwain yn naturiol at, ac yn awgrymu ymddiried yn yr Arglwydd—y ddyledswydd fawr o ymddiried ein hamgylchiadau i'r Arglwydd, yr Hwn a ddywedodd, "Ni'th roddaf di i fyny, ac ni'th lwyr adawaf chwaith." Mae y meddwl yma drachefn yn awgrymu i'r awdwr esiamplau yr hen flaenoriaid, fel cymhorth i ymddiried yn yr Arglwydd. 'Meddyliwch am y rhai a aethant o'ch blaen; y fath rwystrau yr aethant hwy drwyddynt; mor ddyoddefgar, mor ffyddiog yr aethant hwy drwy bob cyfyngder—meddyliwch am danynt hwy.' Yna y mae'r awgrymiad am y blaenoriaid yn arwain at Fugail mawr y defaid, "Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd.' Rhyw gysylltiad fel yna, dybygaf, sydd yma; cysylltiad awgrymiadol, y naill feddwl yn awgrymu meddwl arall yn yr adnod ddylynol.

O bosibl nad oes ychydig o ryw duedd eto i ofni rhoi gormod o barch i ddynion da; ac y mae rhai yn ddiammheu wedi myned i eithafion y ffordd yna. Mae y Pabyddion yn rhoi gormod o barch i'r seintiau; ond 'does dim perygl i ni fethu ond i ni roddi y ddwy adnod gyda'u gilydd: "Meddyl-

iwch am eich blaenoriaid," a chofiwch am "Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un." Yn y cysylltiad yna mae yn anmhosibl rhoddi gormod o barch i weision Iesu Grist. Mae y Pabyddion yn codi y seintiau yn lle Crist, ac i guddio Crist o'r golwg; ond ni wnawn ni hyny. Ar yr un pryd, y mae genym sail awdurdod ddwyfol i roddi parch i'n blaenoriaid; dynion ag sydd ar y blaen yn Eglwys Crist. Ac yn wir, dyna yw hanes yr Eglwys, hanes dynion; rhywrai i chwi feddwl am danynt. Dyna ydyw hanes pob gwlad —hanes rhyw ychydig ddynion; a dyna ydyw hanes Eglwys Crist. Y mae gwir yn hyny, fod oes yn effeithio ar ddynion yr oes; ond y mae mwy o wir yr ochr arall eto, fod rhai dynion yn gwneyd i fyny yr oes. Dyna ydyw hanes y Bibl, hanes dynion; ac nid oes dim yn fwy buddiol i ddynion ieuainc i'w astudio na hanes dynion, dynion mawr, ac yn enwedig hanes dynion da. Dyna'r cynghor sydd yma.

1. Dechreuwn gyda'r GWEISION yn yr adnod gyntaf: "Cofiwch eich blaenoriaid." Mae y gair a gyfieithir yma "meddyliwch" yn cael ei gyfieithu y rhan amlaf, *cofiwch*. Mae eisieu hyn eto, yn enwedig yn Nghymru. Yn hyn yr ydym yn sicr yn feïus, yn ein parodrwydd i anghofio dynion gyfododd yr Arglwydd yn ein plith. Yr ydym yn bechadurus yn hyn—y dibrisdod yr ydym yn ei ddangos tuag at eu coffadwriaeth. Gwnawn son mawr am fis neu ddau, ac yna mae y cwbl yn darfod. Sonir fawr am dano wedi hyny. Bydd yn anhawdd iawn cael dim o'u hanes, cael neb i gymeryd y drafferth o ysgrifenu eu hanes, a phe b'ai un yn ysgrifenu, ac yn ei gyhoeddi, bydd yn anhawdd iawn cael neb i'w brynu. Mae eisieu i ni feddwl am y gwirionedd yma, "Cofiwch eich blaenoriaid," dynion a aeth o'r blaen, dynion oedd yn llywodraethu. Dyna y gair sydd ar ymyl y ddalen, eich *llywodraethwyr*. Mae hyn i fod yn eglwys Dduw; y mae llywodraeth i fod ynddi, ac y mae yn anmhosibl fod llywodraeth heb lywodraethwr. Ac un o'r barnau trymaf ar eglwys Dduw ydyw colli dynion yn meddu ysbryd llywodraeth, dynion ar y blaen. Fe sonir gan y prophwyd Esaiah am hyn fel y cwpan erchyll, ïe, gwaddod y cwpan. Dywedir am yr eglwys yn y cyfnod hwnw, "yfaist waddod y cwpan erchyll, ïe, sugnaist ef." Beth oedd hwnw? Dyna yr adnod nesaf, "Nid oes arweinydd iddi"—eglwys wedi ei gadael heb arweinydd. Dyna farn! "Nid oes arweinydd iddi o'r holl feibion a esgorodd; ac nid oedd a ymaflo yn ei llaw o'r holl feibion a fagodd." Nid ydyw y Bibl yn son am farn drymach na honyna, a thrugarhäed Duw wrth Gymru! O'r ochr arall drachefn, un o'r bendithion gwerthfawrocaf a addawyd i'r eglwys ydyw codi bugeiliaid. Duw yn addaw, "Mi a roddaf i chwi fugeiliaid wrth fodd fy nghalon." Dyna sydd yn werthfawr. Mae yn bosibl i ni gael bugeiliaid heb fod wrth fodd ei galon, ond nid un felly yr ydym wedi ei golli; na, un wrth fodd ei galon, yn "porthi y defaid â gwybodaeth ac â deall"—meddyliwch am dano.

Nid elai y cyfarfod hwn yn anfuddiol, os tynid y defaid at eu gilydd i feddwl am Mr. Rees. Y fath ddyn a hwn! Y fath ddyn gwerthfawr! Meddyliwch am y golled, ac ewch at Dduw yn y teimlad o hyny. Meddyliwch am y dynion a aeth o'r blaen.

Mae dynion weithiau yn codi blaenoriaid heb fod Duw yn eu codi, ond i lawr yr aiff y rhai hyny; i lawr rhwng eich dwylaw er pawb. Weithiau fe fydd dynion yn erbyn, a Duw o blaid. Mae hyny yn cymeryd lle ambell dro. Duw yn mynu anrhydeddu ei weision ei hun, ac yn eu codi, a hyny yn groes i ddynion, i ddynion da, fel y cododd Dafydd i fod yn frenin. Yr oedd hyd yn nod y

prophwyd yn methu gweled! Ond ambell i dro, y mae dynion yn codi eu hunain, heb fod na Duw na dyn yn eu codi. Ond y mae esiamplau yn bod pan y mae Duw a dynion yn codi rhai. Dynion yn dyweyd, "Dyma y dyn!" a Duw yn rhoddi y sêl ar eu dewisiad. Un fel yna oedd Mr. Rees. Ni chlywais nemawr erioed ddynion yn ei erbyn,—pawb yn gyfaill iddo. Yr oedd yn cael ei le yn bur naturiol, ac yr wyf yn sier ei fod wrth fodd calon Duw. Meddyliwch am dano.

Mae yr Apostol yn golygu i ni feddwl am ein blaenoriaid yn bersonol, yn neillduol bersonol, nid yn gyffredinol, nid yn y lliaws. Fe allai y goddefir i mi ddyweyd gair am y gŵr mawr yma yn bersonol. Yr oedd yn meddu cymhwysderau i flaenori; yr oedd ef yn neillduol wedi ei ddonio â phob cymhwysder anghenrheidiol i fod ar y blaen. Yr oedd ganddo gydgyfarfyddiad o gymhwysderau. Mae yn debyg y gallai fod llawer yn ei oes yn meddu rhyw ragoriaeth lawn cymaint, fe allai fwy; ond anfynych iawn y gwelid neb yn meddu y fath gydgyfarfyddiad. Dyna sydd yn gwneyd blaenor, cydgyfarfyddiad o ragoriaethau. Dyma sydd yn gwneyd *commander*. Y mae rhagoriaethau yn y milwyr a'u cymeryd un ac un; ond y mae yn gofyn fod lliaws yn y *commander*. Un felly oedd ein hanwyl frawd. Hwyrach y byddai yn fuddiol i ni enwi ychydig yn fyr.

Yr oedd yn meddu *sobrwydd duwiol*, sobrwydd sanctaidd; ar yr un pryd, yn llawn o *addfwynder* siriol. Yr oedd hyn yn amlwg ynddo, yr oedd yn ddyn sobr, yn ddyn difrifol. Gobeithiaf na chollwn y rhai hyn,—dynion difrif, yn enwedig y pregethwyr. Yr oedd ef yn ddifrif ymhob man; yn ddyn sanctaidd, dyn duwiol iawn. Y fan yna ydoedd sylfaen ei holl ddefnyddioldeb; yr oedd yn dduwiol iawn, yn weddïwr mawr, yn byw yn agos at yr Arglwydd, ac eto yr oedd yn ddyn addfwyn. Yr oedd pawb ag oedd yn gydnabyddus o hono yn bur hysbys o hyn. Un o'r dynion mwyaf tirion a welsoch erioed, mwyaf siriol; nid rhyw ddyn duwiol sur, ond dyn duwiol siriol ydoedd. Nid dyn duwiol sarug, ond yr oedd yn debyg i'w Feistr—addfwyn ydoedd. Yr oedd yn wylo gyda'r rhai oedd yn wylo, yn llawen gyda'r rhai oedd yn llawen. Yr oedd cydgyfarfyddiad fel yna yn ei gymeriad.

Peth arall, yr oedd *yn hoff o'r hen a'r newydd;* yr oedd hyn yn hynod ynddo. Yr oedd yn hoff iawn o'r hen awdwyr, ac yn ddarllenwr mawr ar yr awdwyr diweddar yr un pryd. Yr oedd wedi ei fwydo yn ysbryd Dr. Owen. Carwn weled hyn yn ein pregethwyr ieuainc; dyna a'i gwnaeth ef yr hyn ydoedd. Yr oedd yn hoff iawn o'r hen Buritaniaid; yr oedd yn ddyn gwreiddiol hefyd. Yr oedd rhywbeth gwreiddiol ynddo. Yr oedd yn hoff o lenyddiaeth yr oes hon, yn gallu gwerthfawrogi awdwyr da yr oes bresennol, yn enwedig os byddai grym ynddynt. Nid wyf yn dyweyd ei fod yn hoff o bob math o lenyddiaeth, ond pa le bynag y byddai *power*, grym, gallu, yr oedd rhywbeth ynddo yn gydnaws â'r awduron hyny. Gwerthfawrogai y llyfrau yna, megys gweithiau Dr. Arnold, Carlyle, Taylor, ac amryw eraill allaswn eu henwi. Hoffai ddarllen rhywbeth newydd, heb ddibrisio yr hen. Dyna garwn i'r bobl ieuainc ei wneyd, peidio dibrisio yr hen awdwyr. Mae rhai na fynant ond yr hen, a rhai dim ond y newydd, ond yr oedd lle yn ei enaid ef i'r ddau ddosbarth.

Yr oedd ganddo hefyd *feddwl* cryf, dysglaer, a *theimlad* gwresog. Yr oedd yn rhagori ymhob un o'r ddau, ond yn enwedig yn y ddau gyda'u gilydd. Meddai gyflawnder o feddyliau a theimladau y tu hwnt i bawb eraill. Nid oes ammheuaeth na ddarfu i ymddangosiad Mr. Rees greu cyfnod

newydd ar bregethu yn Nghymru, pan y daeth ar draws y wlad. Yr oedd yn ddyn na welwyd neb tebyg iddo. Y fath gyflawnder o feddyliau, a'r rhai hyny yn y cyfansoddiad mwyaf trefnus! Yr oedd yn beth heb un esiampl flaenorol o'i debyg. Pawb yn gorfod dyweyd, 'Dyma beth newydd.' Ond y peth oedd yn fwy newydd ydoedd y teimlad oedd yn rhedeg trwy yr holl gyfansoddiad. Yr oedd yno esgyrn; ond nid rhyw esgyrn fel rhai o honom ni, rhyw esgyrn sychion, dim arnynt, nac ynddynt chwaith. O! na, esgyrn a mêr ynddynt; duwinyddiaeth iachus. Nid esgyrn yn unig, yr oedd rhywbeth arnynt, yr oedd yno gïau, a chig, a chroen; ac O! mor brydferth! Pob aelod yn ei le, a'r cwbl yn gwisgo prydferthwch; a mwy na hyn oll, yr oedd yno fywyd. Bywyd ymhob pregeth; y peth byw yn y bregeth; dyma oedd yn ei wneyd yn ddyn mawr. Meddyliwch am dano. Yr ydym yn ei gofio. Dyn mawr! dim ond crybwyll ychydig bethau fel yna am dano, a'u taflu o'ch blaen yn fyr i chwi fyfyrio arnynt. Y mae wedi myned. Ni welwch ef yma mwyach. Dyn y buoch yn gwledda wrth ei wrando, ac O! y bobl annuwiol sydd yma heno—mae yma rai sydd wedi myned yn drech na phregethau Henry Rees—chewch chwi ddim cyfle i'w wrando ddim mwy! Ni welwch mo hono yn y pulpud byth, byth! ni welwch mwy ei wynebpryd hardd na'i wên angylaidd! Nid yw i'w gael. Mor wag ydyw y Cyfundeb yn awr! O'r fath wagder! 'Does genym ddim i'w wneyd ond ei gofio, a wylo wrth feddwl na chawn weled ei wynebpryd mwy. Er myned i Lerpwl, nid yw yno! Er myn'd at y Benarth tua Chonwy yna, nid yw yno! O! yn y Gymanfa y bydd yn drist! Mae yn alarus meddwl am y Gymanfa nesaf, —mae yn ddigon a thori calon i feddwl am y Sassiwn. O! beth ddaw o honom! A gawn ni fyn'd i'r llwch at yr Arglwydd? a gawn ni fyned gyda'n gilydd fel Eglwys i ofyn i Dduw drugarhau wrthym? Ond er y cwbl 'does genym ond gadael y mater yma, a throi at yr adnod nesaf.

2. Cymaint a hynyna am y gwas, dywedwn air neu ddau am y Meistr bellach: "Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd." Mae yma ryw gysylltiad rhwng y ddwy adnod hon; mae yn debyg fod dau air yn yr adnod gyntaf o'r ddwy yn arwain meddwl yr ysgrifenydd at y Person mawr sydd yn yr ail adnod, Iesu Grist. Yn y gyntaf, "Meddyliwch am eich blaenoriaid;" pan y mae yn ysgrifenu y frawddeg yma, mae y meddwl yn rhedeg yn uniongyrchol at destyn mawr y weinidogaeth, Gair Duw; pregethu Gair Duw yr oeddynt hwy, yr hen flaenoriaid, yr hen bregethwyr. Yr hyn a glywsoch ydoedd, nid philosophi; nid gwag dwyll, ond gair Duw; dyna sylwedd i bawb bregethu, ac i ninnau yr un fath. "Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un, ac yn dragywydd." Ni raid newid y testyn; mae yr hen bwnc yn ein pulpudau ni eto, er prin y mae'r pregethu yn debyg i'r hyn a welsoch; ond eto ni raid digaloni, fy nghyfeillion, tra y bydd genym Iesu Grist i'r bobl. Iesu Grist—dyma oedd eu testyn hwy, a dyma yw ein testyn ninnau, a thra yn pregethu Iesu Grist a'i gyfiawnder, Iesu Grist a'i waed, Iesu Grist fel yr unig Geidwad i'r penaf o bechaduriaid, fe achubir rhywrai eto yn y dyddiau hyn. Mae Ysbryd Duw wedi ymrwymo, mae wrth ei swydd i arddel y weinidogaeth tra y bydd Iesu Grist yn cael ei gynnyg i bechadur. Cofiwch am hyn, bregethwyr ieuainc. Fe fu amser yn y deyrnas hon pan yr oedd dynion yn meddwl eu hunain yn ormod ysgolheigion i bregethu Crist a hwnw wedi ei groeshoelio. Mae Blackstone yn dyweyd ei fod wedi myned o amgylch

yn Llundain i bob eglwys o fewn y brifddinas, i glywed pa fath bynciau oedd yn cael eu pregethu; a dyma ei dystiolaeth ar ol gwrando pawb trwy y brifddinas, na chlywodd yr un bregeth o fewn tref fawr Llundain, na fuasai Cicero, neu ryw Bagan arall, yn ei thraddodi; dim byd ond yr hyn allesid ei ddysgwyl gan Bagan; dim byd ond moesoldeb, ac wrth bregethu moesoldeb, yr oedd y bobl yn myned yn fwy anfoesol o hyd. Nid wyf heb ofni fod perygl yn ein dyddiau ninnau; mae rhyw arwydd fel pe b'ai y wlad braidd eisieu rhywbeth newydd yn lle Iesu Grist; rhywbeth newydd; rhyw ysfa am philosophi, rhyw bwnc dadleugar, yn lle Iesu Grist—hen drefn Crist. O! gwareded Duw ni rhag syrthio dan y farn yna. Mae llawer iawn o bregethau yn cael eu cyhoeddi yn Lloegr o dan y ffug-esgus o ganmol cariad Duw, a'i ysbryd Tadol Ef, a'u tuedd i guddio Iesu Grist o'r golwg. Ond dyma yw *y* pwnc—Iesu Grist; dyma yw testyn y weinidogaeth, "Iesu Grist, ddoe a heddyw yr un." Ar *Green* y Bala yna, beth ddymchwelodd gaerau Jericho yn Nghymru? Pregethu Iesu Grist. Beth oedd yn peri i'r bobl orfoleddu wrth y miloedd ar *Green* y Bala? Yr hen bwnc—Iesu Grist, a hwnw wedi ei groeshoelio. Gwnaiff y tro i ninnau drachefn; yn y fan yma y mae ein cryfder. Pe b'ai angel o'r nef a'i ddoniau angylaidd, yn pregethu efengyl arall, ni achubir yr un enaid drwyddo. Ond os cawn y fraint o ddal Iesu Grist i fyny o flaen y byd, fe *attractia* bechaduriaid, fe dŷn rhyw filoedd eto ato ei Hun. Nid ynom ni y mae y grym, ond yn y testyn. Yr ydym ni yn eithaf boddlawn i fyned o'r golwg er mwyn i Iesu Grist ddyfod i'r golwg. O! amlyger Iesu Grist y dyddiau hyn!

"Meddyliwch am eich blaenoriaid, ffydd y rhai dilynwch"—dilynwch eu ffydd. Ni elwir arnom i ddilyn eu doniau, ond dilynwch eu ffydd, "gan ystyried diwedd eu hymarweddiad hwynt." A chyda ei fod yn dyweyd y geiriau yna, dyma y meddwl yn union, fel trydaniaeth, yn rhedeg i'w galon am Iesu Grist. Wrth son am ffydd yr hen dduwiolion yr oedd ei feddwl yn myned at Wrthddrych ffydd. Dyma lle yr oeddynt yn cael grym—ffydd *yn Nghrist*. Mae yr un Crist i ninnau; Efe yw gwrthddrych ein ffydd ninnau; Iesu Grist oedd ganddynt hwy i bwyso arno ddoe, ac y mae Iesu Grist yn aros i ninnau roddi ein pwysau arno heddyw. Bydd Iesu Grist i'r eglwys yn dragywydd. Iesu Grist a'u cododd hwy, ac y mae yn abl i godi rhai heddyw yn eu lle. Mae Iesu Grist gyda ni eto. A ydych chwi yn credu hyn, gyfeillion? Yr wyf fi yn ei gredu mor sicr ag y credais ddim erioed, fod Iesu Grist gyda ni, oblegid fe ddywedodd, "Yr wyf fi gyda chwi bob amser hyd ddiwedd y byd." Pwy gododd Henry Rees? Y mae yn abl i godi bachgen eto yn rhywle, nis gwn ymha le. Dysgwyliwn wrtho. O am ffydd yn nghryfder yr addewid i gredu fod Iesu Grist yma gyda ni. Y mae yma yn ein cyfarfodydd; Efe sydd yn anfon rhai yn fugeiliaid ac yn athrawon, ac wedi derbyn rhoddion i ddynion. Peidiwch a meddwl eu bod wedi eu dyhysbyddu. Nid yw Efe eto wedi treulio allan; nid yw Mab Duw, Pen yr eglwys, yn *fankrupt* eto. Y mae i'n golwg ni yn dlawd iawn; cawsom golled anadferadwy i olwg dynion, ond y mae Iesu Grist mor llawn ag erioed. Fe dderbyniodd roddion, a'r rhoddion penaf dderbyniodd ydyw rhoddi rhai yn fugeiliaid ac yn athrawon. Dysgwyliwn wrtho; fel y dywed y bardd,—

"Os sychodd yr aber, a ballodd y môr?"

Awn heibio i bawb at Grist. Iesu Grist a'u cynnaliodd hwynt oll, ac y mae yr un heddyw i'n cynnal ninnau. Iesu Grist gynnaliodd ein hanwyl

gyfaill, ac fe'i cynnaliodd yn ddysglaer. Nid ydym yn diolch hanner digon i Iesu Grist am gynnal rhai i fyny; fe'i cynnaliodd ef hyd y diwedd.

"Gan ystyried diwedd eu hymarweddiad hwynt." A dyma ddyn wedi diweddu yn dangnefeddus; cafodd ddiwedd da, yr oedd Iesu Grist gydag ef yn ei ddiwedd. Yr oedd arno ofn marw, yr oedd ar hyd ei holl fywyd dan gaethiwed. Byddai yn son llawer am farw; yr oedd ganddo ryw synïadau am ofnadwyaeth marw tu hwnt i'r cyffredin. Ond pan ddaeth yr awr ddrwg, cynnaliodd Iesu Grist ef. Cynnaliodd ef, rywfodd, fel mai prin y gwybu ei fod yn marw. Aeth drwy yr amgylchiad heb wybod; aeth heibio i ystormydd *Cape Horn* heb wybod, a deffrôdd yn nghanol y *Great Pacific*, lle ni ddaw ystorm ato i dragywyddoldeb mwyach. "Diwedd y gŵr hwnw fydd tangnefedd." Pa fodd y mae yn debyg o fod arnoch chwi tua'r diwedd? A ydych yn dilyn ymarweddiad sydd yn debyg o droi yn dda tua'r diwedd? Y mae dau fath o ymarweddiad, ac O! fy mechgyn anwyl, beth ydyw diwedd y dull yr ydych chwi yn byw yn debyg o fod? Beth fydd ei ddiwedd? Ond diwedd eu hymarweddiad hwy fydd diwedd da, diwedd tangnefeddus. Y mae Iesu Grist yn addaw ein cynnal. Daw diwedd i ninnau yn fuan, nid oes ond *just* amser i barotoi erbyn y diwedd gan rai o honom ni. Mae y daith bron wedi ei gorphen, a'r diwedd yn ymyl, ond y mae "Iesu Grist yr un ddoe, heddyw, ac yn dragywydd." Fe ofalodd am ei blant, fe'u cynnaliodd hyd y diwedd, fe fu yn dirion wrthynt; y mae yr un i ninnau. Ni a ymddiriedwn ynddo yn dragywydd. Y mae yr un yn y ddau fyd, mae yn uno y ddau â'u gilydd; mae yn dragywydd, fy ngwrandawyr. Dyna fydd y diwedd—y byd mawr y byddwn ynddo yn fuan. Nid ydym yn gwybod dim am dano; tragywyddoldeb tragywyddoldeb! Mae yn fyd dyeithr, yr ydym yn colli ein hunain rywfodd mewn gwagder wrth feddwl am dragywyddoldeb. Yr ydym yn dyrysu, yn methu cael dim i ymaflyd ynddo, nes y daw ein meddwl at Iesu Grist—Iesu Grist y Bibl—yr Iesu Grist y darfu i ni gredu ynddo ar y ddaear. Efe sydd yno yn nhragywyddoldeb; mae yn gwneyd y ddau fyd yn un â'u gilydd. Dyma gymaint o afael sicr sydd genym, dyma gymaint o oleu sydd genym—Iesu Grist. Mae pobpeth arall yn ddyeithr; cyfeillion i ni sydd wedi myned yno, maent yn ddyeithr, ni fedrwn ddychymygu y fath agwedd sydd arnynt. Henry Rees! nid yw yr un ag yma; nid yr un un ydyw, y mae wedi newid, y mae wedi myned trwy ryw gyfnewidiad yn y marw, yn y symud yma, fel nas gellir dyweyd ei fod yr un ag ydoedd yma. Ond y mae yno Un gwrthddrych heb newid. Iesu Grist yr un—Duw yn y cnawd—Mab y dyn—Mab Duw—yr Un ydyw yno. Rhowch eich hunain iddo yn awr, y mae yma i chwi ymddiried ynddo. Dyma ein cyfaill anwyl wedi ein gadael, wedi myned. A gawn ninnau ein galw i ymofyn am Iesu Grist yn Geidwad?

O wrandawyr! nid yw yn ddigon eich bod yn perthyn i'r un Cyfundeb a Mr. Rees; nid yw yn ddigon eich bod yn blant i rieni duwiol; Iesu Grist sydd yn cadw; rhaid i chwi adael pawb ond Efe. "Iesu Grist yr un." O! rhowch eich hunain iddo, dyma y cwbl am dragwyddoldeb yn yr un Person. Dyma destyn galar, blaenoriaid wedi colli; ond y mae Iesu Grist yn aros, a gobeithiaf y bydd y golled fawr yma yn peri i ni feddwl mwy am y Person bendigedig hwn. Byddai Henry Rees yn ei bregethu yn daer a difrifol; yr ydych yn cofio ei bregethau; cofiwch y dywediadau taer, tyner. Mor wresog y byddai yn galw arnoch at y Ceidwad! Un o'r

pregethau olaf yn y fan hon, dyna ydoedd ei hamcan, dangos fod yn rhaid i chwi fyned naill ai i uffern neu at Grist. Cofiwch hwynt, cofiwch ei bregethau, cofiwch ei gynghorion; ac yn enwedig ufuddhewch iddynt. Cofiwch ufudd-dod, cofiwch roddi lle iddynt yn eich meddwl, i'ch arwain at Iesu Grist, y Bugail da. Amen.

LLYTHYRAU YR OES O'R BLAEN A'R OES HON.

Gan y Parch. JOHN EVANS, *Abermeurig.*

"O helaethrwydd y galon y llefara y genau."

MAE ymadroddion dynion mewn llythyrau cyfrinachol y naill at y llall yn ddangosiad pur eglur o hyn. Nid ydym yn dyweyd am lythyrau masnachol unrhyw oes, nac am lythyrau ar negeseuon neilldnol, ond yn unig y rhai a ysgrifenir yn gydnabyddiaeth o berthynas a chyfeillgarwch. Yn y rhai hyny dysgwylir cryn lawer o hanes y rhai sydd yn ysgrifenu, ynghyd a hanes y perthynasau a'r cymydogion. Ac mewn llythyrau o'r fath, yr ydym braidd yn sicr yr amlygir yn helaeth ansawdd meddwl y rhai sydd yn ysgrifenu, a'r sawl yr ysgrifenir atynt. Ar yr achlysuron hyn, arosir yn fynych i ystyried a meddwl, ymgynghori yn ddystaw â hoffder meddwl yr un yr ysgrifenir ato, ac yna gwneir detholiad o faterion y llythyr yn ol y farn y penderfynir arni. A bydd y farn hono, fynychaf, yn cynnrychioli ansawdd feddyliol y ddwy blaid.

Yr ydym yn ofni y gall dirywiad fod yn hyn oddiwrth yr hyn a fu. Wrth ddarllen *Cofiant Ann Griffiths*, *Fy Chwaer*, a Frances Havergal, ac eraill, yr ydym yn cael lle i ofyn, Pa nifer o rai tebyg sydd i'w cael eto? Nid ydym mor gul ein meddwl am yr oes hon a thybied nad oes rhai o gyffelyb feddwl a'r rhai uchod; ond a chyfrif yn ol nifer ein cenedl, y maent yn debyg o fod fel "cenad o ladmerydd, un o fil." Mae yr ymddyddanion crefyddol, hyd yn nod ymysg y dosbarth goreu o broffeswyr, wedi myned yn llawer prinach nag y buont, ac yr ydym yn tybied y gall y llythyrau fod yn debyg. Mae y siarad am grefydd, a'r ysgrifenu am grefydd, ymysg y werin, wedi myned bron allan o'r ffasiwn; a helyntion y byd, coegddigrifwch, ac oferedd, wedi cymeryd eu lle. Mae y llythyr a'r ymddyddan yn bur debyg o fod yn arddangosiad o ansawdd meddwl y bobl; ac os yw crefydd yn brin yn y naill, mae hefyd yn brin yn y llall.

Mae y llythyr canlynol, yr hwn y dygwyddodd i ni daro wrtho yn ddiweddar, wedi cael ei ysgrifenu gan ferch ieuanc o forwyn, at ferch ieuanc arall o gyfeilles iddi, a pherthynas hefyd, os ydym wedi deall yn iawn. Ac y mae yr hanes a gynnwysa, a'r naws hynod o grefyddol sydd yn cerdded trwyddo, ynghyd a'r dull o osod y meddwl allan, wedi bod yn foddion i dynu dagrau o lawer llygad, a thyneru llawer calon. Yr oedd yn forwyn yn Carnachenwen, Sir Benfro, gyda Mrs. Davies, lle yr oedd pregethwyr De a Gogledd yn galw, ac hefyd yn pregethu. Gyda gwraig foneddig mor enwog a duwiol, yr oedd yn byw yn swn crefydd, ac yn gweled ei chyflawniadau a'i dylanwad yn barhaus. Ond nid oedd hyny yn ddigon, rhaid fod y forwyn hon yn gwybod am effeithiau crefydd ar ei chalon ei hun, a'i bod hefyd yn ymarfer â byw yn grefyddol. Wrth ddyddiad y llythyr, yr ydym yn gweled mai ychydig cyn marwolaeth Mrs. Davies yr oedd yn ysgrifenu, yr hyn a gymerodd le Medi 19, 1846, pan yn 74 mlwydd oed. Mae son am y forwyn yn fynych yn hanes cystudd diweddaf ei meistres. "Meddyliais neithiwr," meddai wrth weinidog, "fod meistres fach yn ein gadael; yr oedd fel Jacob yn bendithio ei holl deulu, a gair pwrpasol ganddi i ddyweyd wrth bob un." Yr oedd mewn ychydig o ddyryswch meddwl am gael ei chludo i ystafell arall. "I ba beth y gwnawn eich symud yno, meistres anwyl?" meddai y forwyn. "O," ebe hithau, "yno y croeshoeliwyd Iesu anwyl, rhaid i mi gael myned yno i'w weled." Yn y man yr oedd allan o'r dyryswch, a gwaeddai, "O ïe, Iesu anwyl oedd e'; ïe, ïe, Iesu oedd e'. Bendigedig fyddo 'fe byth." Yr oedd Mrs. Davies yn gadarn yn yr Ysgrythyrau, yn fwy galluog na phawb

bron yn yr ardal am ddeall athrawiaethau yr efengyl. Arweiniai yr Ysgol Sabbothol, yr hon a gynnelid yn ei thŷ bob prydnawn Sabboth, ac esboniai y Bibl fel doctor mewn duwinyddiaeth. Ac, oddiwrth y llythyr, yr ydym yn gweled fod y forwyn wedi dysgu llawer ganddi, nes dyfod yn bur debyg iddi mewn gwybodaeth ysgrythyrol. Os gwel y Golygydd yn dda, rhoddwn y llythyr i gyd i fewn, gan obeithio y gwna les i lawer. Ac yn fwy na'r cwbl, y gwnawn godi awydd ar lawer i efelychu y ferch ieuanc ragorol hon, mewn gadael allan yr us a'r sothach o'u llythyrau, a rhoddi ynddynt bethau mwy sylweddol ac adeiladol.

Carnachenwen,
June 2, 1846.

ANWYL ELIZABETH,—

Y mae arnaf lwyr hiraeth am ysgrifenu atoch. Ac "yn wir yr ydwyf yn llawen iawn." 'Paham yr ydych mor llawen?' meddwch chwi. O fy anwyl Elizabeth! "llawenydd mwy na hwn nid oes genyf," sef cael mynegu am Seion gyda'r Salmydd, "Y gŵr a'r gŵr a anwyd ynddi." Tybygaf eich bod chwithau yn awr yn dechreu llawenhau, ac yn dywedyd, 'Genedigion yn eglwys Trevine! Yr hen artrefle anwyl! Y fan lle cefais yr annhraethol fraint o gofio angeu y groes gyntaf erioed! trwy weinyddiad y Parchedig a'r anwyl weinidog tyner, David Griffiths, o Llantwd.'

'Wel, bellach, gadewch i mi wybod pwy ydynt.' Wel, dyma hwy, William, gwas Longhouse; ac, yn wir, mae yn ymddangos fel wedi ei dori oddiar yr hen wreiddyn, ac wedi ei impio i mewn i'r bywyd. Yr oedd ei atebion yn hynod foddhaol i bawb a'i clywsant. Gofynent iddo a fu ef yn gweddïo? "Do," oedd yr ateb. "Beth oeddych yn ofyn?" meddent hwythau. "Gofyn am greu calon lân ynof." "A ydych yn foddlon ymadael â'r cyfan er mwyn Iesu?" gofynent drachefn. "Yr wyf yn meddwl fy mod, a chael fy ngwneuthur yn greadur newydd yn Nghrist Iesu," meddai yntau. Onid oedd hyn yn ffein ynddo?

Anwyl chwaer, ond pan fynegwyf am y nesaf, yr wyf yn siwr nad ellwch lai na wylo'r dagrau, wrth feddwl am y planhigyn bach ieuanc, tyner, ac anwyl iawn yn mynwes yr eglwys, yr hwn sydd wedi tyfu i fyny fel planhigyn olewydd o amgylch y ford, megys lili yn ostyngedig, a hawddgar megys rhosyn mewn gardd. J. H. (gweinidog yn Ngogledd Cymru) ydyw'r llanc bach. O fy machgen bach anwyl I, os caiff ef ras, gall fod o ddefnydd mawr iawn, onide fe fydd yn felldith yn sicr. O, gweddïwch drosto fe a finnau, ac yr ydwyf yn sicr y gwnewch. Pan fyddoch yn rhoddi eich hunan i'r Arglwydd, nac anghofiwch Joseph bach. O dymunwch yr un peth i'n Joseph bach ni ag a gafodd y Joseph hwnw yn yr Aipht, sef ofn Duw yn ei lestr bach. Ac os caiff ef hyny, fe hwylia ei lestr yn *grand* dros foroedd profedigaethus, yn ngwyneb diafol, cnawd, a byd. Yr wyf yn credu, o'r hyn lleiaf yr wyf yn hyderu, fod cofio wedi bod am Joseph yn y tragywyddoldeb bore. Y Tad wedi ei garu â chariad tragywyddol, y Mab wedi ei brynu mewn amser, ac y bydd yr Ysbryd, mewn canlyniad, yn arweinydd a dyddanydd iddo dros ei holl fywyd. Nis gwn pa waith sydd gan yr Arglwydd iddo. Dychymygaf weithiau y bydd yn ei anfon i Fryniau Cassia. 'Beth wna ef yno?' meddwch chwi. Pa beth na wna os bydd yr Arglwydd yn ei anfon? Felly caiff pechaduriaid ofergoelus Cassia eu hachub trwyddo. Dychymygaf ei weled yn awr ar ben y Bryniau, neu yn y pantiau yno, yn dyrchafu ei ddwylaw tua'r nefoedd ar ran y Cassiaid druain. Neu, os rhyw faes arall sydd iddo, boddlawn wyf fi. Dychymygaf eich clywed yn dyweyd, 'Yr oeddwn I yn meddwl eich bod am gadw eich Joseph anwyl yn Trefin?' Na, yr wyf fi yn foddlawn i'r Arglwydd ei anfon lle y gwelo yn dda.

Dymuniad fy nghalon y dyddiau hyn yw, i'r Arglwydd achub fy nghyd-ieuenctyd trwy y lle, a danfoned yr Arglwydd hwy at ei waith lle y gwelo yn dda. Rhaid dibenu.

SARAH THOMAS.

Yr ydym braidd yn sicr fod y chwaer a ddarllenodd y fath lythyr a'r uchod wedi cael gwledd o'r fath oreu, ac i'r dylanwad aros ar ei meddwl am lawer o amser. Ac, os oedd ynddi ychydig o deimlad crefyddol, yr oedd yn gallu prisio y fath lythyr yn uwch o ran gwerth, na phe buasai yn cael llawer o newyddion eraill o'r ardal. Y mae fod y llythyr wedi ei gadw hyd heddyw yn brawf o'i deilyngdod yn ngolwg rhywrai. Y fath gariad at Grist a'i achos ddangosir ynddo! Y fath awydd am achub pechaduriaid! Y fath ddibrisdod o bob peth arall ddangosir ynddo, mewn cymhariaeth i'r "un peth anghenrheidiol!" gan nad ydyw yn gwneyd cymaint a'u cıybwyll. Y mae y llawysgrif yn weddol dda ag ystyried yr amser, a sefyllfa yr awdures. O na lenwid miloedd o'i chwïorydd âg ysbryd y Sarah hon! Gwnelid felly lawer o waith cenadol dystaw, gyda'r holl fanteision addysg presennol, a'r fath arferiad o ysgrifenu llythyrau. Amen.

Y CREADUR DYN YN NGARDD EDEN.

Gan y Parch. BENJAMIN MORRIS, *Aberhonddu.*

YCHYDIG iawn o hanes y Dyn Cyntaf a gafwyd yn y dadguddiad dwyfol, tra yr arosodd yn y cyflwr dedwydd hwnw, ac yn ddyn da megys y crëwyd ef. Rhydd Moses hanes ei greadigaeth, mewn modd eglur, byr a chryno; eithr yn ebrwydd ar ol hanes ei greadigaeth, wele hanes ei gwymp, a'i wrthgiliad truenus yn canlyn, fel na chawn nemawr ddim o hanes ei fywyd yn ei gyflwr o ddiniweidrwydd. Gwelir oddiwrth hyn nad oes genym fawr o fantais i ddyweyd ond ychydig iawn i sicrwydd ynghylch y "Pa fodd" y treuliodd efe ei fywyd diniwaid a gwreiddiol? Pa fodd bynag, y mae genym fantais i gasglu oddiwrth yr awgrymau a gawn ar wyneb y dadguddiad helaethach o feddwl Duw, a ysgrifenwyd gan ddynion sanctaidd ac ysbrydoledig o oes i oes, fod y dyn cyntaf- hwnw yn greadur moesol a chrefyddol, megys y daeth o law Duw.

Nis gallwn fod yn sicr, pa fodd bynag, er ei fod ef yn greadur gwybodus ragorol, ei fod ef yn *reddfol* yn gwybod y modd yr ewyllysiai ei Greawdwr iddo ef amlygu y parch hwnw i'w Grëydd, yn annibynol ar ddadguddiad. Tybiwn na wyddai y dyn cyntaf hwnw, o hono ei hun, i ba orchwylion daearol yr oedd efe wedi ei fwriadu, fel creadur moesol, er gogoneddu ei Dduw yma ar y ddaear. Yr ydym yn cael mai trwy ddadguddiad y daeth efe i wybod ymha fodd yr oedd efe i gael ei ddiwallu, megys creadur ymddibynol, yma ar y ddaear.

A wyddai efe yn y cyflwr gwreiddiol hwnw y modd, neu y ffurf, yr ewyllysiai ei Grëydd goruchel iddo ef amlygu y teimlad addolgar oedd loned ei galon, trwy rym *greddf?* Rhaid i greadur gael *ffurf* er amlygu ei deimlad addoliadol. Nis gallwn *feddwl* dim i bwrpas heb iaith. Rhed ein meddwl i ffurf geiriau yn y fan, pan fydd yn gweithredu. Ac os ydyw y Dadguddiad a gafodd Ioan yn Patmos yn cynnwys darluniau o bethau o'r tu hwnt i flinderau a buddugoliaethau yr Eglwys yma ar y ddaear, yr hyn beth y mae llawer yn ammeu, rhaid i ni gredu y bydd y drydedd nef yn llawn o ffurfiau, yn oes oesoedd, ymhlith angelion a saint. Mae o'r braidd yn ddirgelwch i ni ymha ffurf yr oedd addoliad yn cael ei ddwyn ymlaen yn yr Ardd odidog hono. A oedd ein rhieni cyntaf yn gweddïo pan yn addoli? Nis gallwn ddyweyd rhagor ar hyn na bod gweddïo yn waith digon da iddynt hwy *yno.* Gobeithio ein bod, un ac oll, yn synied fod cael gweddïo yn rhagorfraint fendigedig. Gallem feddwl mai po fwyaf sanctaidd y byddo dyn mai mwyaf i gyd a fydd yr awyddfryd am weddïo. Nid y teimlad o euogrwydd sydd yn gyru y dyn da i weddïo. Gwyddom oll y bu UN yn rhodio ein daear am flynyddoedd, nad oedd yn gwybod dim am fod yn euog; ond yr oedd Efe yn gweddïo llawer wrth fyw, ac yn "gweddïo yn ddyfalach" wrth farw!

A oeddent hwy yn Eden yn arllwys allan deimlad eu calonau addolgar mewn moliant clodforus i'r Goruchaf? Nis gallwn ddyweyd rhagor ar hyn na bod miliynau o'u hiliogaeth wedi bod yn canu yn ardderchog hefyd, o bryd i bryd, o dan annhraethol waeth amgylchiadau. Gallai aml un o'u plant hwy heddyw dybied na wnaethant hwy nemawr heblaw canu, o fore i nos, yn y fath "Arcadia!" Wel, yr ydym yn syniaw fod y dyn, yn y cyflwr cyntefig hwnw, yn greadur ardderchog o ran ei wedd yn gorfforol. Yr ydym yn ymdrechu yn wastadol coleddu y syniad am yr Anfeidrol yn ei holl weithrediadau mewn Creadigaeth, a'i Lywodraeth, neu ei Raglunaeth, ei fod Ef wedi ac yn parhau i wneyd y cwbl a wna yn y modd goreu; gan fod y cyfan a wna yn ymddibynu ar ei ewyllys. "I ddynion ewyllys da" ydyw iaith Rhaglunaeth, yn ogystal ag yn iachawdwriaeth y teulu colledig. Mae Efe yn ewyllysio yn dda i ddyn er gwrthryfelu o honom.

Credwn fod y dyn cyntaf hwnw yn greadur golygus a phrydferth o ran ei gorff. Gallasai fod o ran maintioli yn fwy na neb o'i hiliogaeth, er fod cewri ar y ddaear yn y byd cynddiluwaidd. A hawdd y gallasai yntau fod yn gawr o ran ei gorff, yn ogystal ag mewn meddwl. Yr oedd y cwbl a berthynai i'r byd isod hwn wedi ei greu o flaen y dyn, a'r oll,

mewn rhan, er mantais i'r dyn a'i hiliogaeth, ac yntau wedi ei fwriadu i fod yn llywydd ar y creaduriaid yn gyffredinol. Yr oedd ei sefyllfa hono yn sefyllfa *anrhydeddus iawn*. Nid oedd efe "yn ddelw y Duw anweledig," ond dywedir ar yr un pryd ei fod "ar ddelw Duw." Ffurfiwyd corff y dyn cyntaf o bridd y ddaear; a lluniwyd y wraig a roddes yr Arglwydd iddo o un o asenau corff Adda. Er fod y dyn cyntaf hwnw yr harddaf o holl greaduriaid y byd isod hwn, eto coron ei ogoniant fel creadur moesol oedd yr ysbrydol oedd o'i fewn ef. "Duw a anadlodd yn ei ffroenau ef anadl einioes; a'r dyn a aeth yn enaid byw." Megys y dywedai Charles y cyntaf o Gaerfyrddin, mai "y peth goreu yn y greadigaeth gyntaf yw yr unig beth yn yr ail, sef anian sanctaidd, neu ddelw Duw, ar yr enaid."

Yr oedd Dyn Eden yn ddyn dedwydd, ac yn greadur uchel ei radd yn ngraddfa bodolaeth, er ei fod, fel y dywedir, "o'r ddaear yn ddaearol." Yn ol syniad un o'r beirdd Seisonig, yr oedd Adda wedi ei osod yn rhywle o gylch "hanner y ffordd o Dduw i ddim."

Eithr o'n rhan ni nid ydym yn llwyr mor foddlawn i'r cyhydedd yna, canys yr ydym yn syniaw fod y dyn, ar yr adeg hono, gryn lawer o raddau yn nês i'r angel nag ydoedd i'r anifail ardderchocaf ar wyneb y cread. Mae yr angelion glân yn greaduriaid uchel iawn yn y raddfa; a dywedir ar awdurdod dda nad oedd y dyn cyntaf ond "ychydig is na'r angelion." Ai nid yw yr angelion sanctaidd hyny yn cydaddoli â duwiolion yma ar y ddaear yn aml iawn? Ai nid yw yr engyl caruaidd a glân, y bodau cymwynasgar a gwasanaethgar hyny, yn cydgymuno â phlant y cystudd mawr, yn fynych fynych yn y byd hwn? Ië, fy mrodyr anwyl, ai nid yw y saint a'r angelion yn cyd-chwennychu edrych ar ryfeddodau Duw yn nhrefn ei gyfammod mewn aberth?

"Os nad yw 'n bleser gan angelion
Ganu anthem hyfryd Sïon,"

tueddir ni i gredu na welodd Gabriel ddim llawer o bethau rhyfeddach, hyd yn nod yn y drydedd nef, nag a welodd laweroedd o weithiau, o bryd i bryd, ar y ddaear yma; sef, gweled Duw mawr a phechadur mawr, mewn Iawn mawr, yn cofleidio eu gilydd! Un o'r pethau rhyfeddaf mewn cysylltiad â dyn Eden ydoedd, ei fod yn gallu cymdeithasu â'i Wneuthurwr yn annibynol ar Gyfryngwr, na meddwl am y fath. Syniwn y crëwyd y lluoedd angylaidd cyn creu dyn, a dichon cyn creu dim arall. Ai nid y creadur dyn, sef yr olaf a grëwyd, ydoedd y creadur rhyfeddaf o'r holl greaduriaid a grëwyd? Gwyddom y canodd bardd Pantycelyn lawer, a chanodd yn dda odiaeth, am yr amrywiaeth rhyfedd o greaduriaid yn y nef a'r ddaear, uwchlaw ac islaw dyn. Meddai am ddyn, yn arbenig:—

"Ond dyn sydd fyd ei hunan,
Cair gwel'd y Brenin mawr
Yn hwn yn fwy gweledig,
Na dim o'r nen i lawr;
Fel pe na b'ai beth arall,
Ddadguddiai fath yw Duw;
Gwneuthuriad dyn ei hunan
Ddangosai pa fath yw!"

Am barhad cyflwr dedwydd dyn Eden, nid oes neb yn gwybod. Nis gallwn ychwaith gael fawr amgyffrediad na syniad am ddedwyddwch y saint a berffeithiwyd, tra yr ydym yma yn y cnawd; heblaw fod llawer o bethau a berthynent iddo heb eu dadguddio. Syniwn y crëwyd ef i *fwynhad* annhraethadwy, er ei fod o'r ddaear yn ddaearol. Un o hynodion dyn yn y sefyllfa ddedwydd hono yn yr Ardd ydoedd, nad oedd sain y gair melus "Trugaredd" ddim eto yn yr iaith yr oedd efe yn amlygu ei feddwl drwyddi. Ni wyddai efe eto ddim am ei blas hi! Ië, ni wyddai dyn nac angel ddim eto fod y Duw yr oeddent yn ei addoli gyda'r fath barch ac addoliad, yn meddu ar y fath briodoledd o gwbl! Heblaw hyny, yr ydym yn llafurio o dan gamsyniad dybryd, os na weinyddwyd "barn" ar greaduriaid yn y drydedd nef cyn i'r Dwyfol Fawredd gymeryd achlysur i ddadguddio fod ei fynwes erioed yn gyflawn o faddeugarwch. Syniwn mai yr amlygiad mwyaf o ddaioni Duw i'w greadur yn Eden ydoedd y gweithrediad cyfammodol hwnw am barhad y dedwyddwch ydoedd efe yn ei fwynhau; yr hyn yr oedd efe yn cael y fantais a'r fraint o'i sicrhau iddo ei hun a'i hiliogaeth, trwy ymddwyn am dymmor penodol yn ol Ewyllys ei

Grëydd, ar lwybr ufudd-dod, megys pen y teulu, a chynnrychiolydd ei hâd.

Credwn nad oedd bywyd gwreiddiol naturiol y dyn na'r angel ddim yn anfarwol "o anghenrheidrwydd," ond eu bod o ran parhâd fel creaduriaid yn ymddibynu ar ewyllys y Goruchaf, y naill fel y llall. "O herwydd dy ewyllys di y maent, ac y crëwyd hwynt." Yr ydym yn tybied y gwnaed y cyfammod daionus hwnw â'r dyn cyntaf cyn llunio y wraig; bod y weithred gyfammodol ddaionus hono wedi ei gwneyd â'r oll o'r teulu dynol; a bod y wraig, yn gystal a'r hiliogaeth, yn y cyfamser yn cael eu cynnrychioli, neu eu golygu yn Adda, yn bersonol, megys gwreiddyn yr oll; yn naturiol fel pen y teulu, ac hefyd fel cynnrychiolydd yr oll yn y cyfammod. Amlwg yw hefyd fod y wraig wedi ei haddysgu yn drwyadl yn y telerau, neu yr ammodau cysylltiedig â'r cyfammod, a daw hyn i'r amlwg yn ei hymddyddan â'r sarph a'i twyllodd. Meddai hi, "O ffrwyth prenau'r ardd y cawn ni fwyta; ond am ffrwyth y pren sydd yn nghanol yr ardd, Duw a ddywedodd, *Na fwytewch o hono*," &c. Amlwg yw ei bod hi wedi ei hyfforddi yn berffaith o barth i'r ammodau, yn y weithred y mae duwinyddion yn ei galw yn "gyfammod Eden."

Eithr y mae lliaws o gwestiynau yn ymgodi megys llyffaint, i wyneb llyn meddwl dyn llygredig, mewn cysylltiad â'r gweithrediad Dwyfol yn yr hyn a elwir "Cyfammod Eden," a wnaed rhwng y Goruchaf â'r dyn cyntaf ac â ninnau hefyd ynddo ef. Hen gwestiwn sydd wedi aflonyddu ar feddyliau miliynau o'r hil ddynol, o oes i oes, ydyw, Paham y goddefwyd i ddrwg moesol ddyfod i mewn i aflonyddu ar y tangnefedd heddychol a fwynheid mor rhyfedd a chyflawn gan deulu glân y gogoniant? Paham y goddefwyd i greaduriaid prydferth Eden gael eu temtio a'u llithio o'u sefyllfa ddedwydd ac anrhydeddus, i gyflwr euog a halogedig, hwy a'u holl had? Dyma ddau o'r pigynau lle yr anafwyd miliynau o greaduriaid meddyl-gar wrth geisio eu dringo, er eu bod yn meddu ar synwyrau a deall, a chynneddfau rhesymol. Os aeth ein rhieni cyntaf yn euog a halogedig, ac yn enwedig os aeth eu hiliogaeth yn wrthddrychau soriant y Goruchaf trwy eu hanufudd-dod hwy yn Eden ardd, trwy y camwedd cyntaf, tybiai miliynau trwy yr oesoedd a basiodd eu bod yn gweled brychau ar wyneb yr "orsedd wen fawr."

Anhawdd dywedyd llawer am ddyn yn ei gyflwr o ddiniweidrwydd heb gyffwrdd â'r hyn y mae yr Apostol Paul yn ei alw "yr arfaeth dragywyddol." Os oedd Teulu Paradwys a'u gosodiad yn y sefyllfa anrhydeddus hono, yn yr Arfaeth, anhawdd peidio cysylltu yr holl amgylchiadau yno â'r gweithrediad tragywyddol a enwir "arfaeth." Gwyddom am un o hen gestyll cedyrn Gogledd Cymru, ei fod wedi ei adeiladu ar ben craig uchel serth iawn o un tu. Cawsom adeg ar brydnawn unwaith, i fyned i rodio ar ben mur y castell hwnw, ac yr oedd edrych i waered o'r uchder crybwylledig, yn abl i synu a phensyfrdanu dyn! Y mae yno ddyfnder! Lled gyffelyb ydyw gyda golwg ar gwestiwn "y drwg moesol" yma a ddaeth i mewn i aflonyddu ar heddwch nef a daear. Nid oes genym ond dywedyd yn ol y prophwyd, "Pob cnawd, taw." Neu ynte, ddywedyd mewn syndra gyda'r Apostol, am weithredoedd Duw, "A'i ffyrdd mor anolrheinadwy ydynt!" Wedi y cwbl, y mae rhyw ysfa yn y meddwl dynol am geisio yspïo i waered uwch ben y dyfnder anolrheinadwy hwn! gan ymholi ynghylch y *paham* a'r *pa fodd*, &c., uwch ben y diphwys gorddwfn. A chan ein bod ninnau bellach wedi dyfod i mewn i ddosbarth yr hen bobl, yr oeddem yn "ofni yr hyn sydd uchel," a'n pen yn barod i 'droi,' pan geisiem agor ein llygaid i geisio cael allan y dirgelwch; a buom yn ceisio gan amryw o foneddigion doethion eraill ymaflyd yn ein llaw, tra yn yspïo i'r dyfnder islaw, er cael allan y dirgelwch. Cynnygiem ein llaw i Brown o Haddington, gŵr cymeradwy yn ei ddydd, ac eto hefyd; eithr ni buom fawr iawn gwell gyda golwg ar y drwg moesol yma, yn rhagor na chyfaddefiad fod yma "ddyfnder," &c. Cyn gadael ein safle, cyfarfuom âg un arall o'r prophwydi, sef Mr. *Gwyddoniadur Cymreig*. Eithr nid oedd ei lamp yntau yn rhoddi nemawr o oleuni ar ddirgelwch y drwg moesol

yma. Wel, yr oeddem er yn ieuanc yn meddwl yn uchel iawn am y *Geiriadur Ysgrythyrol* gan Charles o'r Bala; canys yr oeddym wedi clywed ein rhiaint hoff yn darlunio yr awdwr enwog, yn ei berson prydweddol a'i bregethau melusion ac efengylaidd. Ond nis gallodd yntau roddi i ni foddlonrwydd mawr am ddyfodiad y drwg moesol yma, er agoryd cynifer o feddau ar hyd y ddaear ymhob man, ac anurddo cymdeithas mewn modd truenus! Fel y cynnyg olaf, cyn troi adref, troisom i ymgynghori â'r diweddar Ddoctor enwog o'r Bala, er ceisio cael goleufynag ar ddirgelwch dyfodiad galarus y drwg moesol yma, er chwerwi tangnefedd y nef a'r ddaear. Yr oeddem yn cofio yn dda am y Doctor hoff yn pregethu ar foreu Sabboth, yn yr ardal yn yr hon y cawsom ein dwyn i fyny, pan nad oedd efe eto ond megys "cyw" arwrol, cryf, a'r pryd hwnw yn amddifad o lawer o'r plyf addurniadol a'i gorchuddient mewn blynyddoedd wed'yn; canys nid oedd efe ar y pryd hwnw ond yn bur ddiweddar wedi tyfu allan o'r plisgyn. Yr ydym yn cofio yn dda ei fod ef yn son am John Bunyan yn darlunio y Cristion yn myned i'r "gors o anobaith," a dyna i gyd ydym yn ei gofio o'r bregeth. Cofiwn yn dda, er nad oedd efe yn draddodwr hwylus iawn ar y pryd, fod hen ddiaconiaid y lle yn sylwi, "fod yn y pregethwr ddefnyddiau gloew," &c. Cofiwn yn dda hefyd am y son a'r sylw oedd ymhlith pobl grefyddol ei fod ef a'r diweddar Barch. J. Phillips, Bangor, yn myned i'r Athrofa i Scotland. Felly yr oedd genym gryn feddwl o'r Doctor er yr hen amser. Wel, nid oedd yntau yn medru dattod *pob* cwlwm o barth i'r cwestiwn; ond rhaid dyweyd y gwir,—allwedd y Doctor hoff o'r Bala a gawsom ni agosaf i droi yn nghlo y *dirgelwch!* Gŵyr y darllenydd, ond odid, y modd y mae efe yn ymwneyd â'r dirgelwch hwn yn un o'i "Draethodau Duwinyddol." Dywed fod pechod yn rhywbeth *ar ei ben ei hun*, wedi dyfod i fod yn beth diddeddf," &c. Mae holl weithredoedd Duw ymhob byd yn cael eu dwyn yn y blaen yn ol rheol neu ddeddf, a'r ddeddf hono yw ei ewyllys Ef ei hun. "Yn ol ei ewyllys ei Hun y mae efe yn gwneuthur â llu y nefoedd ac â thrigolion y ddaear." Priodol iawn y sylwai y gŵr mawr ac enwog o Gaerfyrddin yr ydym wedi ei enwi eisoes yn y llith bychan hwn; meddai y Parchedig David Charles yn un o'i bregethau argraffedig, "Fe wna Duw drefn ofnadwy, yn y man, ar uffern ei hunan!" Ydyw, y mae pawb sydd yno, yn gyffelyb i Judas Iscariot, yn eu lle eu hunain, ac ni cha un newid ei le am le un arall!

Mae mawredd dwyfol yn argraffedig ar holl weithredoedd Duw, mewn creadigaeth, a rhagluniaeth, yn gystal ag yn nhrefn ei ras. "Ysbryd yw Duw," a meddwl yr Ysbryd dwyfol hwn yw yr hyn a elwir ei "arfaeth Ef." Yr esboniad goreu a ellir gael ar ei arfaeth Ef ydyw gweithrediadau ei ragluniaeth Ef. "Yn ol yr arfaeth dragywyddol." Beth ydym i'w ddeall wrth ymadrodd o'r fath ond bod yr Anfeidrol yn yr oll y mae Efe yn ei wneyd yn gweithredu, yn y lle cyntaf oll, er boddhâu ei feddwl tragywyddol Ef ei Hun?

Deallwn fod rhywrai, o bryd i bryd, wedi bod yn breuddwydio, ac yn dywedyd hefyd, mai plentyn John Calvin ydyw etholedigaeth, os nad yr arfaeth hefyd. Na! nis gallai hyny fod; canys yr oedd Calvin heb ei eni, a'i dad a'i fam ef heb briodi, pan y ganed Paul, ac am flynyddoedd lawer, ar ol marwolaeth yr Apostol yn Rhufain. Ac yr oedd y dyn cyntaf yn Eden wedi byw a marw flynyddoedd lawer iawn o flaen Paul yr Apostol; eto yr oedd Adda yn blentyn yr arfaeth! Parod ydym i dybied ei fod ef a'i briod brydferthaf, a chyntaf o'i rhyw, yn gadwedig hefyd, er maint eu ffolineb, yn ngrym etholedigaeth gras: "yn ol boddlonrwydd ei ewyllys Ef, yr Hwn sydd yn gweithio pob peth yn ol cynghor ei ewyllys ei Hun."

Dirgelwch i'r creadur dyn, ac fe allai i bob creadur arall, hyd yn hyn, ydyw, y *paham* y goddefodd y Duw da i'r *black traitor* cyfrwys ddyfod i mewn i'r ardd baradwysaidd hono; yr hwn a siglai gryd plentyn ieuengaf y cread mor drwsgl nes ei daflu allan o bob hawl i bob daioni yn oes oesoedd, ac yn wrthddrych gwg ac anfoddlonrwydd y Goruchaf gyda llaw! Paham y goddefodd y Duw da beth o'r fath yn ei Lywodraeth o gwbl? Yma y mae "dyfnder mawr," lle y boddodd

miliynau o greaduriaid synwyrgall, wrth geisio ei fesur â llinyn eu rheswm anianol. Ni a glywn un o blant y "cyfammod gwell," yn canu mewn hwyl yn y Salm, gan ddywedyd, "Mor werthfawr yw dy feddyliau genyf, O Dduw." Annichon i ni a fyddai moliannu uwch ben y Meddyliau boreu cyn y byd, tra fyddom yn grwgnach yn yr olwg ar y gweithrediadau. Mae plant y cyfammod yn mwynhâu yn rhyfedd ar amserau yma yn ngwlad y cystudd, trallod, a cherydd, y drychfeddwl godidog fod eu Tad nefol yn gymaint wrth ei fodd yn nhrefn eu hiachawdwriaeth. Dywedir fod y Goruchaf, "yn cyfanneddu yn moliant Israel." Mae genym gof da am danynt, tua chymydogaeth Llangeitho, a'r cylchoedd hyny, o gylch triugain mlynedd yn ol, yn moliannu mewn hwyl, ac yn adrodd gyda gwres yr hen emyn hono sydd yn cynnwys y pennill hwnw:—

"Fe gofiodd Duw am danaf,
Yn nhragwyddoldeb pell,
Gan osod un o'r gwaelaf
Yn ei gyfammod gwell."

Y mae rhagor na thriugain mlynedd a deg wedi myned heibio bellach, er pan y bu Ishmael Jones o Landinam yn pregethu yn hen Gapel bychan Blaenpennal, ac yn prophwydo am adfywiad crefyddol yn yr ardal hono. Ebai yr heu bregethwr, "Fe ddaw diwygiad. Pa bryd y daw o? Wel, fe ddaw cyn pen blwyddyn; daw, cyn pen mis!" A'r hyn oedd ac sydd yn rhyfeddod i ni, ac i liaws gyda ni ydoedd, i'r cyfryw "ddiwygiad," fel ei gelwid, *ddechreu* yn yr oedfa *hono*. Dechreuai rhyw dair o wyryfon foliannu cyn diwedd yr oedfa, ac ymdaenodd yr adfywiad hwnw trwy yr ardaloedd hyd ymhell, yn ei effeithiau achubol a daionus. Credwn ni fod rhyw gysylltiad rhwng yr oedfa werthfawr hono â'r arfaeth dragywyddol yr ydym yn son am dani yma. O, ie, gan gofio, nid gwael ydoedd syniadau y "Bardd Coch" o Frycheiniog, sef y diweddar Barch. Thomas Elias, gyda golwg ar yr arfaeth hon, yn ei emynau a gyhoeddwyd ynglŷn â'i Gofiant. Meddai,—

"Mae cyson drŏellau naturiaeth
'N ol arfaeth anfeidrol y ne';
Pob olwyn mewn olwyn yn dirwyn,
Heb olwyn fyth allan o'i lle;
Holl droion yr anial ynt ddyrys,
Yn fychain a mawrion eu maint;
Pob gauaf a haf yn cydweithio
Daioni tragwyddol i'r saint."

Eglurhadaeth Ysgrythyrol.

GWERSI UNDEB YSGOLION SABBOTHOL CYMRU.

☞ *Cyfeirier at y GWERSLYFRAU am y WERS a'r CWESTIYNAU arni. Cofier fod y Wers ar gyfer pob Sabboth o Ebrill 1af, 1888, i'w rhanu dros ddau Sabboth.*

Y DOSBARTH CANOL.

SABBOTH, HYDREF 13EG—*(Y rhan olaf o'r Wers am* IONAWR 13EG *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 12).

Adgyfodiad Crist. Luc xxiv. 13—35.

CAWN yn y paragraph hwn hanes ymddyddan yr Iesu â'r ddau ddysgybl ar y ffordd tuag Emmaus. Luc yn unig sydd yn ei adrodd, oddiar adroddiad Cleopas, gallem dybied. Y mae yr hanes yn hynod o brydferth a thoddedig, ac yn gymhorth mawr i sylweddoli yr holl sefyllfa—agwedd meddwl y dysgyblion pan oedd ein Harglwydd yn y bedd, ac wedi iddo gyfodi.

ADN. 13: *Dau o honynt.* Nid o'r Apostolion; gwelir fod yr un ar ddeg gyda'u gilydd, adn. 9. Cleopas oedd un o honynt, adn. 18. Pwy oedd y llall, ofer yw ymholi. Dywed Origen mai Simon ydoedd, gan dybied mai hwn oedd yr ymddangosiad i Simon, adn. 34. Tybiai eraill mai Nathanael ydoedd, eraill Luc ei hunan. *I dref a'i henw Emmaus.* Yr oedd dau le arall o'r un enw. Pentref o saith i wyth milldir o Jerusalem. *(Ystâd*—yr wythfed ran o filldir.)

ADN. 15, 16: Tra yr oedd eu calonau yn llawn o adgofion am Grist marw, yr oedd y Crist byw gyda hwynt. Ond nis adwaenent Ef; ni chredent ei fod wedi cyfodi; nid oeddynt yn ei ddysgwyl; yr oedd y corff adgyfodedig wedi newid (Marc xvi. 12). A chyda'r cwbl, ymddengys fod dylanwad goruwchnaturiol ar eu llygaid i'w "hattal" rhag ei adnabod, adn. 16 a 31. Mynai efe i'w hadnabyddiaeth o hono gael ei hoedi hyd "doriad y bara." Adwaenasant Ef yn y fan wrth ei ddull a'i agwedd yn gwneyd hyn, yr hon oedd mor gynnefin iddynt.

Yr oedd ganddo amcan i barotoi eu meddyliau.

Adn. 17: *Pa ryw ymadroddion yw y rhai hyn? &c.* Ymddengys fod yr Iesu wedi bod yn cerdded gyda hwynt am beth amser cyn iddo ddyweyd hyn. Nid yw ei gwestiwn yn awgrymu beïad. Gallai fod y ddau yn cymeryd gwahanol olygiadau ar y mater, ac yn dadleu â'u gilydd. Cleopas, dybygid, a gymerai yr olwg fwyaf anobeithiol; ymddengys mai efe oedd yn ateb, adn. 18 a 21.

Adn. 18: *A wyt ti yn unig yn ymdeithydd yn Jerusalem?* Cymerent hwy Ef fel gŵr dyeithr wedi bod yn yr ŵyl yn Jerusalem. Er iddo fod felly, ac yn "lletŷa yn unig," pa fodd y gallai fod heb wybod beth oedd testyn eu hymddyddan? Dyna ystyr eu cwestiwn. 'Nid oes ond un dosbarth o amgylchiadau yn llenwi Jerusalem, ac yn llenwi pob meddwl—a wyt ti yn anwybodus o'r pethau?'

Adn. 19: *Pa bethau?* Sylwa Stier yn dda ar y cwestiwn hwn ei fod yn dangos i ni pa mor bell y gallwn, yn noethineb cariad, *gymeryd arnom* yr hyn nad yw yn bod, heb fod yn euog o ddyweyd anwiredd. Gwnai y Perffaith hyn, mewn math o *humour* sanctaidd cariad (onid dyma y peth tebycaf i *humour* a gawn yn y Gwaredwr?), er mwyn tynu y dysgyblion allan. "Cymerai arno" yn awr fod heb wybod beth oedd wedi dygwydd yn Jerusalem; a "chymerai arno" ei fod yn myned yn mhellach wedi cyrhaedd Emmaus. Rhith diniwed, cyson â'r sancteiddrwydd puraf. *Hwythau o ddywedasant wrtho.* Un yn enau, a'r llall yn cydsynio; neu un yn awr, a'r llall bryd arall. Nis gallwn dori y paragraph i fyny, a rhoddi ei ran i bob un. Yr ystyr yn unig yw—'dyma sylwedd yr ymddyddan.'

Adn. 25: *O ynfydion.* Y mae y gair yn gryfach na'r gwreiddiol. (Saes: *O fools).* Golyga y gair ἀνόητοι "ddynion anneallus" neu "ddynion ffol" (Cyf. Diwyg: *O foolish men*), gyda thynerwch yn yr aceniad, yn ddiau, fel y sylwa un.

Adn. 26: *Onid oedd raid i Grist?* &c. 'Onid oedd yn gweddu i Grist?' Dyma oedd un o nodau y Crist—"y dyoddefai efe." Y mae *gweddu* a *rhaid* yn gyfystyr yn eu perthynas â'r Dwyfol. Nis gall Duw wneyd ond yr hyn sydd weddus, ac nis gall beidio gwneyd yr hyn sydd weddus. Iddo Ef, y mae gweddusrwydd yn anghenrheidrwydd.

Adn. 30: *A darfu, ac efe yn eistedd gyda hwynt,* &c. Teithwyr oeddynt, ac aethant âg Ef gyda hwynt i'r gwestŷ. Eisteddai yr Iesu wrth ben y bwrdd, gan weithredu fel y lletŷwr. Ŷ mae yn debyg fod rhywbeth yn ei ddull o dori y bara, a'i estyn iddynt, yr hyn oeddynt wedi ei weled Ef yn ei wneuthur lawer gwaith; a'i waith yn "bendithio" neu roddi diolch (yr oedd yn rheol ymhlith yr Iuddewon, os byddai tri yn bwyta gyda'u gilydd, eu bod i roddi diolch ar gyhoedd); ac ni a allwn fenthyca cwestiwn y bardd, dim ond rhoddi *oedd* yn lle *yw*—"A oedd ôl yr hoelion yno . . . yn ei ddwylo?" ac yn olaf, ei ewyllys Ef ei hun iddynt yn awr gael ei adnabod—fod y cyfan gyda'u gilydd wedi agoryd eu llygaid "fel yr adnabuant ef." Pryd o fwyd cyffredin oedd hwn; nid oes yma un cyfeiriad at, chwaithach gweinyddiad o, Swper yr Arglwydd. Nid oedd yr un o'r ddau ddysgybl hyn yn bresennol yn ei sefydliad, yn ol pob tebyg. Ceisia y Pabyddion wneyd allan mai Swper yr Arglwydd ydoedd, a defnyddiant ef i amddiffyn y dull Pabyddol o roddi y bara yn unig i'r cymunwyr.

Adn. 33—35: Dychwelasant i Jerusalem yn llawn o'r newydd mawr. Cawsant y dysgyblion mewn cyfarfod eglwysig. Gallwn ddychymygu, neu yn hytrach nis gallwn ddychymygu, y teimladau bywiog oedd yma o bob tu!—yr holi awyddus am bob manylion o'r hanes, a gwresogrwydd y ddau ddysgybl yn ateb ac yn desgrifio yr holl olygfa. Rhaid i bawb sydd wedi cael gafael ar y Crist byw, fyned a mynegi am dano i eraill: y mae "cariad Crist yn eu cymhell." *A ymddangosodd i Simon.* Cafodd y dysgybl oedd wedi ei wadu gyfarfod i gyd iddo ei hunan, a maddeuant gyda hyny. Onid yw hyn yn debyg i'r tyner a'r addfwyn Iesu! Nid oedd yn aros yn hir gyda hwynt ar ol ei adgyfodiad. Yr oedd am iddynt wybod ei fod wedi cyfodi, ond hefyd am iddynt ddysgu byw heb ei bresennoldeb gweledig.

Sabboth, Hydref 20fed—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* Ionawr 20fed *yn y* Gwerslyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 12).

Gwêl y Nodiadau ar *Adgyfodiad Crist* (Matthew, Marc a Luc) yn y Rhifyn diweddaf o'r Drysorfa: tu dal. 334—338.

Sabboth, Hydref 27ain—*(Y rhan olaf o'r Wers am* Ionawr 20fed *yn y* Gwerslyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 12).

Gwêl y Nodiadau y cyfeirir atynt uchod. Nis goddef ein terfynau i ni geisio at gysoni adroddiad Ioan o adgyfodiad Crist a'r eiddo y tri Efengylwr arall, na'r eiddynt hwythau â'u gilydd. Sylwa Meyer nad oes mwy o lafur a llai o lwyddiant wedi bod gyda dim, ymhlith cysonwyr, na chyda'r adran am yr Adgyf-

odiad. Barna efe fod tynu yr hanes oddiwrth eu gilydd, a gosod y darnau ynghyd yn un cyfanwaith, mewn modd celfyddydol, yn beth anmhosibl. A sylwa fod ffaith fawr yr hanes, a phob peth o bwys yn ei fanylion, yn sefyll yn fwy cadarn oblegid hyny.

Y rhai a ganlyn ydynt yr oll o ymddangosiadau ein Harglwydd ar ol ei adgyfodiad, sydd wedi eu croniclo yn y Testament Newydd: (y mae lle i gredu fod amryw nad ydynt yn cael eu hadrodd, Act. i. 3).

1. I Mair Magdalen, Ioan xx. 11—18; Marc xvi. 9—11.

2. I'r gwragedd eraill a aethant at y bedd, Mat. xxviii. 9.

3. I Pedr, Luc xxiv. 34; 1 Cor. xv. 5.

4. I'r ddau ddysgybl ar y ffordd i Emmaus, Luc xxiv. 13—35; Marc xvi. 12.

5. I'r un ar ddeg yn yr hwyr, a Thomas yn absennol, Ioan xx. 19—24.

Yr oedd y pump uchod ar ddydd yr adgyfodiad.

6. I'r un ar ddeg, a Thomas yn bresennol, ymhen yr wythnos, Ioan xx. 25—29; Marc xvi. 14—18.

7. I saith o'r Apostolion wrth Fôr Galilea, Ioan xxi. 1—24.

8. I bum' cant o'r dysgyblion ar fryn yn Galilea, Mat. xxviii. 16—20; 1 Cor. xv. 6.

9. I Iago, 1 Cor. xv. 7.

10. I'r apostolion yn Jerusalem, Act. i. 3—5; 1 Cor. xv. 7.

11. Yn agos i Bethania, ar ei Esgyniad, Act. i. 6—11; Marc xvi. 19; Luc xxiv. 50, 51.

SABBOTH, TACHWEDD 3YDD—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* IONAWR 27AIN *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 13).

Y Ddalfa Bysgod. Ioan xxi. 1—6.

Y MAE diweddglo naturiol y llyfr yn niwedd y bennod flaenorol. Attodiad yw y bennod hon.

ADN. 1: *Gwedi y pethau hyn, yr Iesu a ymddangosodd drachefn.* Cyfeiria yr adroddiad yn ol, yn unol â'i natur fel attodiad, at yr hanes diweddaf *cyn* y diweddglo, xx. 30, 31. "A ymddangosodd"—a 'amlygodd ei hun.' Ni ddefnyddia Ioan y gair hwn yn unman arall. Rhagdybia ystad o ymguddiad, o'r hon y mae yn awr "drachefn" yn dyfod allan. Cyfeiria y "drachefn" at y ddau ymddangosiad blaenorol, xx. 19, 26. Nid ystad ysbrydol, nid "cyfoh o anweledigrwydd," ond yn hytrach dull o fôd rhyfeddol o wahanol, heb fod mwyach yn perthyn i gymundeb cyffredin y ddaear, ond wedi dyfod yn nês at ystad o ogoneddiad, ac eto yn faterol.

ADN. 2: *A dau eraill o'i ddisgyblion ef.* Gan na enwir dau o honynt, fe allai mai dysgyblion yn yr ystyr eangaf i'r gair yn unig oeddynt.

ADN. 3, 4. Yr oedd y dysgyblion yn awyddus i ail-ymaflyd yn eu galwedigaeth fel pysgotwyr. Yn y ncs yr oedd pysgota yn fwyaf llwyddiannus. Ond "y nos hono, ni ddaliasant ddim." *Y disgyblion ni wyddent mai yr Iesu oedd efe.* Yr achos o hyn oedd yr hyn y cyfeiriwyd ato yn barod—y dull gwahanol o fod ac ymddangos a berthynai i'r Iesu adgyfodedig.

ADN. 5, 6. Awgryma ffurf y cwestiwn farn y gofynwr yn y nacäol: 'Nid ydych, y mae'n debyg, eisoes, mewn meddiant o rywbeth i'w fwyta?' Golyga y "bwyd" bysgodfwyd yn neillduol. Bwriadai, os oedd ganddynt, gymeryd ei foreufwyd gyda hwynt. Awgryma yr atebiad "Nac oes" eu bod wedi ei gymeryd am ddyeithr-ddyn hollol, yr hwn a dybient a chwennychai brynu pysgod i'w foreufwyd. Deallent hwy y cyfarchiad "O blant" yn ngenau dyn dyeithr, yn unig fel dull cyfeillgar o osod allan ystad o wasanaeth. Arferai yr Iesu ef mewn cariad tadol. Clywsom y diweddar Mr. Rees yn dyweyd ei fod yn debyg iawn i'r cyfarchiad *Lads!* yn ein gwlad ni. "Bwrw" y rhwyd wag; ond ei "thynu" yn llafurus wedi ei llanw â physgod, ac ni allent wneyd hyny "gan y lliaws pysgod."

DOSBARTH HYNAF.

SABBOTH, HYDREF 13EG—*(Y rhan gyntaf o'r Wers am* IONAWR 6ED *yn y* GWERSLYFRAU YSGRYTHYROL: LLYFR II., *tu dal.* 30).

"Arglwydd, dysg i ni weddïo." Luc xi. 1—4.

ADN. 1: *Mewn rhyw fan.* Nid oes sicrwydd am y lle. Tybia rhai fod y wers hon ar weddi wedi ei rhoddi yn yr un lle a'r wers ar ffydd yn y bennod flaenorol, sef yn Bethania. Gan fod Luc yn rhoddi yr hanes hwn ar ol yr olygfa deuluaidd gyda Mair a Martha, a chan y byddai y Gwaredwr yn arfer gweddïo ar y mynyddoedd, tybia rhai mai Mynydd yr Olewydd oedd hwn—lle ei ing a'i esgyniad ar ol hyn. *Arglwydd, dysg i ni weddïo, megys ag y dysgodd Ioan i'w ddysgyblion.* Nid yw y Testament Newydd yn dadgan barn o gwbl ar ffurfweddi. Y mae hyn yn un o'r lliaws pethau sydd i'w barnu, nid wrth reolau caeth, ond yn ol anghenion a thuedd-

iadau y bywyd ysbrydol, neillduolion amgylchiadau a phersonau. Nid ffurf i'w defnyddio yn gaeth ydyw Gweddi yr Arglwydd, ond yn hytrach cynllun o weddi. Ar yr un pryd nis gallasai cynllun o weddi gan yr Athraw Mawr beidio a chael lle anrhydeddus yn ngwasanaeth cyhoeddus yr Eglwys; yr hyn hefyd a gafodd o'r dechreuad. Credwn fod y rhan fwyaf o'r enwadau Ymneilduol i'w beïo, a'u bod yn golledwyr, o herwydd eu hesgeulusdra o Weddi yr Arglwydd. Dysgasai Ioan ffurf o weddi, y mae yn debyg, i'w ddysgyblion: Luc v. 33. Gallai fod rhai o honynt hwy, a gofient hyn yn dda, wedi dyfod yn ddysgyblion i'r Iesu.

Y mae yn bwnc o ddadl a roddodd ein Harglwydd y Weddi hon i'w ddysgyblion ar fwy nag un achlysur? Nid yw yr un fath yma ag yn Matthew (y fawlwers yn y diwedd ar ol, &c.), nac yn yr un cysylltiad. Y mae y tebygolrwydd yn gryf dros ateb cadarnhaol. Saif mewn perthynas agos â'r hyn sydd o'i blaen yn Matthew, ac felly yma yr un modd. Dywed Meyer fod y ffurf dalfyredig yn Luc yn brawf nad oedd yr Eglwys Apostolaidd yn ei defnyddio fel ffurf. Credwn gydag Alford mai nid profi hyny y mae, ond profi fod yr Efengylwr yn dylyn ei ddefnyddiau yn ffyddlawn, ac nid yn eu newid i fod yn gyddffurf â'r hyn oedd yn arferedig ar y pryd (fel y gwnaeth awdwyr amryw ddarllenladau ar ei ol). Cwestiwn teg ydyw—os nad oedd yr Eglwys Apostolaidd yn defnyddio Gweddi yr Arglwydd fel ffurf, *pa bryd* y dechreuwyd ei defnyddio, gan ei bod i'w chael ymhob ffurf-wasanaeth *(liturgy)* adnabyddus?

Adn. 2, 3, 4. Yn gyntaf, cyfarchiad i Dduw fel *Tad*, ond nid yw hyn i guddio ei fawredd—"Tad *yn y nefoedd*" ydyw. Dyben eithaf ein haddoliad, a phob peth mewn bod, yw "sancteiddio" neu ogoneddu ei enw. Y ffordd i hyn gael ei gyflawni yw trwy i'w deyrnas "ddyfod"—yr amlygiad uwchaf o hono, yr hwn sydd i wneyd dynion yn debyg iddo. Sylwa rhai mai yr arch sydd yn ganolbwynt yr oll o'r weddi yw hon—"deued dy deyrnas." Pethau anghenrheidiol tuag at hyn yw yr oll o'r lleill. Effaith hyn fydd ufudd-dod i ewyllys Duw ar y ddaear megys yn y nefoedd. "Bara beunyddiol" yw, nid "bara bob dydd" *(daily bread)*—y mae "o ddydd i ddydd" yn rhoddi y syniad hwnw—ond y bara, yr ymborth sydd yn anghenrheidiol i gynnal ein bywyd—*ἐπιούσιον*, yr hyn sydd anghenrheidiol i gynnal ein *οὐσία*, ein bôd a'n bywyd; *panis sufficiens*—"portha fi â'm digonedd o fara."

Sylwa un fod gweddi yr Arglwydd yn grynodeb byr o brif wirioneddau y Ffydd Gristionogol, ac o brif ofynion y bywyd Cristionogol. Ceir Duw yma yn Fôd personol, bywiol, yn rhydd-weithredydd, ar wahân oddiwrth y creadur, ac eto mewn perthynas uniongyrchol âg ef. Ceir dyn yma fel bôd dibynol, pechadurus, hawdd ei lithio; pechod, fel dyled i Dduw; dyn wedi ei fwriadu i undeb â theyrnas Dduw. Ceir yma athrawiaeth angylion, ac ysbryd drwg neu ddiafol personol ("rhag drwg—rhag yr *un* drwg"). Y mae prif fendithion yr iachawdwriaeth yma, maddeuant a sancteiddhâd. Nid yw yr elfen neillduol Gristionogol yn cael lle amlwg yma. Ond yr oedd ffeithiau mawr yr Efengyl eto heb eu cyflawni. A gweddi i'r dysgyblion ydoedd, y rhai a wyddent nad oedd neb yn dyfod at y Tad ond trwy y Mab. Gellir casglu prif ddyledswyddau y bywyd Cristionogol at ein Tad yn y nefoedd, a'n brodyr ar y ddaear, oddiwrth y Weddi hon.

Sabboth, Hydref 20fed—*(y rhan olaf o'r Wers am* Ionawr 6ed *yn y* Gwerslyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 30*)*.

"*Arglwydd, dysg i ni weddio.*" Luc xi. 5—13.

Adn. 5, 6: Nid yw dammeg y cyfaill ganol nos i'w chael ond yn Luc. Rhoddodd ein Hiachawdwr gynllun o weddi yn yr adran flaenorol; dengys yn awr yr anghenrheidrwydd am ffydd, neu y taerineb sydd yn tarddu o ffydd, fel ysbryd i fywhau y cynllun. Cymerir defnydd y ddammeg o amgylchiadau bywyd cyffredin. Cyfaill yn ymdaith ac yn cyrhaedd y tŷ ganol nos. Yr oedd hyn yn beth cyffredin yn y Dwyrain—teithio yn y nos, i ochel gwres mawr y dydd. "Moes i mi dair torth:" "un i'm hymwelydd, un i mi, ac un dros ben, er mwyn anrhydedd."—*Bengel.*

Adn. 7: *Na flina fi*, &c. 'Y mae yr adeg yn hollol anamserol; yn awr y mae y drws yn gauad'—(nid wedi ei gau yn unig, ond wedi ei gloi, wedi ei folltio, wedi ei wneyd i fyny am y noson) 'a'm plant gyda mi yn y gwely;' y meddwl yw, nid yn yr un gwely, ond 'y mae y plant yn eu gwelyau, a minnau yn y gwely—yr ydym oll fel teulu wedi ymneilduo i dawelwch a gorphwysdra y nos.' A'r diwedd yw, nacâd penderfynol—"Ni allaf godi a'u rhoddi i ti." Gradd bell o anewyllysgarwch, yn cael ei galw yn anallu.

Adn. 8; *O herwydd ei daerni.* Y mae "taerni" yn gyfieithiad rhy wan. Golyga *ddigywilydd-dra.* Y mae taerni yn anghenrheidiol, nid am nad yw Duw yn

barod i roddi, ond er mwyn ein cael ni yn barod i dderbyn. Nis gellir cyfranu bendithion ysbrydol ond i'r enaid sydd yn teimlo eu gwerth a'i anghen am danynt. Nis gall neb arall eu derbyn. Mynegiad o'r teimladau yna ydyw taerineb.

Adn. 9—13. Gwêl y nodiadau ar Mat. vii. 7—11: y Drysorfa am *Rhagfyr*, 1887: tu dal. 451, 452.

Sabboth, Hydref 27ain—*(Y rhan olaf o'r Wers am* Ionawr 13eg *yn y* Gwerslyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 30).

Yn ciniawa gyda rhyw Pharisead.
Luc xi. 37—44.

Beth yw y berthynas rhwng yr adran hon a'r bennod fawr o ddynoethiad a bygythion ar y Phariseaid—Matt. xxiii.? Y mae llawer o debygrwydd rhwng y ddwy. Y farn gywiraf, dybygem, yw fod ein Hiachawdwr wedi traethu y gwahanol ranau a wnant i fyny y bennod hono *ar amrywiol achlysuron.* Llefarodd y bennod hono yn y deml, yr wythnos olaf o'i weinidogaeth; ac y mae yn ddiau fod yr adroddiad hwnw fel y mae yno, yn ei le a'i amser ei hun. Ond nid oes dim yn annghyson â hyny mewn meddwl fod ein Harglwydd wedi llefaru rhanau o'r bennod hono ar yr achlysur hwn yn gystal a rhai eraill.

Adn. 37: *Ac fel yr oedd efe yn llefaru.* Nid tra yr ydoedd yn llefaru y geiriau blaenorol, ond ar yr adeg hon. *Rhyw Pharisead a ddymunodd arno giniawa gydag ef.* Nid y prif bryd oedd hwn, ond un ysgafnach, cynnarach yn y dydd, ac yn llai trafferthus.

Adn. 38: *A ryfeddodd.* Nid oes sail i dybied nad oedd ein Hiachawdwr yn arfer golchi dwylaw cyn bwyta. Gallai iddo beidio y tro hwn o herwydd sydynrwydd ei ddyfodiad i'r tŷ, neu am ei fod wedi blino gan lafur y dydd blaenorol.

Adn. 39—44. Dyma oedd hanfod Phariseaeth—*rhagrith*, ymddangosiad yn unig, y tu fewn heb fod yn ateb i'r tu allan. Y tu fewn iddynt hwy ("*eich* tu mewn") a gyferbyniai â'r "tu allan i'r cwpan a'r ddysgl"—gofalent am y tu allan yn unig iddynt eu hunain a'u cyflawniadau. *Onid yr hwn a wnaeth yr hyn sydd oddiallan, a wnaethyr hyn sydd o fewn hefyd?* Y mae y tu fewn a'r tu allan yn sanctaidd, gan mai Duw a wnaeth y ddau; felly ni ddylid gwahanu hyd yn nod mewn syniad y pethau sydd yn eu natur yn anwahanol. Neu, yn ol golygiad arall—Os yw ei weithredoedd Ef wedi myned yn halogedig, pa ddyben yw eu puro mewn rhan yn unig, heb lanhau y cwbl? *Rhoddwch elusen o'r pethau sy genych: ac wele, pob peth sy lân i chwi.* Nid gwatwareg, fel y barna rhai; tel pe dywedasai—'fel yna yr ydych *chwi* yn synio am bethau.' Cerydd sydd yma ar eu cybydd-dod, yr hwn a guddid gan fanylrwydd seremoniol. Dengys ein Harglwydd ragoriaeth "pethau trymaf y gyfraith" ar ddefodau allanol, megys yn y gair hwnw—"Trugaredd a ewyllysiaf ac nid aberth."

Adn. 42: *Yr ydych chwi yn degymu y mintys, a'r ryw, a phob llysieuyn, &c.* Yr oedd cyfraith Moses yn gorchymyn offrymu y degwm, Num. xviii. 21; Deut. xiv. 23. Bai y Phariseaid oedd cymhwyso y gosodiad hwn at fân-bethau y tu allan i amcan y gosodiad, tra yr oeddynt ar yr un pryd yn myned heibio i bethau trymion y gyfraith, oedd yn ymwneyd â'r ysbryd—barnu eu hunain, Ioan vii. 24; cariad Duw; ac yn ol Matthew, ffydd. Troseddent y dyledswyddau egluraf tuag at Dduw, eu cymydog, a hwy eu hunain. *Y pethau hyn oedd raid eu gwneuthur, ac na adewid y lleill heb wneuthur.* Iawn oedd rhoddi ufudd-dod manwl i bob peth a orchymynid yn nghyfraith Duw; ond yr oedd y dyledswyddau uwchaf i'w cyflawni o leiaf yr un mor gydwybodol. Prawf, medd Lange, o dawelwch nefol a diduedd rwydd ein Hiachawdwr, oedd ei fod mor gymedrol wrth gondemnio. Nid oedd yn dirymu nac yn bychanu dim a orchymynwyd, ond yn galw sylw at yr esgeulusdra o'r pethau pwysicaf.

Adn. 43, 44. Egwyddor Phariseaeth oedd hunan-gais. Deuai i'r golwg mewn chwennych y prif-gadeiriau, anrhydedd a chyhoeddusrwydd. Y mae y cyfeiriad at "feddau" yn wahanol yma i Mat. xxiii. 27. "Beddau wedi eu gwynu" ydynt yno, "yn deg oddi allan;" ond yma, "beddau anamlwg," nes bod dynion yn cerdded hyd-ddynt heb wybod mai beddau oeddynt. Addurno llygredigaeth â ffug-grefyddolder sydd yn y naill, a'i guddio o'r golwg yn y llall.

Sabboth, Tachwedd 3ydd—*(Y rhan olaf o'r Wers am* Ionawr 13eg *yn y* Gwerslyfrau Ysgrythyrol: Llyfr II., *tu dal.* 30.

Adn. 45—54. *Un o'r cyfreithwyr.* Urdd ddysgedig yn mhlith y Phariseaid, uwchraddol i'r corff o honynt (*νομικοί*). Ystyr geiriau y cyfreithiwr hwn, dybygid, oedd—'Os siaredi fel hyn, ti a gynhyrfi nid yn unig y lliaws yn dy erbyn, ond y corff dysgedig—nid yn unig y gwŷr llëyg, ond y gwŷr llên.' Ond ni thyciodd y rhybudd hwn i ddystewi yr Athraw, fel y gwelir; yn hytrach, tynwyd ef allan i ddynoethiad nerthol o ragrith ac euogrwydd pob dosbarth o'r Phariseaid, ac i

gyhoeddiad difrifol o'u tynged. Esbonient y gyfraith yn y fath fodd ag i arddodi gorchymynion manwl a llïosog am bethau bychain ar y bobl, heb feddwl cydffurfio â hwynt eu hunain. Adeiladent feddau y prophwydi, dan rith eu hanrhydeddu; ond mewn gwirionedd, eu hail-gladdu megys yr oeddynt, anrhydeddu gwaith eu tadau yn eu lladd—cyfodent eu beddfeini fel côf-golofnau, mewn gwirionedd, o wrhydri eu tadau. Nid anrhydeddu y prophwydi oedd eu gwir amcan, ond anrhydeddu eu llofruddion. Yr oedd yr un gelyniaeth at Dduw a'i weision ynddynt hwy ag oedd yn eu tadau. Cyfranogent o'u heuogrwydd, ac am hyny cyfranogent o'u cosb. "Am hyny hefyd y dywedodd doethineb Duw," Anfonaf, &c. (adn. 49); "yr ydwyf yn anfon," Mat. xxiii. 34. Efe ei Hun, doethineb personol Duw, yn llefaru yn nadguddiad yr Hen Destament. Cyfeiriad y mae'n debyg yw y geiriau at 2 Chron. xxiv. 18—22; nid dyfyniad ffurfiol, ond aralleiriad, neu helaethiad ar adn. 19. Gofynid i'r genedlaeth hono "waed yr holl brophwydi, yr hwn a dywalltwyd o ddechreuad y byd." Pan y mae un genedlaeth megys yn gosod ei sêl ar ddrygioni cenedlaeth flaenorol, y mae yn dyfod yn gyfranog o'i chosb. Nid gweithredoedd unigol yw pechod yn unig, rhaid edrych arno fel *un* achos, un deyrnas o dywyllwch. Y mae unoliaeth ofnadwy yn perthyn i bechod trwy yr oesoedd. Y mae pob gweithred bechadurus a gyflawnir yn fath o gymeradwyaeth i'r holl gyfundrefn o bechu er dechreu y byd. Y mae y dyn yn myned i mewn i euogrwydd a chosbedigaeth yr oll o bechod. Y mae pob gweithred o bechod yn gorfforiad o *egwyddor* pechod.

Hanesion a Darnau Detholedig.

HANES YR ACHOS CYMREIG YN DUBLIN O'I DDECHREUAD HYD YN AWR.

Gan y Parch. JOHN OWEN, *Cenadwr.*

VI.

FEL y crybwyllwyd yn y llythyr diweddaf, yn y flwyddyn 1848 y daeth Mr. Davies i Dublin. Nid oedd ar y pryd yn bwriadu aros ond ychydig yn yr Iwerddon; awydd gweled y byd a'i arferion, ynghyd a gwella ei amgylchiadau, a'i harweiniodd oddicartref. Brodor yw o gymydogaeth y Ceinewydd, Sir Aberteifi; ac er nad oedd ef yn bwriadu aros yma ond ychydig, y mae yn amlwg erbyn hyn fod llaw yr Hollddoeth yn ei arwain yma, ac hefyd yn arwain chwaer ieuanc o'r enw Jane Williams, o gymydogaeth Bangor, Sir Gaernarfon, yma oddeutu yr un amser, yr hon a ddaeth yn ymgeledd gymhwys iddo. Nis gellir ammheu llaw Rhagluniaeth yn eu harwain ac yn eu sefydlu yma, i fod yn gefn i'r Achos Cymreig yn y lle; o herwydd i raddau pell iawn y mae hanes yr Achos Cymreig a hanes y teulu hwn yn gymhlethedig â'u gilydd, gan mor ffyddlawn, cyson, a gofalus y maent wedi bod ar hyd y blynyddoedd; fel y gŵyr y rhai sydd yn arfer dyfod i wasanaethu yr Achos yn y lle. Diffyg Cymry sefydlog yn y lle yw y cyfrif na buasai gwedd fwy llewyrchus ar yr Achos hyd yma. Cyfeiria y Parch. H. Roberts at amryw wŷr ieuainc oedd yma, ond buan iawn y mae y rhai hyn yn cilio ymaith i fanau eraill, a'r Capel Cymreig yn Dublin heb fod iddynt ond megys "llettŷ fforddolion;" fel ar ddyfodiad y Parch. Ellis Foulkes, Bangor, yma yn olynydd i'r Parch. H. Roberts, yn mis Mai, 1850, nid oedd ond dau frawd yn aelodau o'r eglwys, sef Mr. Davies a Mr. William Evans, peiriannydd, gŵr ieuanc o Gaergybi. Ond ymhen ychydig wythnosau neu fisoedd ymadawodd Mr. Evans, gan adael Mr. Davies wrtho ei hun gyda Mr. Foulkes y cenadwr. Yr oedd Mr. Davies cyn hyn wedi dechreu gweithio, ond y pryd yma y mae yn ymdaflu yn fwy egniol i'r gwaith, ac yn teimlo i raddau helaeth gyfrifoldeb ei safle.

Y pryd hwn nid oedd yma neb i arwain y canu. Cyfodai Mr. Davies yn foreu ar y Sabbothau, er myned o amgylch y llongau i ymofyn am rywun a allai arwain y canu, a mawr fyddai ei lawenydd pan y caffai un; ac o'r ochr arall, mawr fyddai ei dristwch pan y methai. Llawer o helbul fyddai yn ei gael y pryd hwn gyda'r canu: er dechreu yn briodol hwyrach, byddai rhywun arall yn cymeryd y dôn oddiarno, ac aml i waith buwyd yn canu rhanau o dair neu bedair o donau ar yr un emyn. Ond o'r diwedd daeth ymwared, trwy i un o'r enw Mr. William James, brodor o Roscolyn, Sir Fôn, ddyfod yma i aros; yr hwn, er nad oedd ar y pryd yn aelod eglwysig, ac o herwydd hyny teimlai rhai wrthwynebiad iddo ymgymeryd â'r gwaith, a hunanymwadodd er pob peth, a bu ei wasanaeth yn dra gwerthfawr tra y bu yma. Ar ei ol ef daeth Mr. R. F. Roberts, brodor o Brynsiencyn, yn Môn, yma, a

bu yn dra ymroddgar gyda'r canu a rhanau eraill o'r gwaith; ac o hyn allan ni bu yr Achos yn Dublin heb arweinydd canu, ac arweinydd lled dda hefyd. Yn y blynyddoedd hyn hefyd y daeth Mr. J. Roberts, yn awr o Limerick, yr hwn y crybwyllwyd am dano o'r blaen, i gysylltiad â'r eglwys hon.

Ar ddyfodiad y Parch. E. Foulkes yma, nid oedd yr un Ysgol Sabbothol yn cael ei chynnal, yr oedd wedi ei gollwng i lawr er ys tro; ond y mae Mr. Davies yn cael gan Mr. Foulkes ail-ddechre yr ysgol yma boreu Sabboth, a buont am fisoedd heb ond hwy eu dau yn aelodau o honi. Yna daeth dau blentyn Mr. Foulkes yma, y naill ar ol y llall, yn gwneyd nifer yr ysgol yn bedwar, ac mewn amser daeth ambell i forwr i droi i mewn; ac o hyny hyd yn awr y mae yr Ysgol Sabbothol wedi ei chynnal i fyny. Bechan, y mae yn wir, y mae wedi bod o ran ei rhif trwy y blynyddoedd, hwyrach y leiaf yn y Cyfundeb; ond er y gall fod y leiaf, ni phetruswn ddyweyd ei bod yn un o'r rhai goreu, ar lawer cyfrif, os nad yr oreu oll, o herwydd bron bob Sabboth bydd cynnrychiolwyr o holl enwadau crefyddol Cymru yn bresennol, a phob gwahaniaeth plaid a chredo yn cael ei ddileu. Bydd

"Pawb o'r brodyr yno 'n un,
Heb neb yn tynu 'n groes,"

fel y clywsom aml un yn dyweyd mai yr Ysgol Sabbothol yn Dublin ydyw un o'r manau mwyaf dymunol y byddant yn myned.

Hefyd nid oedd yr amser yma y cyfeiriwn ato, gyfarfod eglwysig yn cael ei gynnal noswaith yn yr wythnos, dim ond ar ol y bregeth nos Sabboth yn unig. Ymgynghorodd Mr. Davies a Mr. Foulkes â'u gilydd ynghylch hyn eto, a dechreuwyd ymgynnull yn mharlwr y Tŷ Capel, ac yma y buwyd yn cynnal y cyfarfod eglwysig am flynyddoedd. Ychydig fyddai yn gallu bod yn bresennol, ond byddai y cyfarfodydd yn rhai bendithiol iawn, ac y maent yn parhau felly yma hyd heddyw. Fel yna ymdaflodd Mr. Davies i waith yn fuan ar ei ddyfodiad yma; ac er mai gyda'r brodyr yr Annibynwyr y cafodd ei fagu, bwriodd ymaith rwymau plaid, a gweithiodd yn egnïol gyda'r unig achos Cymreig yn y lle. Efe oedd, ac efe sydd eto, gyda chyfeillion Sir Fôn, yn gofalu am amgylchiadau yr achos. Efe a anfonid i'r Cyfarfod Misol gyda phob cenadwri. Yr oedd ymhob peth yn cyflawni gwaith diacon, a chymhellwyd ef lawer gwaith gan yr eglwys i ymgymeryd â'r swydd yn ffurfiol, yr hyn a ommeddai; ond mewn amser fe dyfodd i'r swydd, fel er ys ychwaneg nag ugain mlynedd yn ol fe'i derbyniwyd yn aelod o Gyfarfod Misol Sir Fôn, fel swyddog yn eglwys Dublin, a hyny yn ei absennoldeb; a phell fyddo y dydd y bydd yr achos yn Dublin yn gorfod myned ymlaen hebddo. Bu ei ddyfodiad yma yn ddechreuad cyfnod newydd yn hanes yr achos. Er hwyrach y teimla rhai ein bod yn ysgrifenu gormod am y byw, nid ydym yn teimlo y gwnaem gyfiawnder â hanes yr achos heb nodi y ffeithiau uchod.

Yn nyddlyfr Mr. Foulkes ar ei ddyfodiad yma y ceir:—"Yr oedd yr achos crefyddol yn Dublin y pryd hwn yn isel, ac ychydig o longau Cymreig, mewn cymhariaeth i adeg a fu, yn dyfod i'r porthladd." Ond yr oedd Mr. Foulkes yn weithiwr difefl, ac yn ofalus iawn am yr achos, ac am gadw bob peth yn weddaidd ac mewn trefn. Ond nid oedd yn *hoff* o ymweled, yn wir ei gasbeth ydoedd; ond er hyny ni phallai yn y gwaith. Yr hyn a'i blinai yn fawr fyddai i rai o'r morwyr pan y cymhellai hwy i'r capel ofyn, "Pwy sydd yna yn pregethu?" ac nid oedd dim yn fwy diflas ganddo na dyweyd mai efe ei hun. Yn nechre y flwyddyn 1854, cawn ef yn ysgrifenu am yr achos fel y canlyn:—

"Y mae yr achos crefyddol hwn yn parhâu i fod yn dra chyfnewidiol, yn fwy felly nag mewn un man y gwyddom am dano. Er ys llai na phedair blynedd yn ol, y mae amryw o'r rhai a arferent ymgynnull ynghyd i addoli wedi meirw, ac o bump i ddeg ar hugain wedi ymadael o'r ddinas i fyw, ond y mae eraill yn dyfod yma o'r newydd i lanw eu lle. Nid oes yma deuluoedd o Gymry yn dyfod ynghyd, fel mewn manau eraill, ac yn rhydd iddynt fyned a dyfod fel y gwelont yn oreu, ond pawb o'r bron yn gaeth. Bydd nifer y rhai a arferant ymgynnull, o'r rhai arferol yn y ddinas, uwchlaw 40, o'r rhai y mae 25 yn aelodau eglwysig; heblaw y rhai sydd yn y dref a ddeuant yn achlysurol. Yn ychwanegol at hyn bydd y morwyr weithiau yn 50 neu 60, a phrydiau eraill ddim ond 6 neu 10, &c. Y mae y rhan yma o'r gynnulleidfa yn hollol gyfnewidiol, fel y mae amgylchiadau y morwyr yn dangos. Gan nad oes yn Dublin, nac yn yr Iwerddon oll, ond un achos crefyddol Cymreig, y mae yr holl bleidiau crefyddol yn cyfarfod yn yr un lle. Cof genym fod un tro bump o bleidiau crefyddol yn yr un cyfarfod eglwysig, er nad oedd o honom oll ond wyth enaid; eto yr oedd Eglwysyddiaeth Lloegr, Wesleyaeth, Annibyniaeth, Bedyddiaeth, a Methodistiaeth Galfinaidd, wedi ymgyfarfod yn yr un cynnulliad eglwysig Nid ydym yn gwybod fod y cyfryw beth wedi dygwydd o'r blaen. Yr ydym yn gartrefol yn gymysgedig o

dair plaid crefyddol, ac y mae rhai o bob plaid grefyddol yn gwerthfawrogi y cyfleusdra, ac yn ymddangos yn ddiolchgar am dano. Galarus yw meddwl na byddai pawb felly, oblegid gwyddom am lawer o forwyr mai yn Dublin y cawsant y cyfleusdra diweddaf i glywed yr efengyl, cyn myned i fyd arall. Hefyd y mae rhai yn dyfod yma nad ydynt yn cael cyfleusdra i wrando yr efengyl ond anfynych iawn; rhai flynyddoedd heb gael cyfleusdra, eraill ddim ond ychydig o weithiau mewn blwyddyn, ac nis gallant wneyd ond ychydig ddefnydd o foddion gras yn yr iaith Saes oneg. Drachefn y mae y Cymry sydd yn dyfod yma i wasanaethu yn cyfarfod â themtasiynau tanllyd, a llawer o honynt yn methu eu gwrthsefyll. Y maent yn gorfod ymgymysgu â gwasanaethwyr eraill, y rhai yn gyffredin sydd yn aelodau o Eglwys Rhufain. Gwelwyd llawer merch ieuanc yn ystod yr ugain mlynedd diweddaf yn dyfod i'r Iwerddon i wasanaethu, amryw o rai a ddygwyd i fyny yn yr Ysgol Sabbothol yn Nghymru, ïe, rhai yn aelodau eglwysig, ond a hudwyd i ymuno mewn priodas gydag aelodau o Eglwys Rhufain; ac yn fuan ar ol hyny, os nad ychydig cyn hyny, y maent yn cilio o'r capel, ac yn ymddyeithrio i'r Cymry, gan ymollwng i arferion llygredig y Gwyddelod. Ac y mae yn beth i sylwi arno, na chlywsom am gymaint ag un o'r rhai a wnaethant hyn âg arwyddion arnynt o ddychweliad at Dduw, ïe, ni chlywsom am gymaint ag un, er ymholi llawer, byth mwy yn gwrando yr efengyl gyda chysondeb. Dyma fel y mae amryw o'r Cymry sydd yn dyfod i'r Iwerddon yn myned. Bu i ni trwy ddamwain gyfarfod â rhai o honynt, a drwg genym ddyweyd y gwadodd rhai o honynt iaith eu mamau; eraill a roddant ryw esgus. Y gwirionedd yw, nis gallant gydfyw ar ol priodi â Phabyddion a pharhâu yn Brotestaniaid fel yr ewyllysient; o leiaf, nis gwyddom am gymaint ag un ffaith yn ei brofi yn beth dichonadwy."

Credwn fod y sylwadau uchod o'r eiddo Mr. Foulkes yn wirionedd hyd heddyw am yr achos Cymreig yma, ac yn rhoddi gwelediad amlwg ar werth yr achos hwn, fel lloches i'r Cymry tra yn aros yn y ddinas hon. Ond y mae Mr. Foulkes eto yn gadael y maes hwn; ac yn ei ddyddlyfr am Medi 8, 1856, dywed:— "Ymadewais o Dublin wedi bod yno chwe' blynedd a thri mis. Pregethais yno yn yr ysbaid hwn 618 o weithiau. Yr wyf yn gwybod am amryw forwyr a gawsant y cynghor cyhoeddus olaf am byth genyf fi yno, oblegid aeth amryw longau Cymreig i lawr wrth fyned o Dublin, a boddodd y dwylaw. Myfi a roddodd y cynnygiad diweddaf iddynt o Iesu Grist yn Geidwad, cyn myned o'i flaen i roddi cyfrif o'u goruchwyliaeth." Clywsom mai ei destyn diweddaf yma oedd, "Y mae arnaf ofn am danoch, rhag darfod i mi boeni wrthych yn ofer," Galat. iv. 11.

Gwedi ymadawiad y Parch. E. Foulkes, y mae y Parch. Hugh Jones, yn bresennol o Liverpool, yn cael ei anfon yma gan Gyfarfod Misol Môn, ac y mae yma am dri mis. A thra yma, y mae yn awgrymu i'w feddwl ef y priodoldeb o gael yma weinidogaeth debycach i'r eiddo Cymru, fel yn lle fod y Cenadwr yma yn gwasanaethu bob Sabboth, fod cael gŵr cymhwys yma i lafurio yn fwy fel ymwelwr nag fel pregethwr, ond cael un a allai arwain y moddion am y Sabboth cyntaf o'r mis, ynghyd a'r cyfarfodydd wythnosol, a chael gweinidogion o Gymru yma i wasanaethu y Sabbothau eraill. Tybiai y gallesid cael cludiad y cyfryw yn rhad o Gaergybi yn ol a blaen, ond myned o amgylch y mater mewn dull priodol. Ac â hyn y mae Cyfarfod Misol Môn yn cydolygu, a thrwy ymdrech Mr. John Roberts, Limerick yn bresennol, ac eraill, y mae y L. & N. W. Railway yn caniatâu hyn, am y chwe' mis cyntaf. O herwydd yn nghofnodion y Cyfarfod Misol, yr hwn a gynnaliwyd yn Nghaergybi, Ionawr 12 a'r 13, 1857, cawn fod y frawdoliaeth yn anfon eu diolchgarwch i'r cyfarwyddwyr am eu caredigrwydd. Daeth y *City of Dublin Steam Packet Co.* i wneyd yr un peth, a buont yn cludo pregethwyr yn rhad bob yn ail chwe' mis am ryw gyfnod; ac y mae y cwmni diweddaf a nodwyd yn parhau i roddi un tocyn o'r dosbarth blaenaf, a hyny yn ol a blaen, bob mis hyd y dydd heddyw. Yr oedd llawer o ryddid yn cael ei arfer gyda hyn ar y cyntaf, fel y bu yn rhaid ei gyfyngu, a bu agos o gael ei golli yn llwyr; ond fel y crybwyllwyd, y mae y cwmni uchod yn caniatâu un yn y mis, ac y mae y gweinidog fydd yn dyfod yma i wasanaethu yr achos am ddau Sabboth yn ei gael.

Yn unol â'r hyn a ddywedwyd uchod, yr ydym yn cael Cadben Lloyd, pregethwr y morwyr, yn dyfod yma yn Genadwr: ac i'r Drysorfa am fis Tachwedd, 1857, cawn ef yn ysgrifenu: "Anfonwyd fi yma gan gyfeillion Methodistaidd Môn. . . . Y mae golwg siriol ar yr achos. Nifer yr eglwys yw 37; y mae yr Ysgol Sabbothol o 15 i 40; a phob Sabboth trwy yr haf bydd nifer y morwyr fydd yn gwrandaw o 20 i 100, ac y mae nifer y gwrandawyr sydd yn preswylio yn y ddinas o 25 i 40. Nid peth bach yw gweled o 60 i 90 o forwyr ar nos Sabboth yn gwrando yr efengyl, a gwrando y byddant hwy, ac nid cysgu â'u pwys ar eu breichiau, yn lle bod yn y tafarndai, lle y buasai llawer o honynt

oni b'ai fod yma gapel Cymreig, er, cofier, fod llawer o forwyr Cymru yn llwyrymwrthod â'r diodydd meddwol. Ychydig iawn o'r morwyr elai i wrando pregethu yn Saesoneg, er fod yn Dublin gystal pregethwyr ag sydd mewn un parth o'r Deyrnas Gyfunol. Cof genyf fod yr anwyl Gadben Williams, pan yn y ddinas hon, yn cyfarch ei *fate:* 'Ned, rhaid i ti ddyfod gyda mi i wrando Mr. Cooper.' 'Na, meistr,' meddai yntau, 'ni fedraf fi ddim Saesoneg.' 'Yr wyt ti yn medru siarad Saesoneg yn y llong yma faint a fynoch di, Ned.' 'Ië, meistr, Saesoneg llong ydyw hwnw, ac nid Saesoneg pulpud.' Felly y mae morwyr Cymru eto: nid ydynt yn deall llawer o Saesoneg pulpud."—E. Ll.

Tebyg yr ydym ninnnu wedi cael pethau yn yr ystyr yma. Un peth ydyw fod Cymry yn ddeall termau eu galwedigaeth, neu eu termau teuluaidd; peth arall yw gallu addoli mewn iaith estronol. Mewn ymddyddan yn ddiweddar â morwr, dywedai, "Bum mewn capel Saesoneg y Sabboth diweddaf." "Wel, pa fodd yr oeddych yn hoffi y gwasanaeth yno?" meddem. "Wel, da iawn," meddai; "da iawn, ac yr wyf bron a meddwl mai yno yr af o hyn allan." "Pam hyny?" "Wel, y mae dyn yn cael gwell llonydd o lawer ar hyd yr wythnos," meddai; "a'r rheswm am hyny yw, nad wyf yn eu deall, ac felly nid yw fy nghydwybod yn cael ei chyffroi. Nid wyf yn synu cymaint fod Mri. —— yn myned i le Saesoneg yn lle dyfod i'r capel Cymraeg." Dygwyddodd amgylchiad arall ychydig fisoedd yn ol sydd yn profi yr un peth, yn hanes un Mrs. Moore. Daeth yma dros 50 mlynedd yn ol; bu yn addoli gyda'r Cymry yma cyn agoriad y capel; priododd â Gwyddel Protestanaidd, a bu yn aelod eglwysig am yn agos i 50 mlynedd gyda'r Wesleyaid yn y wlad hon. Ond cymerwyd hi yn glaf, gwelwyd fod amser ei hymddattodiad wedi agosâu, a gofynwyd iddi a fuasai yn caru gweled ei gweinidog? "Na," meddai, "nid yw o fawr ddyben bellach; nid wyf yn ei ddeall yn ddigon da; ond fe fuasai yn dda genyf weled y gweinidog Cymraeg, os daw yma; fe fuaswn i yn *leicio marw yn Gymraeg.*" Mewn canlyniad galwyd am danom; aethom ar unwaith i'w gweled. Siaradwyd yn Gymraeg, darllenwyd a gweddiwyd yn Gymraeg, "Yr hen Gymraeg anwyl," meddai, "yr hen adnodau anwyl yn Gymraeg, y maent yn well o'r hanner!"

HANESYNAU AM WHITEFIELD.

III.

BARN HERVEY AM WHITEFIELD.

Dyma ddarlun James Hervey, gŵr duwiol, ac ysgrifenwr hyawdl dros ben (yn ol arddull y dyddiau hyny), awdwr y "Myfyrdodau ymhlith y Beddau," "Theron ac Aspasia," &c., o'i gyfaill Mr. Whitefield:—

"Yn sier, nid yw pobl yn adnabod y gŵr anwyl a theilwng hwnw, onidê nis gallaf lai na meddwl, yn lle ei iselhâu, mai ei ganmawl a'i garu a wnaent. O'm rhan I, ni welais I erioed gopi mor deg o'n Harglwydd, delw mor fyw o'r Gwaredwr, y fath ymhyfrydiad dyrchafedig yn Nuw, y fath gymwynasgarwch at ddyn, y fath ffydd gadarn yn yr addewidion Dwyfol, a'r fath zel danllyd dros ogoniant Duw; a hyn i gyd heb y gradd lleiaf o sarugrwydd tymher, na dim yn chwith neu eithafol mewn ymddygiad, ond y cwbl wedi ei bereiddio â'r dymher fwyaf nawsaidd, a'i reoleiddio gan holl sobrwydd rheswm a doethineb yr Ysgrythyr."

CREFYDD NEWYDD.

Yr oedd Barwnig unwaith, lled anwybodus am grefydd, yn edrych rhai o weithiau Bacon, y cerflunydd enwog. Gwelodd yn eu plith gerflun o George Whitefield. Arweiniodd hyn ef i wneyd sylw arno: "Wedi'r cwbl a ddywedwyd am Mr. Whitefield, yr oedd efe yn ddyn gwir fawr; yr oedd yn sylfaenydd crefydd newydd." "Crefydd newydd, syr?" gofynai Mr. Bacon. "Ië," medd y Barwnig, "beth yr ydych yn ei galw?" "Dim," oedd yr ateb, "ond yr hen grefydd wedi ei hadfywio âg egni newydd, ac yn cael ei thrin *fel pe byddai y gweinidog yn meddwl yr hyn y mae yn ei ddyweyd.*"

ADEILADU LLONG WRTH WRANDO.

Gofynwyd i saer llongau unwaith beth a feddyliai am bregethau Whitefield. "Meddwl!" meddai, "yr wyf yn dyweyd i chwi, syr, bob Sabboth y byddaf yn myned i eglwys fy mhlwyf, gallaf adeiladu llong o'r naill ben i'r llall o dan y bregeth; ond pe byddai hyny yn achub fy enaid, nis gallaf roddi cymaint âg ystyllen o dan bregethu Mr. Whitefield."

Barddoniaeth.

PENNILLION COFFADWRIAETHOL AM Y DIWEDDAR MR. LEWIS VAUGHAN, ABERDYFI.

(Nodiad gan y Parch. J. OWEN, *Aberdyfi).*

DYMUNWYD arnaf ysgrifenu ychydig linellau fel eglurhâd ar y pennillion isod. Ganed Lewis Vaughan yn ardal dawel Maethlon, yr hon sydd am y mynydd âg Aberdyfi. Gellir dyweyd am yr ardal hon, "fel y mae ei henw felly y mae hithau." Y mae wedi bod yn adnabyddus nid yn unig am brydferthwch tyner ei golygfeydd, ond hefyd am ffrwythlondeb crefyddol. Dyma lle y ganed gwrthddrych y pennillion hyn. Dangosodd awydd lled gryf am wybodaeth pan yn ieuanc, a phan yn llanc llwyddodd gan ei rieni ganiatâu iddo fyned i ysgol yn yr Amwythig. Yr oedd hyn yn gam lled bwysig yr amser hwnw i fab amaethwr rhwng bryniau Meirion. Tra yno gwnaeth gynnydd mawr a chyflym. Yr oedd ynddo yn ddiammheu chwaeth lenyddol, pe cawsai ychwaneg o fanteision i'w dadblygu; ond gorfu arno ddychwelyd adref i weithio ar y fferm, a dyma lle y bu yn nghartref ei rieni yn ddiwyd a llafurus am ran fawr o'i fywyd. Oddeutu 24 mlynedd yn ol ymneilduodd i fyw i Aberdyfi. Yr oedd wedi ymuno â chrefydd pan yn ieuanc, a glynodd yn ei broffes trwy ei holl fywyd; ond yn ystod blynyddoedd diweddaf ei fywyd, pan wedi ymneilduo oddiwrth ofalon bydol, a phan yr oedd llesgedd henaint wedi ei ddal, crynhodd ei sylw bror yn gwbl i bethau crefydd. Darllenai a myfyriai yn ddibaid yn y Gair; fel y mae ei Fibl yn dangos. Nodai yr adnodau fyddai yn ei daro fwyaf, ac ysgrifenai hwy i lawr, a cheisiai eu trysori yn ei gôf. Yn ystod y blynyddoedd diweddaf, anfynych, o herwydd gwendid, y gallai fyned i dŷ Dduw, ond byddai yn hoff o weled ei frodyr crefyddol yn ymweled âg ef, ac nid oedd berygl i'r ymddyddan droi ar faterion bydol yn unig. Gofynai am adnodau, a thalai yr echwyn adref gyda llôg; a chyn ymadael ceisiai gan ei gyfeillion benlinio gydag ef ger bron gorsedd gras. Yr oedd wedi deall yr hyn ddylai ymweled fod mewn gwirionedd. O herwydd anmhariaeth ei iechyd, a thuedd naturiol ei feddwl, cymerai wedd lled bruddglwyfus ar ei gyflwr yn fynych. Diammheu fod ynddo duedd ormodol i ymwrando â'i deimladau ei hun; ond fel yr oedd yn nesâu tua'r terfyn ciliai y cysgodau oddiar ei feddwl, a chafodd oleuni yn hwyr ei ddydd. Un o'r geiriau diweddaf a ddeallwyd ganddo oedd, "Pwy sydd genyf fi yn y nefoedd ond tydi? ac ni ewyllysiais ar y ddaear neb gyda thydi." Ac felly heb ofn na braw hunodd yn dawel yn yr Iesu y 7fed o Mehefin y flwyddyn hon, gan adael gweddw ac un ferch i alaru ar ei ol.

LEWIS VAUGHAN a gadd ei symud
I wlad iach o'r lle bu 'n glaf,
Pan oedd natur yn llawn bywyd
Gadael wnaeth ef ganol hâf;
Angau roddodd ergyd farwol,
Yna gwywo wnaeth ei wedd,
Aeth ei enaid i'r wlad nefol,
A'i ran farwol sy 'n y bedd.

Pan roir cip-drem ar ei fywyd
Gwelir ef yn moreu 'i oes,
Yn yr Ysgol wrthi 'n ddiwyd
Ni wnai aros gan ryw groes.
Dringo wnai dros fryniau llithrig
Dysg oedd ganddo ef yn nôd;
Pan yn ysgol tref Amwythig,
Fe ennillodd yno glod.

Yn Bryndinas lle y treuliodd
Y rhan fwyaf o'i oes hir,
Yno hefyd yr anadlodd
Gyntaf yn yr anial dir;
Gwnai ei hunan yn gartrefol
Heb ddim awydd myned bant,
Gyda 'i alwad amaethyddol,
Gan mai 'r hynaf oedd o'r plant.

Bywyd moesol, ac nid penrydd
Dreuliodd ef yn moreu 'i ddydd,
Pan yn ieuanc aeth at grefydd,
Hoff oedd ganddo deulu 'r ffydd;
Gwelid ef yn Nghapel Maethlon,
Yno 'n gwrando gyda blas,
Ar Bregethwyr y Trefnyddion—
Yn pregethu Trefn gras.

Wedi rhoddi pob peth fyny
Yn Bryndinas gadael wnaeth;
Credu 'r oedd mai gwell oedd hyny
Tuag Aberdyfi 'r aeth—
Wedi d'od i'w gartref newydd
Tra y gallodd fyn'd i ma's,
Gwelid ef yn myned beunydd
Wrth ei fodd i foddion gras.

Bu 'n fethiedig am hir amser,
Caeth oedd ef ar bob ryw hin;
Ond ei grefydd roddai blesер
Iddo yn ei ddyddiau blin;
Pan yn darllen a gweddïo,
Caffai 'i enaid felus wledd;
Yr oedd hyny 'n ei gymhwyso
I gael myn'd i wlad yr hedd.

Yr oedd ganddo rai adnodau
Fel ffynnonau yn iachâu,
Wedi eu marcio yn y Psalmau,
Pan yn brudd gwnaent ei fywhau;
Wrth eu darllen a myfyrio
Uwch eu penau lawer pryd,
Byddai wedi llwyr anghofio
Darfodedig bethau 'r byd.

Serchus oedd ef a llettŷgar
I ddyeithriaid yn ei dŷ,
Wrth ei weled mor roesawgar
Teimlent yn y fan yn hy';

Galwai sylw wrth ymddyddan
Pan yn eistedd wrth y tân,
Yr ymwelwyr, cyn 'r aent allan,
At ryw ran o'r 'Sgrythyr lân.

Hawdd oedd gwel'd ei ddydd yn darfod,
Am ei fod yn glaf a hen;
Teimlo 'n ddwys wnai Anne, ei briod,
A'i hoff unig ferch fwyn, Jane:
Tawel oedd, ni wnaeth gynhyrfu,
Na dim arwydd o fawr boen,
Tebyg fel pe 'n myn'd i gysgu
Y bu farw Lewis Vaughan.

Ca'dd ei gladdu 'n anrhydeddus,
Daeth ryw dyrfa fawr ynghyd,
Hwy amlygent fod e 'n barchus
Pan yr oedd ef yn y byd:
Bellach mae e 'n huno 'n dawel
Yn y bedd, ac yno bydd
Hyd nes clyw lef yr archangel
Yn yr adgyfodiad ddydd.

Pennal. W. PERKINS.

I'R IAWN.

IAWN puraidd yn ein prynu,—o'i wirfodd
O erfwlch y fagddu;
Iawn yn rhad, a'n Tad o'n tu,
Iawn oesol oedd iawn Iesu.

YR YMGNAWDOLIAD.

YN y cnawd y cawd Ceidwad,—o anian
Ddaionus yn wastad;
Anrhydedd fu deddf ei Dad
Yn ei olwg bob eiliad.

DEINIOL DERFEL.

IMMANUEL'S LAND *(TIR IMMANUEL).*

Y geiriau gwreiddiol gan Mrs. COUSIN, *Melrose, Scotland, yn* 1857. *Efelychiad gan* IEUAN GWYLLT, *Mawrth* 23, 1876.

THE sands of time are sinking,
The dawn of heaven breaks;
The summer morn I've sighed for,
The fair, sweet morn awakes:
Dark, dark hath been the midnight,
But dayspring is at hand,
And glory, glory dwelleth
In Immanuel's land.

The King there, in his beauty,
Without a veil is seen:
It were a well-spent journey,
Though seven deaths lay between:
The Lamb with his fair army
Doth on Mount Zion stand,
And glory, glory dwelleth
In Immanuel's land.

O Christ!—He is the fountain,
The deep, sweet well of love;
The streams on earth I've tasted,
More deep I'll drink above:
There, to an ocean fulness,
His mercy doth expand;
And glory glory dwelleth
In Immanuel's land.

With mercy and with judgment
My web of time he wove,
And aye the dews of sorrow
Were lustred with his love:
I'll bless the hand that guideth,
I'll bless the heart that planned,
When throned where glory dwelleth
In Immanuel's land.

O! I am my Belovèd's,
And my Beloved is mine;
He brings a poor vile sinner
Into his house of wine:
I stand upon his merit,
I know no other stand,
Not e'en where glory dwelleth
In Immanuel's land.

The Bride eyes not her garment,
But her dear Bridegroom's face;
I will not gaze at glory,
But on my King of Grace:
Not at the crown he giveth,
But on his piercèd hand;
The Lamb is all the glory
Of Immanuel's land.

YMSUDDA tywod amser,
Tŷr gwawr y nefol dir;
A boreu 'r haf ddysgwyliais
Agora 'n awr yn glir:
Bu 'r nos yn ddu a thywyll,
Mae 'r dydd yn nesu 'n awr;
Gogoniant sy 'n cartrefu
Yn nhir Immanuel mawr.

Mae 'r Brenin yn ei degwch
O fewn y nef yn wir;
Mi awn trwy angeu seithwaith
I'w weled yno 'n glir:
Yr Oen a'i hardd-deg fyddin
Ar Sion saif yn awr;
Gogoniant sy 'n cartrefu
Yn nhir Immanuel mawr.

O Grist!—Efe yw ffynnon
Y dwyfol gariad cry';
O'i ddyfroedd profais yma,
Caf fwy pan elwyf fry:
Yn foroedd heb geulanau
Ymleda yno 'n awr;
Gogoniant sy 'n cartrefu
Yn nhir Immanuel mawr.

A gras a barn cyd-blethodd
Wê f' einioes yma o hyd;
Ei gariad wnai 'n dryloew
Wlith adfyd oer y byd:
I'r galon fu 'n cynllunio,
A'r llaw fu ar bob awr
I'm gwylio, byth y canaf
Yn nhir Immanuel mawr.

'R wy 'n eiddo fy Anwylyd,
Ac yntau 'n eiddof fi;
Mae 'n dwyn i mewn i'w windŷ
Bechadur gwael, di-fri:
'R wy 'n pwyso ar ei haeddiant,
Ni welaf ar y llawr
Ond ef, nac mewn gogoniant
Yn nhir Immanuel mawr.

Mae llygad y Briod-ferch
Ar wedd ei Phriod rhad;
Nid nefoedd, ond fy Mrenin,
I'm calon rydd fwynhad;—
Llaw 'r Iesu—nid y goron
Odidog, euraidd wawr;
Yr Oen yw 'r holl ogoniant
Yn nhir Immanuel mawr.

Adolygiad y Wasg.

Braslun o Fywyd ac Epistolau Paul. Gan JOHN EVANS, *Eglwysbach.* Treffynnon: P. M. Evans & Son, 1889.

DYMA gyfrol brydferth o ran argraff a rhwymiad, a gwerthfawr a defnyddiol o ran cynnwys. Rhenir y gwaith i un ar bymtheg o Bennodau, fel y canlyn:—Rhagarweiniad—Ei Fachgendod—Ei ddygiad i fyny—Yn ŵr ieuanc—Ei dröedigaeth—Cyfnod ei ymneillduaeth—Dechreuad ei Weinidogaeth—Ei Daith Genadol gyntaf—Ail Daith Genadol Paul—Ail Daith Paul (parhâd)—Y Drydedd Daith Genadol—Y Drydedd Daith (parhâd)—Ei garchariad yn Cesarea—Ei Fordaith i Rufain—Yn garcharor am ddwy flynedd yn Rhufain—Diwedd ei Oes. Y mae Mr. Evans bellach wedi dyfod yn awdwr helaeth yn gystal ag yn un o'r pregethwyr mwyaf poblogaidd, os nad y mwyaf oll, yn Nghyfundeb y Wesleyaid Cymreig. Dengys y llyfr hwn o'i eiddo ôl llafur nid bychan i astudio hanes ac ysgrifeniadau y cymeriad mwyaf rhyfeddol yn hanes yr Eglwys, yn ngoleuni gweithiau rhagorol Conybeare a Howson, Lewin, Stalker, Farrar ac eraill. Ond fel y dywed yr Awdwr yn ei ragymadrodd, "arferodd y rhyddid llawnaf i ffurfio barn drosto ei hun, ac i ddyweyd y cwbl yn ei ffordd ei hun, gan amcanu taflu bywiogrwydd a gwres i'r holl hanes." Cyrhaeddodd ei amcan gyda mesur helaeth o lwyddiant. Gwasgwyd y mater i gan lleied o le ag oedd bosibl. Adroddir yr hanes mewn arddull ddyddorol, fywiog, ddesgrifiadol, ac ar y cyfan syml, er fod ambell eithriad i hyn, megys "gwirioneddau *ymsangol.*" Ceir amlinelliad ac elfeniad o'r Epistolau yn eu lleoedd priodol yn yr hanes. Bydd y llyfr hwn yn gynnorthwy gwerthfawr iawn yn astudiaeth y Testament Newydd, yr hon sydd yn ddiweddar wedi cael symbyliad mor rymus yn ein gwlad trwy y gwahanol Arholiadau, a Gwersi Undeb Ysgolion Sabbothol y Methodistiaid yn Nghymru. Bydd yn ddylyniad naturiol i'r lluaws llyfrau sydd genym ar yr Efengylau, ac yn cyflawni yr hyn oedd yn ddiffyg yn y rhan bwysig hon o efrydiaeth y Testament Newydd.

Y FERCH IEUANC. *Gan y Parch.* DAVID WILLIAMS, *Cwmyglo, Swydd Gaernarfon:* Awdwr "*Y Dyn Ieuanc,*" &c. Caernarfon: O. R. OWEN. 1889.

YR ydym yn cofio fod ein sylw wedi ei dynu tua deg neu ddeuddeng mlynedd yn ol, at gyfres o ysgrifau yn y cyhoeddiad bychan rhagorol a elwid *Yr Arweinydd* (a gyhoeddid yn Aberystwyth—y cyhoeddiad misol bychan *goreu*, y mae'n debyg, a gyhoeddwyd yn Gymraeg erioed) wedi eu hysgrifenu ar gyfer pobl ieuainc. Tybiem fod yr ysgrifau hyny gan mwyaf yn amlygu dawn neilduol i weini hyfforddiant werthfawr mewn dull dyddorol a difyrus—dawn heb fod yn annhebyg i'r eiddo SMILES, yr ysgrifenydd tra phoblogaidd hwnw ar esiamplau o ŷni, llafur a phenderfyniad yn gorchfygu anhawsderau, ac yn dyrchafu eu perchenogion o amgylchiadau isel i sefyllfäoedd o ddefnyddioldeb ac anrhydedd mawr. Awdwr yr ysgrifau hyny oedd y Parch. David Williams, Cwmyglo (gynt o Sir Drefaldwyn). Ac efe, fel y gwelir, yw awdwr y llyfr bychan dyddorol hwn—*Y Ferch Ieuanc.* Y mae yr un arddull fywiog, ddyddorol, lawn o ddifyrwch ac addysg, i'w gweled yn y llyfr hwn. Ceir yma gynghorion pwrpasol, o'r pwys a'r gwerth ymarferol mwyaf, i'r dosbarth pwysig yr ysgrifenir ar eu cyfer; a'r cyfan yn cael eu cyfleu mewn dull denadol, yn cael ei fywiogi yn barhaus gan hanesynau byrion, a dyfyniadau tarawiadol, yr oll yn llawn o ysbryd a naws crefyddol. Y mae yma dair ar ddeg o bennodau dan y penau canlynol:—Sylwadau Arweiniol—Mamau Dynion Mawr—Boreu Oes—Addysg—Chwaeth—Gwisg—Moesgarwch—Rhag-gyfeillach—Priodas—Cadw Tŷ—Dirwest—Crefydd—Y Diwedd a'r Dechreu. Afraid yw dyweyd fod y pynciau hyn yn rhai o bwys mawr i'n pobl ieuainc; a chredwn mai bendith fawr i'r tô presennol o ferched ieuainc, ac felly i'r oes a ddaw ar ol, fydd i'r llyfryn bychan hwn fod yn llaw, a'i gynnwys yn neall a chalon, pob merch ieuanc trwy Gymru.

Newyddion Cyfundebol.

Y CYFARFODYDD MISOL

YN Nghyfarfod Misol Dyffryn Conwy a gynnaliwyd yn Ngwytherin, Awst 22 a'r 23ain, hysbyswyd fod eu hanwyl frawd a thad y Parch. Owen Jones, Llandudno, yn ei gystudd a'i wendid, yn anfon ei gofion caredig at ei frodyr yn y Cyfarfod

Misol, ac yn diolch iddynt am y llythyr dyddanus a dderbyniasai oddiwrth y llywydd, yn dadgan eu cydymdeimlad âg ef. Penderfynwyd eu bod eto yn anfon eu cofion puraf ato, ac yn dymuno iddo brofi yn helaeth o "nerth Crist" i'w gynnal yn ei wendid. Dymunwyd ar ysgrifenydd a thrysorydd Sirol y Genadaeth Dramor i anfon cylchlythyr at yr holl gynnulleidfaoedd yn cynnwys crynodeb o'r prif ffeithiau o berthynas i'r gwaith cenadol. Annogwyd fod ymdrech neillduol yn cael ei wneyd gyda'r casgliad eleni. Cymhellwyd fod annogaeth yn cael ei rhoddi yn ein holl Ysgolion Sabbothol ar fod y rhai sydd wedi derbyn tystysgrif y dosbarth cyntaf yn parotoi ar gyfer arholiad y Gymanfa Gyffredinol, a bod mwy o lafurio ar gyfer yr arholiad Ysgrythyrol. Dymunwyd ar y swyddogion alw sylw yr eglwysi at Gofiant a Phregethau y diweddar Barch. Richard Owen, a'u cymhell i'w dderbyn.

Yn Nghyfarfod Misol Dwyrain Meirionydd a gynnaliwyd yn Cynfal, Awst 26 a'r 27ain, pasiwyd penderfyniad i alw sylw yr eglwysi unwaith eto at yr arferion ysgeifn a llygredig sydd yn arwain i anniweirdeb ac anfoesoldeb, ac i ddymuno yn ddifrifol ar benau teuluoedd ystyried eu rhwymedigaethau er ceisio attal yr achlysuron i'r pechodau gwaradwyddus hyn.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Gaerfyrddin, a gynnaliwyd yn Trinity, St. Clears, Awst 27 a'r 28ain, darllenwyd llythyr o Gyfarfod Misol Sir Benfro, yn cyflwyno y Parch. John Davies, Cilgwyn, i undeb y Cyfarfod Misol, ar ei waith yn cymeryd gofal bugeiliol eglwys Mydrim. Rhoddwyd derbyniad cynhes iddo, gan ddymuno ei lwyddiant yn ei faes newydd. Pasiwyd fod casgliad yn cael ei wneyd ar y Sabboth cyntaf yn Hydref tuag at gynnorthwyo y dyoddefwyr yn Johnstown, America. Penderfynwyd anfon llythyr o ddiolchgarwch i Gyfeisteddfod y Fibl Gymdeithas am ddwyn allan y Testament Newydd dwyieithiawg chwe' cheiniog, yn unol â'r ceisiadau a wnaed o liaws o fanau yn Nghymru am hyny.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Fflint, a gynnaliwyd yn Adwy'r Clawdd, Awst 26 a'r 27ain, galwyd sylw at y gyfran o Gofiant y Parch. John Jones, Talsarn, sydd yn rhoddi darluniad o'r hen bregethwyr, dan yr enw "Y Pulpud Cymreig," gan y Parch. Dr. Thomas. Rhoddwyd canmoliaeth uchel i'r llyfr, ac annogwyd i'w ledaenu.

Yn Nghyfarfod Misol Sir Benfro, a gynnaliwyd yn Bethesda, Awst 28 a'r 29ain, gwnaed amlygiad cynhes o'r pleser a'r diolchgarwch a deimlai y cyfarfod wrth weled y Parch. D. C. Davies, M.A., Prifathraw Trefecca, yn eu plith, a dadganwyd dymuniad brwdfrydig am iechyd a hir oes i Mr. Davies, a phob llwyddiant i'r Athrofa. Cafwyd anerchiad gwerthfawr gan y Prifathraw, a gofynai am weddïau y frawdoliaeth drosto ei hun a'r sefydliad. Cyfeiriodd at ein dyled i'r Athrofeydd. Gwasgodd ar y pwys fod yr eglwysi a'r Cyfarfodydd Misol yn gofalu pa fath ddynion a ddanfonent i'r Colegau, yn enwedig yn ngwyneb cynnydd y cynnulleidfaoedd mewn gwybodaeth; a'r pwys mawr fod ein holl bregethwyr yn alluog i gyfarch y cynnulleidfaoedd yn ddeallus, hyny yw, yn ddeallus yn mhethau yr efengyl.

Yn Nghyfarfod Misol Llundain, a gynnaliwyd yn Jewin Newydd, nos Fercher, Awst 28ain, galwyd sylw at "Y Pulpud Cymreig," gan y Parch. O. Thomas, D.D. Rhoddwyd canmoliaeth uchel i'r llyfr, ac annogwyd y swyddogion i'w ddwyn i sylw yr eglwysi. Treuliwyd rhan helaeth o'r cyfarfod i wneyd sylwadau coffadwriaethol am y chwaer anwyl, a'r foneddiges garedig a haelionus, Mrs. Jones, *The Grange*, yr hon a fu farw boreu Sabboth, Awst 18fed. Yr oedd Mrs. Jones yn ferch i'r diweddar Barch. David Jones, Treborth, ac felly yn dal cysylltiad agos â'r Cyfundeb Methodistaidd o'i mebyd; ond yn annibynol ar y berthynas hono, yr oedd yn dwyn mawr zel dros y Cyfundeb, ac yn enwedig dros yr Achos yn Llundain, a bu yn gynnorthwy anmhrisiadwy i'r eglwys yn Holloway am lawer o flynyddoedd. Nid oedd mewn un modd yn cyfyngu ei llafur a'i haelioni i'r eglwys yr oedd yn aelod o honi, ond bob amser yn barod i gynnorthwyo yr eglwysi eraill yn llawn cystal, fel nad oes yr un eglwys yn y dref heb fod yn rhwymedig am gynnorthwy neillduol ac arbenig oddiar ei llaw. Yr oedd ei gofal dros ddynion a genethod ieuainc Cymru ar eu dyfodiad cyntaf i Lundain yn fawr iawn, ac yr oedd ei chartref gwych yn agored i'w croesawu bob amser. Rhagorai yn arbenig mewn llettŷgarwch a haelioni crefyddol, a chafodd llawer tlawd achlysur i'w bendithio pan oedd ar ddarfod am dano. Yr oedd yn grefyddol iawn ei hysbryd, a'i bywyd cyffredin yn tystio yn uchel i wirionedd yr efengyl. Amlygwyd teimladau o hiraeth dwfn ar ei hol, a rhoddwyd dadganiad i'r ymdeimlad pryderus o'r golled yr ydym fel Cyfundeb ac fel cenedl yn Llundain wedi ei chael, trwy farwolaeth un mor ffyddlawn a charedig, ac mor barod bob amser i gynnorthwyo yr anghenus a'r helbulus.

Amlygwyd y cydymdeimlad dyfnaf â'r brawd Mr. J. W. Jones, ynghyd a'i anwyl fab, yn eu profedigaeth chwerw iawn; a phenderfynwyd fod y llywydd yn cael ei awdurdodi i anfon llythyr at Mr. Jones, i ddadgan cydymdeimlad y frawdoliaeth âg ef a'i fab yn eu hiraeth a'u galar trwm.

Yn Nghyfarfod Misol Trefaldwyn Isaf, a gynnaliwyd yn Llanwddyn, Medi 3 a'r 4ydd, cyflwynodd y Parch. Edward Griffith, ar ran ychydig o gyfeillion, i'r Parch. Ebenezer J. Williams, ar ei ymadawiad o'r Sir, Esboniad Meyer ar y Testament Newydd, mewn 20 o gyfrolau. Gwnaeth amryw frodyr sylwadau cymeradwyol o'i lafur a'i ffyddlondeb mawr yn ystod y saith mlynedd y bu yn llafurio yn Llanwddyn. Diolchodd Mr. Williams yn gynhes ac yn deimladwy am yr amlygiad hwn o deimladau da ei frodyr tuag ato. Yn ychwanegol at hyn, cyflwynodd yr eglwysi oedd dan ei ofal, anerchiad hynod o brydferth, gyda phwrs yn cynnwys swm o arian. Teimlai pawb yn hynod o ofidus o herwydd ymadawiad Mr. Williams. Penderfynwyd fod yr ysgrifenydd i roddi llythyr cyflwyniad iddo i gyfarfod Misol Dwyrain Meirionydd, ar ei symudiad i Landrillo.

CYFARFODYDD PREGETHU.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu Capel y Morfa, Cydweli, y Sabboth, Medi 8fed. Gwasanaethwyd gan y Parchn. W. E. Prytherch, Goppa, ac A. Oliver, Pontardulais.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu blynyddol Crugglas, Abertawe, Sabboth a Llun, Medi 8 a'r 9fed. Gweinyddwyd gan y Parchn. Evan Phillips, Castellnewydd Emlyn, a R. Jones, Babell.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn Caersalem, Brynfferws, Sabboth, Medi 8fed. Pregethodd y Parchn. T. E. Thomas, Llanymddyfri, a W. D. Williams, Gowerton.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn y Babell, Abertawe, Sabboth a Llun, Awst 11 a'r 12fed. Gwasanaethwyd gan y Parchn. O. Parry-Owen, Tregynon, ac Evan Jones, Caernarfon. Nos Fawrth, traddododd Mr. Jones Ddarlith yn yr un lle, ar "Yr Eglwys yn Nghymru" i gynnulleidfa lïosog.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn Saron, ger Treffynnon, Awst 20 a'r 21ain, pryd y gweinyddwyd gan y Parchn. J. Puleston Jones, B.A., Bangor, a T. M. Jones, Bagillt.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn Pembroke Dock, Gorphenaf 14eg. Gweinyddwyd gan y Parch. John Hughes, M.A., Machynlleth.

Cynnaliwyd Cyfarfod Blynyddol Llanreath, Awst 29ain, pryd y pregethwyd gan y Parch. D. Charles, Davies, M.A., Trefecca.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu Moriah, Llwydcoed, Medi 1 a'r 2il, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. W. Watkin Williams, Trinity; J. H. Parry, Aberdâr; Dr. Cynddylan Jones; a Thomas Bell, Cefncoedcymer.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn Aberteifi, Sabboth a nos Lun, Medi 1 a'r 2il. Gwasanaethwyd gan y Parchn. John Williams, Brynsiencyn, a G. Parry, D.D., Aberystwyth.

Cynnaliwyd Cyfarfod Pregethu yn Nghroesoswallt, Sabboth, Medi 15fed. Pregethwyd gan y Parchn. Thomas Roberts, Bethesda, a G. Parry, D.D., Aberystwyth.

MARWOLAETHAU PREGETHWYR.

Y PARCH. THOMAS DAVIES, MELINBYR-HEDYN, SIR DREFALDWYN.

Bu farw y Parch. Thomas Davies, yn 83 mlwydd oed. O Landrillo yr oedd yn enedigol; bu yn byw yn Llanfachreth, Brithdir, Llanuwchllyn, a Dinas Mawddwy. Bu yn dylyn oferedd yn moreu ei oes. Dechreuodd bregethu gyda'r Wesleyaid, er mai at y Methodistiaid y daethai yn aelod eglwysig. Ond yn fuan dychwelodd at y Methodistiaid, a chyda hwy y bu yn pregethu hyd y diwedd. Ni chafodd fanteision addysg yn moreu ei oes, a beïid ef weithiau am ddefnyddio ymadroddion anghoeth; ond câi ar adegau oedfaon grymus. Yr oedd yn hynod mewn gweddi. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth angladdol gan y Parchn. R. Jones, T. F. Roberts, W. Williams, D. Jones, Machynlleth, W. Evans, Llanbrynmair, a Mr. Davies, Dolcaradog.

Y PARCH. T. J. JONES-LEWIS, B.A., BANGOR.

Bu farw y brawd ieuanc ac addawol hwn, boreu Gwener, Awst y 30ain, yn 30 mlwydd oed. Yr ydoedd wedi mwynhau manteision addysg uchel, ac wedi eu defnyddio yn llwyddiannus. Bu yn astudio yn athrofeydd y Bala, Aberystwyth a Chaergrawnt. Ennillodd *exhibition* yn St. John's College, Caergrawnt, a gwobrwyon yn yr Hebraeg a'r

Groeg am ddwy flynedd yn olynol. Wedi graddio yno, aeth i Borthaethwy i gadw Ysgol Ramadegol. Cafodd afiechyd trwm yn ystod ei ymweliad â Llundain yn Ionawr, 1886, yr hwn a lynodd wrtho hyd y diwedd. Yn ol cynghor meddygol, aeth drosodd i America; bu yn aros yn California, Colorado, a North Carolina. Ond ni thyciodd dim er adferiad iechyd iddo. Yr ydoedd wedi dychwelyd i Fangor er's tua deng wythnos; gwanhâi yn raddol trwy yr amser hwnw, nes huno yn yr Iesu ar y dyddiad a nodwyd. Claddwyd ef y dydd Mawrth canlynol yn nghladdfa gyhoeddus Llangefni. Daeth tyrfa luosog ynghyd, a dangoswyd parch mawr i'w goffadwriaeth. Cymerwyd rhan yn y gwasanaeth angladdol gan y Parchn. Dr. Hughes; Ellis Edwards, M.A.; Daniel Rowlands, M.A.; R. Hughes, Gaerwen; J. Pritchard, Amlwch; J. Roberts, Taihen; D. Egryn Jones, Llundain; J. Williams, Bangor; ac O. Hughes, Llangefni.

Yr oedd Mr. Jones-Lewis yn fab i Mr. William Jones, London House, Bangor, wedi hyny y Fron, Llangefni, ac y mae ei fam yn chwaer i Mr. Thomas Lewis, A.S., Bangor. Yr oedd yn frawd i Mr. William Lewis-Jones, B.A.

Y PARCH. WILLIAM GRIFFITHS, DYSGWYLFA, ARFON.

Bu farw y gweinidog ieuanc hwn eto, ar ol misoedd o gystudd blin, yn ei breswylfod, Llys Myfyr, Clwtybont, boreu Sabboth, Medi 8fed. Yr ydoedd yn fab i'r pregethwr galluog y diweddar Barch. John Griffith, Bethesda (cyn hyny, Dolgellau). Bu yn weinidog ar eglwysi Penmachno a Rhydymeirch am dymmor o naw mlynedd; ac yr oedd wedi bod yn gwasanaethu eglwys a chynnulleidfa Dysgwylfa am yn agos i bedair blynedd. Yr oedd wedi ymuno mewn priodas â merch henaf Mr. Robert Thomas, yr hwn sydd er ys llawer o flynyddoedd yn flaenor defnyddiol a pharchus yn Penmachno. Yr oedd yn ŵr ieuanc call, o alluoedd cryfion, wedi cael addysg athrofaol, a dysgwylid oes o ddefnyddioldeb mawr iddo. Perchid ef yn fawr ymhob cylch lle y bu yn troi.

Nodiadau Misol.

LLAWLYFR YR EFENGYLAU.

Credwn fod y Rhan Gyntaf o'r Llawlyfr rhagorol hwn, o dan olygiaeth y Parch. W. James, Aberdâr, wedi cael derbyniad a chymeradwyaeth mawr, yr hyn y mae yn ei wir deilyngu. Dymunir arnom hysbysu y cyhoeddir yr Ail Ran ar y dydd cyntaf o fis Hydref. Dygir tystiolaeth gan y rhai sydd wedi darllen y prawf-leni ei bod yn gyfartal ymhob ystyr i'r Rhan Gyntaf, ac fe allai yn rhagori mewn rhyw bethau.

Y SAFIAD ALLAN.

Y mae y Safiad allan ymysg gweithwyr y *Docks* yn Llundain, o'r diwedd wedi terfynu yn heddychol a boddhaol. Nis gallasai derfynu yn foddhaol na heddychol ond mewn un ffordd, sef trwy i'r Cyfarwyddwyr ganiatâu i'r dynion y cyflog rhesymol y gofynent am dano. Ymdrechfa ofnadwy oedd hon. Ni olygai i'r cwmniau ond annghyfleusdra, ac ychydig lai o lôg am eu harian. Ond i'r gweithwyr, golygai newyn iddynt hwy a'u teuluoedd. Ceisia pawb y llôg goreu am eu harian; ond beth yw ing enaid mam yn gorfod gwrando ar ei rhai bychain yn cwynfan o eisieu ymborth, nes myned yn raddol yn rhy wan i allu cwynfan? Hynodrwydd y "safiad allan" hwn oedd fod barn a theimlad y dynion goreu, a barn a theimlad y cyhoedd, bron yn ddïeithriad gydag un ochr, a hono yn ochr y gweithiwr. Elai hyny yn mhell i brofi fod gwirionedd a chyfiawnder o'u tu. Cwynai y *British Weekly* yn dost, ac nid heb achos, am na buasai prif weinidogion Ymneillduol Llundain wedi dyfod allan yn y cyfwng hwn yn gynnorthwy i'r trueiniaid yn erbyn y cedyrn. Gwir fod rhai o honynt ar wasgar mewn gwahanol wledydd yn mwynhau eu gwyliau haf. Nis gwyddom am un esgus arall ellir ei roddi drostynt. Cynnrychiolodd *Cardinal* Manning Eglwys Rhufain yn anrhydeddus yn yr achos hwn, o dan bwysau pedwar ugain mlynedd, ac Esgob Llundain yr Eglwys Sefydledig, trwy wneyd eu goreu i gyfryngu a chyflafareddu rhwng y ddwy blaid. Ac y mae clod nid bychan yn ddyledus i *General* Booth a'r Fyddin Iachawdwriaeth am yr ymdrech gwronaidd a wnaethant i gadw cannoedd lawer o bobl a phlant rhag newynu yn y cyfwng hwn. Os ychydig a ddeallant am wirioneddau y Bibl ac athrawiaethau Cristionogaeth, y mae ganddynt "feddwl

Crist" yn y mater hwn o leiaf, mewn "tosturio wrth y dyrfa," mewn "clywed gwaedd yr anghenog pan lefont," "arbed y tlawd a'r rheidus, ac achub meibion yr anghenus." Ac, yn ngeiriau cryfion un ysgrifenydd, diau y cânt dderbyn eu cyfran o "ddiolchgarwch ofnadwy Crist ar ei Orseddfainc Barn am yr arwyddion lleiaf o gariad" at ei frodyr tlodion.

PRINCIPAL EDWARDS AR BREGETHU ESBONIADOL.

Dr. Edwards oedd eleni yn traddodi yr Araeth flynyddol i efrydwyr Athrofa y Bedyddwyr yn Bristol. Ei destyn oedd "Pregethu Esboniadol." Cyfeiriai at ymddangosiad pregethwr mawr yn mherson Mr. Spurgeon, a hyny ar adeg pan oedd pregethu fel pe buasai yn colli ei nerth. Credai na bu er adeg y Puritaniaid gynifer o ddynion o nôd yn y pulpud Seisonig ac ymhob ysgol o dduwinyddiaeth, ag sydd yn awr. Dadleuai yn erbyn golygiadau rhy gyfyng a pheirianyddol ar natur ysbrydoliaeth. Dangosai ragoriaethau pregethu esboniadol, gan ddadgan ei farn mewn ffordd gyffredinol, a chyda rhai eithriadau, nad oedd yr esbonwyr y dyddiau hyn yn bregethwyr, na'r pregethwyr yn esbonwyr.

Cofnodau Cymanfaol.

CYMDEITHASFA DINBYCH,

Mehefin 18—21, 1889.

Llywydd:—Y Parch. John Pritchard, Amlwch.

Dydd Iau, yr 20fed.

Am 2 o'r gloch, Cyfarfod y Pregethwyr a'r Blaenoriaid.

(*Parhad o tu dal.* 315.)

XXVII. Darllenwyd a chadarnhäwyd yr Adroddiad canlynol o weithrediadau Cyfeisteddfod y Blaenoriaid:—

Llywydd,—Mr. John Williams, Moss Bank.—1. Darllenwyd Cofnodau y cyfarfod diweddaf a chadarnhäwyd hwy.—2. Dewiswyd brodyr i gymeryd rhan yn y Cyfarfod Ordeinio fel y canlyn:—I ddechreu y cyfarfod, y Parch. Thomas Gray, Manchester. I ddarllen y rhanau arferol, y Parch. John Hughes, M.A., Machynlleth. I ofyn y cwestiynau arferol, y Parch. Josiah Thomas, M.A., Liverpool. I ddyrchafu yr urddweddi, y Parch. D. Saunders, D.D. Ac i ddiweddu y cyfarfod, y Parch. T. J. Phillips, America.—3. Galwyd sylw eilwaith at y *Royal Commission* ar Ddeddf Cau y Tafarnau ar y Sabboth, ac annogwyd i gario y penderfyniad a basiwyd ddoe i weithrediad yn ein gwahanol Gyfarfodydd Misol.—4. Cafwyd ychydig ymdrafodaeth ar y mater gohiriedig, sef "Y pwysigrwydd o fod gofalaeth dda ac effeithiol am yr holl eglwysi, yn enwedig y rhai gwanaf o honynt." Rhoddid annogaeth neilduol i gyfuno (*groupio*) nifer o eglwysi gweiniaid â'u gosod o dan ofal gweinidogaethol.—5. Caed annogaeth wresog gan y Llywydd ar y pwysigrwydd o ein bod yn Insurio ein Capelau, a hyny yn Yswirfa ein Cyfundeb.—Owen Williams, *Ysgrifenydd.*

XXVIII. *Llenyddiaeth bur.*—Galwyd sylw at ac annogwyd i roddi cefnogaeth galonog trwy ledaeniad cyffredinol a darlleniad astud i'r llyfrau hyn sydd ar gael eu cyhoeddi:—Ail argraffiad rhatach o'r *Gwyddoniadur Cymreig; Esboniad* y Parch. O. Thomas, D.D., ar *yr Hebreaid*, am bris isel; *Cofiant y diweddar Barch. Henry Rees*, gan y Parch. Dr. Thomas, mewn 12 o ranau 1s. yr un; ail argraffiad hwylus a rhad o *Athrawiaeth yr Iawn a Hanes Duwinyddiaeth*, gan y diweddar Barch. Lewis Edwards, D.D.

XXIX. *Derbyn Aelodau i'r Eglwysi.*—Cadarnhäwyd y penderfyniad dilynol ar genadwri y Gymanfa Gyffredinol (gwel Penderfyniad Rhif VII.):—

Ar ol ymddyddan maith a phwyllog ar y Genadwri o'r Gymanfa Gyffredinol, yn nghylch y dull o dderbyn aelodau o'r newydd i'n heglwysi, cytunwyd yn unfrydol genym ar annog ein swyddogion, mewn amgylchiadau ag y gwelir anghenrheidrwydd am hyny, yn hytrach na holi yr ymgeiswyr yn gyhoeddus yn yr eglwys, i ymddyddan â hwynt yn bersonol o'r neilldu, a hysbysu i'r eglwys yr adroddiad a roddir ganddynt o'u profiadau gyda golwg ar eu hachos tragywyddol; gan gymeryd gofal na byddo iddynt, yn y cyfryw amgylchiadau, wneuthur derbyniad i'r eglwys yn llai pwysig yn nheimladau yr ymgeiswyr eu hunain, nac mewn un modd yn llai effeithiol ar feddwl corff yr aelodau.

Nid ydym o gwbl yn amcanu i hyn fod yn rheol, pan y byddo ymgeiswyr yn barod i adrodd eu hanes crefyddol yn gyhoeddus eu hunain i'r holl eglwys; yn hytrach yr ydym yn golygu y bydd hyny, hyd ag y gellir, yn fendithiol i'r ymgeiswyr eu hunain, ac yn tueddu er llesâd i'r holl eglwys.

XXX. *Cronfa y Gweinidogion.*—Darllenwyd a chadarnhäwyd yr Adroddiad dilynol o weithrediadau Cyfeisteddfod Cronfa y Gweinidogion.

Yr oedd yn bresennol, o Fôn, Meistri John Matthews a Samuel Hughes; o Leyn ac Eifionydd, y Parch. Edward Lloyd; o Arfon, y Parch. O. G. Owen a Meistri Henry Lewis ac Edward Jones; o Ddyffryn Conwy, y Parch John Williams, a Mr. John Hughes; o Ddyffryn Clwyd, y Parchn. B. Hughes ac Evan Jones a Mr. Owen Williams; o Sir Fflint, y Parchn. John Pugh, B.A., a H. Barrow Wil-

liams; o Ddwyrain Meirionydd, y Parch. J. T. Alun Jones; o Orllewin Meirionydd, y Parch. David Jones, a Mr. J. Parry Jones; o Drefaldwyn Uchaf, Neb; o Drefaldwyn Isaf, y Parchn. John Hughes a William Williams; o Henaduriaeth Trefaldwyn, Neb; o Henaduriaeth Lancashire, Neb; o Liverpool, y Parch. O. J Owen, M.A.; o Manchester, y Parch. W. James, B.A., a Meistri Robert Lloyd a William Williams. O'r ymddiriedolwyr, Dr. Gee, a Meistri Edward Griffith a John Roberts.—Etholwyd Dr. Gee yn Gadeirydd.—Gyda golwg ar lythyr a dderbyniasid o berthynas i ddwy eneth i frawd ymadawedig y penderfynasid rhoddi cymhorth at eu cynnaliaeth yn Mhont Menai, penderfynwyd cadarnhau yr hyn a wnelsid gyda golwg ar ymddiried gweinyddiad y cymhorth hwnw i Swyddogion eglwys Capel Coch, Llanberis, ond fod Trysorydd ac Ysgrifenydd y Drysorfa yn Nghyfarfod Misol Arfon yn cael eu hychwanegu atynt.—2. Bu ystyriaeth faith a manwl ar Reolau y Drysorfa, ond ni farnwyd yn ddoeth gwneuthur mwy na'r cyfnewidiadau canlynol:—(1). Yn Rheol XVII., § 2, ychwanegu, fel pethau y gellir rhoddi yr arian arnynt, "*Ground Rents* o fewn Lloegr a Chymru."—(2). Eto yn adran 8 o'r un Reol nodi fod y *Trust Deed* ynghyd a'r *Securities* perthynol i'r Drysorfa, yn cael eu cadw yn *Strong Room* Ariandŷ a gymeradwyir gan y Cyfeisteddfod —3. Yn ol penderfyniad y Cyfeisteddfod yn Mhont Menai, dygodd y Trysorydd Cyffredinol ger bron gynllun o *Trust Deed* am y Drysorfa; ac wedi gwneyd y cyfnewidiadau a fernir yn briodol ynddi, penderfynwyd ei chyflwyno i'r Gymdeithasfa i'w hargraffu yn y Cylchlythyr, fel y caffer cyfle i'w hystyried ac y gallerid ei chadarnhau, os bernir yn briodol, yn y Gymdeithasfa nesaf. —4. Penderfynwyd gosod holl achos y Drysorfa o flaen Mr. Griffith Davies, yr *Actuary*, y flwyddyn hon, gyda'r bwriad, os bydd efe yn gweled hyny yn ddiogel, neu mor fuan ag y caniatâ y cyllid, i godi y Taliadau i weddwon ein Gweinidogion.—5. Dadganodd Trysorydd y Drysorfa, Dr. Gee, ddymuniad ag ydoedd wedi hir goledd, am gael Trysorydd ychwanegol i gydofalu âg ef am yr ymddiried a osodasid yn ei law, a chrybwyllodd enw Mr. J. Herbert Roberts, o Abergele, fel un hollol gymhwys, ac un a addawsai, ar ei gais taer ef, ymgymeryd â'r swydd. Teimlai y Cyfeisteddfod yr ymddiried llwyraf yn Dr. Gee, ynghyd a dwfn werthfawrogiad o'r llafurus gariad a ddangosasai o'r dechreuad yn ngwasanaeth y Drysorfa; ond ar ei ddymuniad ef, cydsynient i benodi Trysorydd ychwanegol, a theimlent hyfrydwch wrth benodi Mr. J Herbert Roberts at y gwaith hwn.—7. Diolchwyd yn gynhes i Dr. Gee am ei wasanaeth fel Cadeirydd.—DANIEL ROWLANDS, *Ysgrifenydd Cyffredinol.*

[=XXXI. *Coffadwriaeth Dr. Morgan.*—Galwyd sylw at yr achos hwn, ac annogwyd i fod yn ffyddlawn gydag ef, gan mai ychydig iawn o'r Ymneillduwyr sydd eto wedi cyfranu.

XXXII. *Achosion Seisonig.*—Darllenwyd a chadarnhäwyd yr Adroddiad dilynol:—

Cyfarfu y Cyfeisteddfod yn Ninbych nos Fawrth am 6, a boreu Mercher am 9, Mehefin 18 a 19, 1889.—Cadeirydd,—Mr. Richard Williams, F.H.S., Dreſnewydd.—Yr oedd yn bresennol y Cyfarwyddwyr Sirol canlynol:—Môn, Mr. Hughes, Amlwch; Arfon, Parch. T. Roberts, Bethesda; Lleyn, Parch. W. Jones, M.A., Fourcrosses; Dyffryn Clwyd, Mr. E. P. Jones, Rhyl; Dyffryn Conwy, Mr. E. J. Watkins, Llandudno; Fflint, Parch. W. Foulkes, Llangollen; Dwyrain Meirionydd, Parch. J. J. Williams, Llandderfel; Gorllewin Meirionydd, Parch. D. Roberts, Rhiw; Trefaldwyn Uchaf, Mr. D Evans, Cemmaes; Trefaldwyn Isaf, Parch. T. E. Roberts, M.A., Croesoswallt; Manchester, Mr. Joseph Jones, St. Andrew Street; Henaduriaeth Lancashire, Parch E. Jerman; Henaduriaeth Trefaldwyn, Mr R. Williams, Dreſnewydd.—Etholwyd o newydd y flwyddyn hon:—Mr. Hughes, Amlwch; Mr. Joseph Jones, Manchester; a'r Parch. Isaac Jones Williams, Llandderfel, i weithredu am y tair blynedd nesaf.—Mae y lleoedd canlynol i ddewis aelodau y flwyddyn hon:—Arfon, Liverpool, Manchester, Gorllewin Meirionydd, Lleyn ac Eifionydd, a Henaduriaeth Lancashire.

Cyflwynodd yr Ysgrifenydd yr Adroddiad canlynol o stad y gwaith a'r cyllid am y flwyddyn ddiweddaf. Mae y dŏn o lwyddiant mewn sefydlu Eglwysi Seisonig newydd yn dal yn ei nerth. Sefydlwyd 5 o eglwysi newydd yn Neheudir a Gogledd Cymru y flwyddyn ddiweddaf.—Mae bron yr oll o'r eglwysi yn arddangos mesur teg o lwyddiant mewn rhif ac effeithiolrwydd, ond fod llwyddiant cyflym Eglwys Caergybi wedi ei rwystro gan ddiffyg addoldŷ cyfaddas, ac Eglwysi Pwllheli a Birkenhead wedi dyoddef yn fawr o eisieu gweinidog a lle cyfaddas i addoli, ond mae Eglwys y Wyddgrug yn dal yn llwyddiant dysglaer er yr anhawsderau uchod. —Y prif rwystrau ar ffordd llwyddiant cyflym a chyson ein Heglwysi Seisonig ydyw, yn gyntaf, diffyg gofal arbenig ein Cyfarfodydd Misol i ymofyn am ansawdd y gwaith a chynorthwyo yr achosion newydd mewn sierhau gweinidogion ac addoldai iddynt yn brydlon, cyn iddynt ddechreu llesgâu, ac arafu yn eu cynnydd. Yn ail, prinder gweinidogion cymhwys i weithio y maes newydd yn effeithiol o'r cychwyn. Yn drydydd, diffyg cynllun i estyn cynnorthwy i'r lleoedd ieuainc at gael capeli newydd, gan adael i'r Eglwysi wneyd *miwy nag a allant*, yr hyn a bair iddynt ddal yn weiniaid yn llawer hwy nag y dylasent, a'r cynnorthwy blynyddol oddiwrth y Gymdeithasfa ddal yn drymach o'r achos.—Cawn fod yr Eglwysi Seisonig yn gallu dwyn ymlaen holl gyfarfodydd a threfniadau cyfundebol yn esmwyth a llwyddiannus, ac er boddhad i'w haelodau ymhob man lle mae eu gweinidogion a'u blaenoriaid yn ddigon gwrol a ffyddlawn i drefnu y cyfryw iddynt; yr hyn sydd bellach yn ffaith am bron ein holl eglwysi.—Bydd y derbyniadau eleni yn debyg o ran swm i'r hyn oeddynt y flwyddyn ddiweddaf, tua £1200, er y colledion trymion a geir o anghenrheidrwydd, a'r lleihad difrifol a gymer le mewn amryw o'n Cyfarfodydd Misol; ond bydd cyfanswm y *grants* i'r lliaws lleoedd newyddion a gychwynir yn barhaus, ynghyd a'r rhoddion chwanegol a roddir i leoedd i gyfarfod ymdrechion egniol gyda thalu dyled y capelau, yn debyg o fod lawer yn fwy na'r derbyniadau y flwyddyn hon.—Teg ydyw dysgwyl haelioni mwy pan y mae Duw yn rhoddi cynnydd cyflym a hynod ar ei waith yn ein mysg.—Mae ein hymweliad â'r Eglwysi Presbyteraidd wedi dechre dwyn ffrwyth. Cafodd yr Ysgrifenydd gyfarch dwy Eglwys Bresbyteraidd yn yr Iwerddon ar y Sabboth, a chafwyd casgliad siriol ganddynt at y Genadaeth Seisonig yn Nghymru. Ac y mae trefniadau ar gael eu gwneyd er ymweled â rhai o Eglwysi Llundain, Glasgow, ac Edinburgh, yn yr un modd, trwy garedigrwydd a chydymdeimlad amryw o'r gweinidogion yn y dinasoedd hyny.—Ond y newydd mwyaf hyfryd a feddwn y tro hwn ydyw fod y Brenin Mawr yn rhoddi tywalltiad grymus o'r Ysbryd Glân ar amryw o'n heglwysi Seisonig y dyddiau hyn. Hyn ydyw ein dymuniad penaf.

Gan mai Efe biau y gwaith mawr hwn, gellir dysgwyl iddo arddel ei waith ei hun â chawodydd dwyfol ar ein pobl ieuainc a'n cynnull-eidfaoedd.—Anfona rhai o'r eglwysi gais arbenig atom nid am roddion arianol, ond am ein gweddiau drostynt yn eu hymdrech mawr gydag eangu gwaith ein Gwaredwr.

Penderfynwyd,—yn 1. Fod yr Adroddiad Blynyddol yn cael ei gymeradwyo.—2. Fod diolchgarwch gwresog y Gymdeithasfa yn cael ei roddi i'r Trysorydd, Mr. John Roberts, A.S., Bryngwenallt, am ei ofal gwerthfawr dros yr achos hwn bellach er ys llawer o flynyddoedd.—3. Fod Mr. Price, Bangor, i ysgrifenu adolygiad ar waith y Genadaeth Seisonig i'r Dreysorfa y flwyddyn hon.—4. Ein bod yn llawenhau yn wyneb fod ein Hysgrifenydd, y Parch. Lewis Ellis, yn unol âg annogaeth Cymdeithasfa Llanerchymedd, yn bwriadu yn fuan ymweled â Lloegr, Ysgotland, a'r Iwerddon, gyda'r amcan o sicrhau cydymdeimlad cyfeillion y lleoedd hyny â ni yn ein hymdrech, ac i geisio eu cynnorthwy tuag at yr achos hwn.—5. Tra yn edrych gyda phryder dwfn ar y ffaith fod y casgliadau yn lleihau mewn nifer mawr o siroedd, ein bod yn galw sylw difrifol y Cyfarfodydd Misol at yr anghenrheidrwydd hollol ar iddynt fabwysiadu y mesurau mwyaf effeithiol gyda brys, er gosod cyllid y Genadaeth hon ar dir llawer gwell, ac felly ochelyd y gorchwyl gofidus o roddi rhai o'r lleoedd i fyny o ddiffyg help i'w dwyn ymlaen yn llwyddiannus. —6. Yn wyneb y galwadau trymion ac anocheladwy sydd yn dyfod fwyfwy ar Gronfa yr Eglwysi Seisonig, drwy y nifer mawr o eglwysi newydd a ffurfiwyd, ac a raid eu ffurfio yn y dyfodol agos am gynnorthwy iddynt, heb son am yr wyth o addoldai y rhaid eu hadeiladu ar frys, ein bod yn ostyngedig a thaer ddymuno ar Ymddiriedolwyr *Fund* y diweddar Thomas Jones, Rhuthyn, ad-ystyried y gyfran a fwriedid roddi i'r Gronfa uchod, fel ag i roddi o leiaf £1000 yn lle £500 i ofal Ymddiriedolwyr y Gronfa hon.—7. Gwnaed y *Grants* canlynol i'r Eglwysi:—

	£	s.	d.
Aberdyfi	36	0	0
Adwy'r Clawdd	35	0	0
Eto, am y tro	25	0	0
Barmouth	42	10	0
Birkenhead	45	0	0
Buckley	32	10	0
Denbigh	40	0	0
Festiniog	35	0	0
Holyhead	67	10	0
Llanidloes	40	0	0
Machynlleth	30	0	0
Eto, pan geir gweinidog, yn ol ..	50	0	0
Nantgwytheyrn	15	0	0
Pensarn	15	0	0
Rhos	35	0	0
Eto, i'r Mission	10	0	0
Ruthin	60	0	0
Criccieth, hyd yn	5	0	0
Afonwen, ger Caerwys	15	0	0
Bethesda, yn cael ei adael i'r Trysorydd a'r Ysgrifenydd	0	0	0
Beaumaris	30	0	0
Broughton, tra heb weinidog ..	30	0	0
Eto, pan geir gweinidog	50	0	0
Colwyn Bay	70	0	0
Dolgelley	35	0	0
Flint	42	10	0
Llandudno	25	0	0
Llanfairfechan, i'r Pwyllgor Sirol ..	20	0	0
Mold	60	0	0
Eto, am y tro	10	0	0
Penmaenmawr	60	0	0
Eto, am y tro	10	0	0
Pwllheli	66	10	0
Rhyl	60	0	0
Towyn	45	0	0
Glanrafon	25	0	0

—8. Penodwyd yr Is-Bwyllgor am y flwyddyn:—Mr. E. P. Jones, Rhyl; Mr. R. Williams, Drefnewydd; Parch. E. Jerman, Parch. W. Foulkes, y Trysorydd a'r Ysgrifenydd, ynghyd a Mr. W. R. Evans, Wrexham, gydag awdurdod i alw eraill i weithredu ar Bwyllgor unedig y Gronfa Seisonig, a Phwyllgor y Genadaeth Gartrefol, yr hwn sydd i ystyried pa leoedd perthynol i'r naill a'r llall a ellir eu cysylltu dan yr un gofal bugeiliol.—9 Fod £20 i'w roddi dan ofal yr Ysgrifenydd, er trefnu lleoedd i bregethwyr ieuainc wasanaethu am amser byr lle bydd anghen am hyny.—10. Ein bod yn dymuno llongyfarch yr Eglwys Seisonig yn Adwy'r Clawdd ar gychwyniad llwyddiannus yr achos yn y lle, a datgan ein hyder y bydd i'r cyfeillion yno barhau yn eu ffyddlondeb a'u hymroddiad. Dymunir hefyd gyflwyno ein diolchgarwch gwresocaf i Robert Davies, Ysw., U.H., Menai Bridge, am ei rodd anrhydeddus o £160; ac hefyd ein diolchgarwch pur i Mr. Robert Jones, Talwrn Road, Adwy, am yr ymdrech anarferol a wnaeth a'r draul yr aeth iddi i gasglu y gweddill o £140, er talu ymaith yr holl ddyled o £300, sef swm pryniant y capel rhydd-ddaliadol a bwrcaswyd yn ddiweddar gan yr United Methodist Free Church.—11. Ein bod yn penodi y Parch. E. Jerman, a Mr. R. Williams, Drefnewydd, i'n cynnrychioli yn y Gynnadledd Seisonig Unedig o Dde a Gogledd Cymru, sydd i'w chynnal yn Aberystwyth, mis Medi nesaf.—12. Ein bod yn diolch i Mr. D. P. Davies, Tynycoed, a Mr. E. J. Watkins, Llandudno, am eu gwasanaeth, ac yn dymuno ar iddynt barhau i weithredu fel archwilwyr eto y flwyddyn hon.—13. Fod diolchgarwch yn cael ei gyflwyno i'n cyfroddwyr am barhad o'u haelioni, ac i'r boneddigion canlynol am eu rhoddion arbenig:—

	£	s.	d.
Mr. R. Davies, Lord Lieutenant of Anglesea	50	0	0
Mr. Davies, U.H., Llandinam	70	0	0
Mr. J. Roberts, A.S., Bryngwenallt	50	0	0
Mr. E. Davies, U.H., Llandinam	20	0	0
Mr. W. B. Gibson, Frodsham	10	0	0
Mr. W. Rathbone, A.S.	10	10	0
Mr. Stuart Rendel, A.S.	5	5	0
Mr. J. Campbell White, Glasgow	10	0	0
Mr. Samuel Stitt, U.H., Birkenhead	5	0	0
Mr. Thomas Williams, U.H., Birkenhead	5	0	0
Mr. E. P. Jones, Rhyl	5	0	0
Mr. Thomas Williams, Liverpool, and Llanwnda	5	5	0
Mr. J. A. Campbell, LL.D., A.S, Stracathro, Brechin	5	0	0
Mr. Samuel Pope, U.H., Q.C., Llanbedr	10	0	0
Mr. Geo. Barbour, U.H., Bolesworth Castle (newydd)	5	0	0
Mr. Weir, Blackrock, Dublin (newydd)	5	0	0
Mrs. Alexander, London (newydd)	3	0	0
Mr. E. O. V. Lloyd, Berth a Cheltenham	5	0	0

—14. That the various Monthly Meetings be desired to give every encouragement to the building of new places of worship where they appear to be needed, while at the same time exercising a watchful supervision in such cases, so as to prevent extravagant or needless expenditure – 15. Fod y Parch Owen Thomas, D.D., Parch. R. Roberts, Dolgellau, a'r Parch. W. James, B.A., i gyflwyno yr Adroddiad hwn i'r Gymdeithasfa.—16. Fod pob eglwys rhaglaw i gyflwyno *estimate* a chynllun o'u capel newydd i Is-Bwyllgor y Gronfa, mewn undeb â Phwyllgor Adeiladu y Cyfarfod Misol neu Henaduriaeth y perthyn iddo, fel ammod derbyniad *grant*. A bod y rheol hon i'w hargraffu ynghyd a rheolau y Gymdeithas hon, ar y wyneb-ddalen gyntaf o'r Adroddiad.—R. Williams, *Cadeirydd*; L. Ellis, *Ysgrifenydd*.

Terfynwyd trwy weddi gan y Llywydd.

Dydd Gwener, Mehefin 21ain.

Am 8 30, *Cyfarfod y Pregethwyr a'r Blaenoriaid.*

Dechreuwyd gan y Parch. John Williams, Caerlleon.

XXXIII. *Brodyr Ymadawedig.*—Gwnaed coffâd parchus am y brodyr, y Parchn. Hugh Lloyd, Wolverhampton; R. Davies, Amwythig; John Morris, Gronant; a R. Jones, Jerusalem, Bethesda, pa rai oeddynt wedi meirw er y Gymdeithasfa ddiweddaf. Arwyddwyd cydymdeimlad â theuluoedd y cyfeillion ymadawedig. Penderfynwyd hefyd fod cofion serchog y Gymdeithasfa yn cael eu hanfon at y Parchn. T. J. Jones-Lewis, B.A., Llangefni (gynt), a William Griffith, Dysgwylfa, yn eu hafiechyd trwm, gan ddymuno iddynt gael profi llawer o dangnefedd a llawenydd yr Efengyl yn eu cystudd.

XXXIV. *Brodyr Dyeithr.*—Rhoddwyd derbyniad croesawgar i'r Parchn. T. J. Evans oddiwrth Henaduriaeth Brooklyn, New York, a'r Parch. T. J Phillips, Plymouth, Pennsylvania, Llywydd Cymanfa Gyffredinol y Methodistiaid Calfinaidd yn Unol Dalaethau America.

R. H. Morgan, *Ysgrifenydd.*

CYMDEITHASFA HALL, SIR BENFRO,

Mehefin 17, 18, a'r 19eg, 1889.

Llywydd:—Y Parch. G. Phillips, Pontnewynydd.

Dydd Llun, Mehefin 17eg.

Cyfeisteddfod y Gymdeithasfa am 7 o'r gloch.

Dechreuwyd trwy ddarllen a gweddïo gan y Parch. T. James, Blaenau.

I. Galw enwau y Cynnrychiolwyr.

II. Darllenwyd Llythyrau yn cydnabod yn ddiolchgar gydymdeimlad y Gymdeithasfa â hwy yn eu cystudd, oddiwrth y brodyr canlynol:—Y Parchn. D. James, Llaneurwg; J. Powell, Brynmawr; D. Phillips, Pontardulais; E. Jones, Pentwyn; D. Morgan, Llandilo; W. Morris, Llandudoch; Mrs. W. H. Williams, Ystradgynlais.

III. Ethol Aelod ar Is-bwyllgor Trefecca. Penderfynwyd,—Fod y Parch. G. Williams i fod yn aelod o Is-bwyllgor Athrofa Trefecca, sydd i wneyd trefniadau gyda golwg ar ddewis y Trydydd Athraw.

IV. Penderfynwyd,—Yn gymaint a bod y Ddeiseb a anfonwyd i Dŷ y Cyffredin o blaid Cau y Tafarnau ar ddydd yr Arglwydd yn Lloegr wedi ei gwrthod am fod y gair "*urge*" ynddi, ac nid y gair "*pray*," ein bod yn anfon yr un Ddeiseb drachefn, a'r gair "*pray*" wedi ei osod i mewn ynddi yn lle y gair "*urge*."

V. *Darlithiau Gwyddonol ar Ddirwest.*—Ar ol cryn ymddyddan ar y buddioldeb o gael Areithiau Gwyddonol yn ein Hysgolion Elfenol i ddangos niwed y diodydd meddwol, cymeradwywyd y penderfyniad canlynol: "Fod y Gymdeithasfa hon yn cydnabod yn ddiolchgar, ac yn mawr werthfawrogi gwaith y *Band of Hope Union* yn trefnu cynllun i roddi darlithiau ar Ddirwest i blant yr Ysgolion Elfenol Cyhoeddus trwy y deyrnas, ac yn penodi Mr. Trow, B.Sc., o'r Drefnewydd, at y gorchwyl hwn yn Nghymru a'r siroedd cyfagos. Hydera y Gymdeithasfa y rhoddir i'r darlithydd bob rhwyddineb i gael cyfleusdra i gyfarch holl blant ein gwlad, ac y dilynir yr ymdrech deilwng hon â bendithion lawer oddiuchod. Yr ydys gan hyny yn taer erfyn ar ein brodyr sydd yn aelodau o'r Byrddau Ysgol i gynnorthwyo i gario allan yr amcan."

VI. *Y Genadaeth Dramor.*—Penderfynwyd:—1. "Ein bod yn rhoddi gwahoddiad caredig i'r Parch. Dr. Griffiths, y Cenadwr, i dalu ymweliad â'r Dalaeth, ac yn annog y Cyfarfodydd Misol i wneyd trefniadau gyda golwg ar ei ddyfodiad, ac i greu brwdfrydedd yn y Cyfarfodydd Cenadol pan y daw. Da fuasai cael casgliadau yn y cyfarfodydd hyn."—2. "Ein bod yn annog ein Cyfarfodydd Misol i drefnu fod Cyfarfod Cenadol effeithiol yn cael ei gynnal unwaith y flwyddyn ymhob eglwys a chynulleidfa, a bod ymdrechion adnewyddol yn cael eu gwneyd mewn casglu at yr achos Cenadol."—3. "Ein bod yn anfon at yr Ysgrifenydd Cenadol a Golygwyr y *Drysorfa* a'r *Monthly Tidings* i ddymuno arnynt ar fod cymaint ag a fyddo yn bosibl o hanes y Genadaeth yn ymddangos yn y Cyhoeddiadau hyny."

VII. *Cydymdeimlad â Brodyr Cystuddiol.*—Penderfynwyd fod y Gymdeithasfa yn anfon cofion caredig a chydymdeimlad tyner at y Parch. T. Lamb, Abergwaun, a Mr. Harries, Castellhenry, yn eu henaint a'u llesgedd.

Diweddwyd trwy weddi gan y Parch T. Parry, Beilidu.

Dydd Mawrth, y 18fed.

Cyfarfod y Gweinidogion a'r Pregethwyr, am 10 *o'r gloch.*

Dechreuwyd trwy ddarllen a gweddïo gan y Parch. J. H. Parry, Aberdar.

Cymerwyd rhan yn y cyfarfod gan y Parchn. J. Mendus, Dinas; W. Powell, G. Williams, T. J. Morgan, D. H. Lloyd, Gilead; W. Jones, Treforris; R. Evans, Llanwrtyd; W. James, a diweddwyd trwy weddi gan y Parch. J. Davies, Whitland.

Cynnaliwyd Cyfarfod Blaenoriaid ar yr un amser.

Cyfarfod Cyffredinol y Gymdeithasfa, am 1 *o'r gloch.*

Dechreuwyd trwy ddarllen a gweddïo gan y Parch. R. Evans, Llanwrtyd.

VIII. *Lle ac Amser y Gymdeithasfa nesaf.*—Jerusalem, Ystrad Rhondda, Awst 13—15. Cyfeisteddfod y Gymdeithasfa yn

cyfarfod am 3 o'r gloch dydd Mawrth, y 13eg.

IX. Darllenwyd a chymeradwywyd yr Adroddiad canlynol o Gyfarfod y Blaenoriaid:—

1. Ymddyddanwyd am yr anghenrheidrwydd o roddi mwy o sylw i'r *Cyffes Ffydd* a'r *Hyfforddwr*, er hyfforddi ein pobl ieuainc yn athrawiaethau crefydd, ac hefyd er mwyn creu mwy o deyrngarwch i'r Cyfundeb yn ei holl drefniadau. Ymddiriedwyd i'r Cadeirydd i osod y mater ger bron y Gymdeithasfa. —2. Gohiriwyd y mater fu dan sylw y Gymdeithasfa ddiweddaf, sef "Swydd Frenhinol Crist," i fod dan ymdriniaeth yn Nghymdeithasfa Awst. Mr. A. Matthews, Caerdydd, i agor y mater.—HOWELL DAVIES, *Cadeiryda*; THOMAS HARRIES, *Ysgrifenydd*.

X. Derbyniwyd y genadwri ganlynol o Gyfarfod Misol Sir Benfro:—Fod Cyfarfod Misol y sir hon yn dymuno hysbysu i'r Gymdeithasfa afreoleidd-dra sydd wedi cymeryd lle yn ddiweddar yn un o eglwysi y sir, sef gwaith pregethwr sydd wedi ei ddewis i'w neilldu yn y Gymdeithasfa nesaf, yn gweinyddu yr Ordinhad o Swper yr Arglwydd. A'n bod wedi gwneyd ymholiad manwl i'r holl achos; a thra yn mawr anghymeradwyo y weithred, ar yr un pryd, dan yr holl amgylchiadau, ein bod yn dymuno ar y Gymdeithasfa na byddo unrhyw weithrediad pellach yn yr achos, ac i dderbyn yr eglurhad hwn.

Penderfynwyd,—Ein bod yn derbyn yr eglurhad a'r penderfyniad uchod yn derfynol ar y mater, ac yn annog yr holl Gyfarfodydd Misol i arfer arolygiaeth a gofal na byddo afreoleidd-dra o'r fath yn cymeryd lle eto yn un o'n heglwysi.

XI. *Deddf Cau y Tafarnau ar y Sabboth.*—Cymeradwywyd y penderfyniad canlynol:—

"That this Association deeply appreciates the manner in which the Royal Commissioners have thus far conducted the inquiry into the operation of the Welsh Sunday Closing Act, and greatly rejoices at the overwhelming testimony given in favour of the Act. The Association earnestly protests against the suggestion, made by some of the witnesses, that the Public Houses be opened for one hour at mid-day, and for an hour in the evening, and considers that such a course would be tantamount to the repealing of the Act. The Association desires further to express its deep conviction that any alleged failure of the Act must be attributed to any or all of the following causes:—1. To inefficient administration arising chiefly from want of sympathy with its provisions on the part of some of the magistrates and police authorities; 2. To the fact that it has been hitherto looked upon, by many of its opponents, not so much as a measure of social and moral reform, but as a piece of party legislation; no opportunity has been lost of bringing the Act into disrepute, and a strenuous endeavour has been made to produce an impression that, by systematic disregard to the Act, its repeal may be attained; 3. To the *bona fide* traveller's clause, especially the interpretation of it which takes the "three miles" as a "definition" of a bona fide traveller, and not as a "minimum" of distance; 4. To the view held by an insignificantly small section, growing less every year, that the Act was a curtailment of their liberty; 5. To the contiguity of the large population of West and North Monmouthshire to Glamorgan and Brecon. The Association, therefore, prays that the Royal Commissioners may be led, not only to report in favour of the continuance of the Act, but also to suggest such further regulations and restrictions as will successfully prevent the evasions of the Act, which have hitherto obtained, and which must be attributed only to a small fraction of the community. The Association is strongly convinced that the retention of the Act, with such necessary amendments, particularly the cancelling of the bona fide traveller's clause, or such a modification of it as to be applicable only to cases of great emergency, and the inclusion of Monmouthshire within the operation of the Act, is a matter that lies near to the heart of the Welsh nation at large, and especially of the various Christian churches of the Principality.

That a copy of this Resolution be sent to the Royal Commission through its Secretary, Professor J. Rhys.

XI. *Mesur Addysg Ganolraddol.*—Penderfynwyd,—

That this Association cordially approves of the Welsh Intermediate Education Bill, introduced by Mr. Stewart Rendel, M.P., and express the hope that it may soon become law in the form in which it has been proposed, now that the Higher Education of our country is carried on so successfully at the three National Colleges and the Elementary Schools are so effective, it is felt to be of the greatest importance that a comprehensive system of Intermediate Education be established as speedily as possible. Copy to be sent to Mr. S. Rendel.

XII. Darllenwyd holl Benderfyniadau Cyfeisteddfod y Gymdeithasfa, a phenderfynwyd ein bod yn eu derbyn a'u cadarnhau.

XIV. *Hanes yr Achos yn y Sir.*—Cafwyd Adroddiad helaeth o hanes yr Achos yn y Sir—y rhan Seisonig gan y Parch. E. Meyler, Hwlffordd; y rhan Gymreig gan y Parch. G. Morgan, Trefdraeth, a'r Ystadegau a sylwadau manwl arnynt gan Mr. H. Evans, Caerfarchell. Wele yn canlyn grynodeb o'r Adroddiad a'r Ystadegau:—

Rhif yr Eglwysi, 43; Capelau a lleoedd pregethu, 51; Gweinidogion, 30; Pregethwyr heb eu hordeinio, 11; Blaenoriaid, 131; Cymunwyr, 3162; Ymgeiswyr am Aelodaeth, 34; Plant yn yr Eglwysi, 1046; bedyddir yn flynyddol oddeutu 150; derbyniwyd i Gymundeb, 129; collwyd trwy farwolaeth, symudiadau a gwrthgiliad, 199. Yr Ysgol Sabbothol:—Ysgolion, 51; Swyddogion, 467; Pawb ar y Llyfrau, 3878: Gwrandawyr, 6345. Cyfrif Arianol: Ardreth yr Eisteddleoedd, £289 19s; Llog arian, £32 4s. 9c.; at y Weinidogaeth, £1823 3s. 11c.; Cenadaethau, £221 5s. 8c.; at y lleoedd gweiniaid, £25 5s.; i'r tlodion, £22 8s. 8c.; at ddyled y Capelau, £389 15s.; achosion eraill, £456 17s. 6c.; cyfanswm y Casgliadau, £4259 4s. 5½c. Dyma symiau nad oes cyfrif am danynt uchod:—Caerfarchell, £42, yr hwn a dalwyd gan y diweddar Mr. H. Jenkins; Trefdraeth, £60; Woodstock, £450; Solfach, £500. Pe cyfrifid y cwbl chwyddai y swm ymheil dros £4000. Cymhariaeth â'r amser a aeth heibio:—

	Yn y fl. 1868.	yn 1878.	yn 1888.
Cymunwyr	2631	2923	3162
Gwrandawyr ...	5842	6509	6345

	£ s. c.	£ s. c.	£ s. c.
Swm at y Weinidogaeth	940 0 8	1647 16 4	1823 3 11
Cyfanswm y Casgliadau ...	2144 13 5	3285 1 4	dros £4000

Yn 1887, pan y caed y cyfrif yn llawn, yr oedd yn £4175 15 7½c.

Diweddwyd trwy weddi gan y Llywydd.

Dydd Mercher Mehefin 19eg.

Cyfarfod Cyffredinol y Gymdeithasfa—(parhad), am 8 o'r gloch.

XV. Mater:—Nodweddion neillduol yr hen Dadau Methodistaidd, a'r anghenrheidrwydd sydd arnom i feddu eu hysbryd.

W. James, *Ysgrifenydd.*

CYMDEITHASFA YSTRAD, RHONDDA,

Awst 12, 13, 14, a'r 15fed, 1889.

Llywydd,—Y Parch. G. Phillips, Pontnewynydd.

Dydd Llun, y 12fed.

Am 7 o'r gloch, Is-Bwyllgor Ad-drefniad Athrofa Trefecca.

Dydd Mawrth, y 13eg.

Am 8 30 o'r gloch, Cyfeisteddfod y Genadaeth Gartrefol.

Am 3 o'r gloch y prydnawn, Cyfeisteddfod y Gymdeithasfa.

Dechreuwyd trwy ddarllen a gweddïo gan y Parch. E. Morris, Aberaeron.

I. Galwyd enwau y Cynnrychiolwyr.

II. Penodwyd y Parch. T. Davies, Abertawe, a Mr. T. Harries, Trellan, i archwilio cyfrifon y Genadaeth Gartrefol.

III. Derbyniwyd Cenadwriaethau o'r Gymanfa Gyffredinol mewn perthynas i Dai Gweinidogion, y Genadaeth Dramor, Arholiad y Gymanfa Gyffredinol, Rheolau Derbyniad i'r Weinidogaeth, a Derbyn Aelodau i'r Eglwysi.

IV. *Lle yr Arholiad Cymdeithasfaol nesaf.*—Derbyniwyd gwahoddiad caredig i'r Arholiad, yr hwn a gynnelir Hydref 21. 22, a'r 23ain, 1889, i ddyfod i Gaerfyrddin, a phenderfynwyd iddo fyned yno; yr ymgeiswyr i anfon eu henwau i'r Parch. J. Wyndham Lewis bythefnos cyn adeg yr Arholiad; yr eisteddiad cyntaf am 6 o'r gloch nos Lun, yr 21ain.

V. Trefnwyd gwasanaeth yr Ordeinio.

VI. Penderfynwyd, yn ol cenadwri o Ddwyrain Morganwg,—Ein bod yn cyflwyno ein diolchgarwch i'r Fibl Gymdeithas am ddwyn allan, ar ein cais, argraffiad rhad o'r Testament Newydd Dwyieithawg—Cymraeg a Saesoneg, a hysbyswyd fod yr argraffiad yn awr yn barod, ac annogwyd i wneuthur defnydd helaeth o hono. Ei bris ydyw chwe' cheiniog.

VII. *Rhodd Haelionus i'r Cyfundeb* — Hysbysodd y Parch. T. Rees, Cefn, ei fod ef wedi derbyn rhodd o 200 gini oddiwrth Miss Gwenllian Morgan, yr hon sydd yn byw yn Llundain, i dalu dyled ein capel yn Defynog; dywedai nad oedd Miss Morgan yn aelod o'n Cyfundeb ni, ond ei bod wedi ei dwyn i fyny yn Mhentref Defynog. Derbyniwyd y newydd gyda llawenydd, a phenderfynwyd,—Fod yr Ysgrifenydd i anfon llythyr at Miss G. Morgan, yn cyflwyno iddi ddiolchgarwch gwresocaf y Gymdeithasfa am ei theimladau caredig, a'i rhodd haelionus a gwerthfawr tuag at ddileu dyled y capel yn ei lle genedigol.

VIII. *Derbyn trodyr o America.*—Darllenodd y Parch. T. Rees lythyr oddiwrth Gymanfa y Methodistiaid yn Pennsylvania, yn cyflwyno y Parch. J. E. Harries fel gweinidog cyflawn a rheolaidd i'r Cyfundeb yn Nghymru, ac yn ei awdurdodi i'w cynnrychioli yn y Cymdeithasfaoedd a chyfarfodydd eraill cyffelyb. Darllenodd y Parch. D. Saunders, D.D., lythyr yn hollol i'r un perwyl yn cyflwyno y Parch. W. D. Jenkins, o America, a llythyr arall oddiwrth Gymanfa Gyffredinol America, yn cyflwyno y Parch. T. J. Phillips, Plymouth, fel llywydd y Gymanfa am y flwyddyn, i'r Gymdeithasfa. Cafwyd anerchiad byr gan bob un o honynt. Penderfynwyd,—Ein bod yn rhoddi derbyniad croesawgar iddynt, ac yn dymuno ar yr eglwysi i wneyd y defnydd goreu o honynt yn ystod eu harosiad yn ein plith, a'n bod hefyd yn dymuno nodded y Nefoedd drostynt ar eu holl deithiau, ac ar ol dychwelyd i'w cartrefi. Deallwyd fod y Parch. T. J. Phillips yn dychwelyd yn fuan, a'r Parch. W. D. Jenkins cyn bo hir, ond am y Parch. J. E. Harries, ei fod yn bwriadu aros o leiaf flwyddyn, a dymunir iddo gael cyfleusdra i'n gwasanaethu yn ystod ei arosiad, trwy fod ein blaenoriaid yn rhoddi gwahoddiad iddo ar y Sabboth i bregethu.

IX. *Y Ddamwain alaethus yn Johnstown, Pennsylvania, America.*—Penderfynwyd,—(1) Ein bod yn datgan ein cydymdeimlad dyfnaf â'r dyoddefwyr yn y trychineb ofnadwy a gymerodd le yn Johnstown, America, a bod yr Ysgrifenydd i anfon llythyr at y chwaer-eglwys yno a'i gweinidog, yn cyfleu iddynt ein cofion mwyaf caredig, a datganiad o'r teimlad mwyaf dwys a byw wrth feddwl am yr holl fywydau a gollwyd, a'r cyflwr blin y cafodd y rhai a ddiangodd â'u bywyd eu taflu iddo, trwy golli llawer o'u perthynasau anwylaf, ac agos eu holl feddiannau daearol, yn y ddamwain alaethus hono. (2) Ein bod yn annog yr holl Gyfarfodydd Misol i drefnu fod yr eglwysi yn gwneyd casgliadau tuag at eu cynnorthwyo yn eu caledi dirfawr, a bod yr apêl a ddarllenwyd ar y pryd i gael ei hargraffu yn y cylchlythyr. (3) Fod Mr. T. Phillips, U.H., St. David's, Uplands, Swansea, i gael ei benodi yn

drysorydd cyffredinol i dderbyn yr holl gyfraniadau, a'n bod yn annog yr eglwysi a phersonau unigol i anfon iddo ef eu cyfraniadau yn ddioedi, fel y galler anfon yr ymwared iddynt mewn pryd.

Copi o'r Apêl a ddarllenwyd.

JOHNSTOWN, PA., Medi 29, 1889.

ANWYL SYR,—Mae pob llwyth, iaith, a chenedl yn y lle yn teimlo yn ofnadwy oddiwrth ganlyniadau y dylif dinystriol a ysgubodd ymaith ein dinas mor ddirybudd; ond, erbyn hyn, tra sicr yw fod colledion y Cymry yn gymharol fwy nag eiddo yr un genedl arall mewn bywydau a meddiannau; ac y mae eu tri chapel wedi eu llwyr ddinystrio. Collodd cant a hanner o'n cydgenedl eu bywydau, a chyrhaedda ein colledion mewn eiddo y swm anferth o 1,000,000 o ddoleri; a chyfrifir fod yma yn awr ddau cant a hanner o deuluoedd Cymreig yn hollol ddigartref, a llawer o honynt mewn gwth o oedran, wedi colli yr oll o ennillion eu hoes.

Mae yr arian a gyfranwyd mor helaeth er ein cynnorthwyo yn cael eu gwastraffu ar swyddogion a *political favourites*, fel mai ychydig *iawn* o honynt sydd wedi ein cyrhaedd ni fel Cymry. Mae yr Ellmyniaid yn casglu drwy y wlad er cynnorthwyo eu cydgenedl, a gofala y Pabyddion Gwyddelig yn anrhyddeddus am eu corlanau eu hunain; ond ofnwn y bydd i rew-wynt oerllyd y gauaf oddiweddyd llawer o'r Cymry cyn y bydd yn bosibl iddynt gael cartrefleoedd i'w llochesu.

Nis gallwn gynnorthwyo y naill y llall, am fod bron yr oll o honom yn yr un sefyllfa. Yn ngwyneb y ffeithiau uchod, apeliwn at ein cydgenedl yn America a'r Hen Wlad i wneyd yr hyn a allant er ein cynnorthwyo yn ein hadfyd. Yr ydym yn dymuno arnoch chwi arfer eich dylanwad yn eich cymydogaeth ar ein rhan. Beth a ellwch ei wneyd trwy gasgl-yddion, *festival*, neu ryw foddion arall a farnoch yn oreu? Bydd y rhodd leiaf yn dderbyniol iawn. Anfonwch eich rhoddion i'r trysorydd, Dr. W. W. Walters, Johnstown, Pennsylvania, a chewch gyfrif cyflawn mewn amser priodol pa fodd y bu iddynt gael eu defnyddio.

Yr eiddoch mewn blinfyd,

JOSIAH T. EVANS, }
EVAN W. JONES, } Llywyddion,
DR. W. W. WALTERS, Trysorydd.
R. R. THOMAS, Ysgrifenydd.

X. Penodwyd un o bob Cyfarfod Misol yn bwyllgor i enwi personau i'w cyflwyno i Gyfarfod y Cynrychiolwyr a'r Cynlywyddion, i ddewis o honynt (1) Lywydd y Gymdeithasfa am y flwyddyn ddyfodol. (2) Arholydd yr Athrofa am y ddwy flynedd ddyfodol.

Eisteddodd y Pwyllgor ar ddiwedd y cyfarfod hwn.

Am 7 o'r gloch, Cyfeisteddfod y Gymdeithasfa—parhad.

XI. *Adroddiad Cyfarfod yr Etholiadau.*—Hysbyswyd fod y Parch. E. Phillips, Castellnewydd Emlyn, wedi ei ethol yn Llywydd am y flwyddyn ddyfodol, a'r Parch. G. Parry, D.D., yn Arholydd yr Athrofa am y ddwy flynedd ddyfodol.

XII. *Adroddiad yr Is-bwyllgor i ystyried etholiad Trydydd Athraw yr Athrofa:*—

Etholwyd y Parch. D. Edwards yn Gadeirydd.—1. Sylwyd ar gyfres y materion y dysgwylir y Trydydd Athraw i addysgu ynddynt. Mewn cysylltiad â hyn, nododd y Prif-athraw a'r Ail Athraw y pynciau a ystyrient fel yn dyfod i'w rhan hwy yn ol y trefniant newydd: —Y Prif-athraw.—I. Duwinyddiaeth yn y ddwy adran, sef (1.) Yr Athrawiaeth (2.) Y Profion o ddwyfoldeb Cristionogaeth. II. Athroniaeth y Meddwl i ddau ddosbarth, sef ieuengaf a henaf. III. Athroniaeth Foesol, yr un modd i ddau ddosbarth, ieuengaf a henaf. Derbyniwyd a chymeradwywyd yn unfrydol y pynciau hyn fel maes llafur y Prif-athraw. Yr Ail Athraw,—I. Y Testament Groeg i ddau ddosbarth, sef ieuengaf a henaf. II. Gramadeg Hebraeg i ddau ddosbarth, sef ieuengaf a henaf, ac yn ychwanegol i'r dosbarth henaf, Adran o'r Hen Destament yn yr Hebraeg. III. Llyfr cyffelyb i Westcott's *Introduction to the Gospels* un flwyddyn, a Rhesymeg y flwyddyn arall, ac i'w cymeryd yn rheolaidd bob yn ail flwyddyn. Y Trydydd Athraw,—English, Mathematics, and Classics. Teimlid fod llafur y Trydydd Athraw yn drwm o'i gymharu â gwaith yr Ail Athraw, yn enwedig os byddai yn darparu efrydwyr ar gyfer arholiadau Prif Ysgol Llundain, gan y byddai hyny yn cynnwys gwyddoniaeth ac un o'r ieithoedd diweddar yn ychwanegol. Ar ol ymddyddan, penderfynwyd yn unfrydol,—Ein bod yn ymddiried i'r athrawon y gorchwyl o ranu y gwaith yn gyfartal rhwng yr Ail a'r Trydydd Athraw yn ol fel y byddont yn gweled yr amgylchiadau a llwyddiant yr Athrofa yn galw am hyny.

Darllenwyd apeliadau am y swydd o Drydydd Athraw—pump mewn nifer, ynghyd ag amryw dystysgrifau perthynol i bedwar o honynt, a phenderfynwyd fod enwau y pump ymgeisydd i gael eu hysbysu i'r Gymdeithasfa.—1. Mr. E. Howells, M.A., High Schools, Queen's College, Birmingham. Hysbyswyd ei fod oddeutu 35 oed, yn ddibriod, ac yn fab i'r diweddaf Brif-athraw, Parch. W. Howells. Chwech o dystysgrifau cymeradwyol.—2. Y Parch. T. G. Owen, B.A., Walton Breck, Liverpool. Ni chanlynid y cynnyg hwn gan dystysgrifau, ond enwid personau cyfrifol fel *referees*.—2. Mr. W. Jenkyn Jones, Dolau, Penygarn, Borth, 23 oed, dibriod. Wedi myned yn dra llwyddiannus trwy yr holl arholiadau am y gradd o B.A., oddieithr yr un diweddaf. Pump o dystysgrifau.—4. Parch. J. Davies, B.A., Dowlais, 37 oed, ac yn briod, 7 o dystysgrifau.—5. Parch. T. M. Green, Caerfyrddin. 10 o dystysgrifau.

Etholwyd o'r pump uchod trwy y tugel un i'w gyflwyno i'r Gymdeithasfa fel Trydydd Athraw yr Athrofa. Yn y pleidleisiad diweddaf yr oedd 8 dros Mr. E. Howells, M.A., a 5 dros ei gydymgeisydd. Yna rhoddwyd Mr. E. Howells, M.A., i fyny er mwyn cael pleidlais unfrydol y pwyllgor o'i blaid, a chafodd 10 o bleidleisiau.—D. EDWARDS, *Cadeirydd*; W. JAMES, *Ysgrifenydd*.

XIII. Derbyniwyd yr holl Adroddiad gyda pharodrwydd a chymeradwyaeth, oddieithr y penderfyniad i gyflwyno *un ymgeisydd, ac un yn unig*, i'r Gymdeithasfa, ac amlygid dymuniad am gael datgan barn ar y ddau ymgeisydd yr oedd y pwyllgor yn rhanedig yn eu cylch. Mewn perthynas â'r penderfyniad hwn, penderfynwyd,—Fod, nid un yn unig, ond y ddau ymgeisydd a gafodd y nifer luosocaf o bleidleisiau yn yr Isbwyllgor i gael eu cyflwyno i'r Gymdeithasfa. Yna cyflwynwyd i Gyfarfod Cynnrychiolwyr y Gymdeithasfa a'r Cyn-

lywyddion, y ddau uchaf, sef Mr. E. Howells, M.A., a'r Parch. J. Davies, B.A., Dowlais, ac etholwyd yr olaf yn Drydydd Athraw yr Athrofa.

XIV. Penderfynwyd,—Yn gymaint a bod Mr. E. Howells, M.A., wedi ei wahodd i fod yn bresennol yn y Gymdeithasfa, ein bod i dalu ei dreuliau teithio, a bod y Parch. E. Matthews i'w hysbysu am etholiad Mr. Davies gan y Cynnrychiolwyr.

XV. Cenadwriaethau o'r Gymanfa Gyffredinol—1. *Tai Gweinidogion.*—Penderfynwyd,—Ein bod yn cyflwyno y genadwri hon i sylw y Cyfarfodydd Misol.

2. *Y Genadaeth Dramor*, (1) *Cyllid y Genadaeth*, (2) *Jiwbili y Genadaeth.*—Gweler ar *Gyllid y Genadaeth*, penderfyniadau vi. 1, 2, 3, yn Nghylchlythyr y Gymdeithasfa ddiweddaf a gynnaliwyd yn Hall, Sir Benfro. *Jiwbili y Genadaeth.*—Gweler pen. xxii.

3. *Arholiad y Gymanfa Gyffredinol.*—Yn gymaint a bod Pwyllgor yr Ysgol Sabbothol yn bwriadu ystyried y mater hwn mewn cyfarfod a gynnelir yn fuan, gohiriwyd yr ymdriniaeth arno hyd nes y ceir ffrwyth yr ymgynghoriad hwnw.

4. *Rheolau yr Ordeinio.*—Penderfynwyd,—Fod y rheolau hyn yn cael eu cymeradwyo.

5. *Derbyn Aelodau Eglwysig.*—Penderfynwyd,—Ein bod yn derbyn y penderfyniad hwn fel ag i'w gyflwyno i ystyriaeth bellach y Gymdeithasfa.

(I'w barhâu.)

Bwrdd y Golygydd.

YR ACHOS CYMRAEG YN DUBLIN.

At Olygydd y Drysorfa.

Anwyl Frawd,—Yr wyf wedi darllen gyda hyfrydwch yr Hanes ain yr Achos Cymraeg yn Dublin gan y Parch. J. Owen, a ymddengys mewn amryw Rifynau o'r Drysorfa y flwyddyn hon, a chredaf ei fod yn llawn addysg i'r rhai sydd yn dal cysylltiad âg achosion gweiniaid yn nghanol Saeson neu Wyddelod, ac yn brawf o fel y cedwir y llîn yn mygu heb ddiffodd mewn llawer amgylchiad. Cynnwysa yr ysgrifau lawer o grybwylliadau am bersonau a fuont o bryd i bryd yn wasanaethgar gyda'r achos yn Dublin, a diau eu bod mor gywir ag y gall y Cenadwr ffyddlawn eu gwneyd; ond anhawdd yw sicrhau cywirdeb perffaith bob amser, yn enwedig pan yn ysgrifenu mewn lle neilluedig heb lawer o frodyr mewn oedran wrth law i ymofyn â hwy am ddygwyddiadau hanner can' mlynedd yn ol.

Goddefa Mr. Owen i mi gywiro un camgymeriad heb fod yn bwysig y syrthiodd iddo yn y Drysorfa am fis Awst (tu dal. 297), yr hwn a geir yn gorwedd yn y dyfyniad canlynol:—"Yn mis Mehefin, 1840, cawn Mr. Robert Williams, Carneddi, Bethesda, yn dyfod yn aelod o'r eglwys yma, ac yr oedd ei ddyfodiad yn gaffaeliad mawr, a dysgwylid llawer oddiwrtho, ond ni bu yma ond rhyw dri mis, a symudodd i Ashford, lle y bu am gryn amser, ac ysgrifenodd oddiyno lawer i'r Drysorfa am ansawdd yr Iwerddon a'i phreswylwyr. Symudodd oddiyno i America. Llwyddodd yn fawr yn y byd, a dechreuodd bregethu, a daeth yn un o weinidogion penaf y Cyfundeb yn America, sef y Parch. Robert Williams, Ohio, os nad ydym yn camgymeryd."

Brodor o Rostryfan oedd y Mr. Robert Williams uchod, mab i William Roberts, Tanygelynen, tŷ y gall y teithiwr ei weled o'r *train* ar y *Narrow Gauge Railway* newydd iddo adael gorsaf Rhostryfan am orsaf y Bryngwyn. Pan yn ŵr ieuanc symudodd i ardal Bethesda, ac oddiyno i'r Iwerddon, fel y dywedir gan Mr. Owen. Gellir gweled amryw o'r ysgrifau y cyfeiria Mr. Owen atynt yn y cyfrolau o'r Drysorfa am y blynyddoedd 1841—42—43. Y mae yn wir o ran sylwedd iddo fyned o'r Iwerddon i America, ond os eir i fanylu, daeth adref i Rostryfan am rai misoedd cyn cychwyn i America. Credaf iddo fod yn aros yn nhŷ ei dad am o chwech i naw mis. Cefais y fraint o fod dan ei addysg fel athraw yn yr Ysgol Sabbothol am y rhan fwyaf o'r amser y bu gartref. Yr wyf yn cofio un amgylchiad sydd yn dangos fod yr ysbryd Protestanaidd a'r casineb at Babyddiaeth a welir mor amlwg yn ei lythyrau argraffedig yn fyw ynddo yr adeg yr oedd yn ei hen gartref. Yr oedd odfa ddydd gwaith yn Nghapel Rhostryfan yn ystod yr adeg hon, a deiseb yn cael ei harwyddo i'w hanfon i'r Senedd yn erbyn rhyw fesur a ystyrid yn rhy ffafriol i'r Pabyddion. Yr oeddwn i wedi fy awdurdodi gan fy rhieni i roi eu henwau wrth y ddeiseb. Ar ol ysgrifenu eu henwau hwy, yr oeddwn yn myned i ysgrifenu fy enw fy hun wrthi, pan y dywedodd y brawd oedd yn gofalu am y ddeiseb fy mod i yn rhy ieuanc i ddodi fy enw wrthi. "Gadewch iddo," meddai Mr. Robert Williams, "yr wyf yn gobeithio y gwna ef lawer yn erbyn Pabyddiaeth cyn marw." Buasai yn dda genyf pe buaswn wedi dyfod i fyny yn well a'i ddysgwyliad. Bu yn llwyddiannus yn y byd ar ol myned i'r America, fel y dywed Mr. Owen, ac ennillodd radd dda yn y weinidogaeth, ond nid efe oedd y Parch. Robert Williams, Ohio.

Yn y *Dyddiadur* am y flwyddyn 1854, ceir Robert Williams, Oak Hill, yn drydydd yn rhestr gweinidogion Talaeth Ohio, a Robert Williams, Minersville, yn bedwerydd yn rhestr gweinidogion Talaeth Pennsylfania. Yr enw olaf yn rhestr Pregethwyr Talaeth Wisconsin am y flwyddyn hono yw Moses

Williams, brawd i David Williams, un o'r brodyr hynaf a geir yn awr ymysg yr aelodau yn Nghynwyd. Y mae arnaf ofn syrthio i gamgymeriad tebyg i'r un y syrthiodd Mr. Owen iddo, os ceisiaf wahaniaethu rhwng y ddau Robert Williams uchod, ond gallaf sicrhau eich darllenwyr nad y Mr. Robert Williams a fu yn aelod o eglwys Dublin am dri mis yw y naill na'r llall o honynt.

Yn *Nyddiadur* 1864, ceir ei enw ef yn Robert Williams, La Cross, yn dilyn enw Moses Williams yn agos i ganol rhestr gweinidogion Talaeth Wisconsin. Yr oedd yn llawn 35 oed yn myned drosodd i America, a bu farw yn gymharol ieuanc, fel na fu tymmor ei weinidogaeth yn faith, ond bu yn llanw cylchoedd uchel ymysg ei frodyr yn ystod yr amser a estynwyd iddo. Y mae cofiant am dano wedi ei gyhoeddi o awduriaeth y Parch. J. J. Roberts, Columbus, yn cael ei gynnorthwyo gan Dr. Howell, mab yn nghyfraith y Parch. R. Williams. Ceir rhai camgymeriadau dibwys yn y cofiant yn codi oddiar ddiffyg gwybodaeth fe allai iddo fod am ddau dymmor yn Iwerddon. Ceir yn y cofiant lythyr cymeradwyaeth gwresog iddo ar ei fynediad i'r Iwerddon gan y Parch. Robert Owen a blaenoriaid Rhostryfan. Rhoddir ar ddeall ei fod yn cael y llythyr hwn oddeutu y flwyddyn 1835, ond nid oedd y Parch. Robert Owen wedi symud o Nefyn i ardal Rhostryfan hyd y flwyddyn 1838. Da fyddai cael rhestr gyflawnach o weinidogion y Cyfundeb yn America yn ein *Dyddiadur*, ac ystadegau cywir am yr holl eglwysi, a sylw coffadwriaethol am bob gweinidog yno, fel y ceir am weinidogion ymadawedig y wlad hon.

Yr eiddoch yn gywir,

W. Williams.

Birmingham.

Lloffion.

Trugaredd yr oruchwyliaeth gyfryngol.

Y mae yn ddwyfol dda ac addas, dros yr amser presennol, i lywodraeth y Tad fod yn oruchwyliaeth guddiedig. Buasai gweithrediad digyfrwng Duw yn dwyn dinystr disymwth ar yr holl greadigaeth syrthiedig. Nis gall dim fod yn fwy tadol a thrugarog na'r ddeddf sydd wedi gwneyd dynoliaeth ddwyfol ein Harglwydd yn Frenin dros holl dŷ llygredigaeth. "Rhaid iddo (Ef) deyrnasu" dros natur, cyhyd ag y byddo dim yn ei chyflwr yn groes i natur a bwriad Duw. "Bydd y llywodraeth ar ei ysgwydd Ef." "Pob peth a roddwyd i mi gan fy Nhad." "Y mae y Tad yn caru y Mab, ac Efe a roddes bob peth yn ei law Ef." "Y Tad nid yw yn barnu neb, eithr Efe a roddes bob barn i'r Mab." Buasai gweithrediad a barn an-nghyfryngol y Tad, yn lle dwyn creaduriaid syrthiedig ac elfenau llygredig dan oruchwyliaeth araf adnewyddiad, yn dwyn arnynt ddystryw cyflym. Rhaid gwisgo yr *ether* pur âg awyrgylch dewach, mewn trefn i achub ac adnewyddu y ddaear. Pe buasai yr *ether* digymysg yn cofleidio y ddaear, diffoddasid pob bywyd, a throisid yr holl blaned yn ddiffeithwch. Y mae gras ein Harglwydd Iesu yn amddiffyniad ac yn gyfrwng i liniaru, rhyngom â gallu y Tad.—*Pulsford.*

Pwy yw Arglwydd ein bywyd?

Dywed Awstin, yn ei *Confessions*, ddarfod iddo gael breuddwyd hynod yn nechreuad ei yrfa Gristionogol. Astudio y gyfraith yr ydoedd y pryd hwnw. Cymerid ei fryd i fyny gan Cicero, ac yr oedd ei holl dueddiadau yn Ciceronaidd. Tybiai yn ei freuddwyd ei fod wedi marw, a gwelai ei hun yn dynesu at borth y nefoedd. "Pwy ydych?" meddai ceidwad y porth. "Awstin o Milan." "Beth ydych?" "Cristion." "Nage, *Ciceroniad* ydych." Gofynodd Awstin am eglurhâd; ac atebodd y porthor angylaidd ef: "Bernir yr eneidiau oll yn y byd hwn yn ol yr hyn a'u llywodraethai yn y byd acw. Ynoch chwi, Awstin, nid Crist yr Efengyl, ond Cicero y ddeddfwriaeth Rufeinig oedd y grym llywodraethol. Nis gellwch ddyfod i mewn yma!" Dychrynodd Awstin gymaint nes y deffrôdd, a phenderfynodd mai Crist, ac nid Cicero, a gai lywodraethu yn ei feddwl a'i galon a'i fywyd ef o hyny allan. Nid breuddwyd yw y cwbl o'r breuddwyd. Nid â neb i mewn i'r Nef hono lle y mae Crist yn oruchaf ac yn ganolbwynt, ond yr hwn ag y mae ei fywyd yn rhoddi i Grist ei allor a'i orsedd fewnol.

Pa fodd i orchfygu.

Dysgwn un o wersi bywyd oddiwrth gof-adail Arglwydd Lawrence yn Westminster Abbey. O'r holl feini coffadwriaeth yno, nis gellwch gael un a rydd feddwl mwy ardderchog. Nid oes arni ddim ond ei enw, amser ei farwolaeth, a'r geiriau hyn:—"Yr oedd arno gan lleied o ofn dyn am fod arno gymaint o ofn Duw." Dyma un dirgelwch mawr o fuddugoliaeth. Rhodiwch bob amser yn ofn Duw. Gosodwch yr Arglwydd yn wastad ger eich bron. Bydded eich gweddi yr un ag eiddo y bachgen yn Rugby, John Laing Bickersteth, yr hon a gafwyd wedi ei chloi i fyny yn ei ddesg ar ol ei farwolaeth:—"O Dduw, dyro i mi wroldeb fel na byddwyf yn ofni neb ond Tydi."

Callineb ci.

Dywed Dr. John Brown, yn ei "*Horae Subsecivae*," am gi y darfu iddo unwaith ei gyfarfod, yr hwn oedd wedi tori ei goes. Rhoddodd y Dr. hi yn ei lle, a rhwymodd hi i fyny yn ofalus. Yr oedd y ci yn bur ddiolchgar, ac aeth ymaith gan ysmicio ei lygad a chwareu ei gynffon. Ymhen mis union, daeth yn ol, gan ddwyn ci arall gydag ef wedi tori ei goes; a'r wythnos ganlynol daeth âg un arall drachefn mewn cyni mawr—y cwbl i gael eu gwella gan y meddyg!

Dim cymaint ag arddodiad rhyngom a Christ.

Pan oedd Dr. Alexander (America) yn marw, adroddodd cyfaill iddo 2 Tim. i. 12, ond yn anghywir, "*I know* in *whom I have believed.*" A dyna oedd ateb parod y sant oedd ar ymadael:—"*No, no*, don't put *even a preposition* between me and my Lord—*I know* whom *I have believed.*"

Geiriau y Doethion.

Trallod yw pridd iach rhinwedd, lle y mae amynedd, teimlad anrhydeddus, dynoliaeth beraidd, a gwroldeb tawel, yn gwreiddio ac yn blaguro yn gryf.

Tyf drwg a chosb o'r un boncyff.

Nis gellwch ddal Natur byth mewn gwisg afiêr. Tora prydferthwch i mewn ymhob man.

Y mae yr hwn nad yw yn meddwl gormod o hono ei hun, yn fwy ei barch nag y mae yn feddwl.

Myfyrdod yw syllwydr yr enaid sydd yn tynu Duw yn agos.

Y rhieni sydd yn anwybodus neu ddiofal am eu dyledswyddau tuag at eu plant, a gânt eu dysgu pa beth a ddylasent ei wneuthur gan gam-ymddygiadau y plant.

Cronicl Cenadol.

Llydaw.

RHANAU O LYTHYRAU ODDIWRTH Y PARCH. W. JENKYN JONES.

MAE y Parch. W. Jenkyn Jones, mewn amryw lythyrau diweddar, yn hysbysu ei fod ef a'i gyd-lafurwyr yn ystyried fod y rhagolygon yn Llydaw ar hyn o bryd yn dra chalonogol. "Gallaf ddyweyd," meddai, "na chefais erioed fy nghalonogi a'm nerthu yn fy ysbryd fel yr wyf wedi cael er ys cryn amser. Mewn gwirionedd, gallaf ddyweyd ein bod ar bob llaw yn gweled cynnydd, er nad ydyw o'r fath natur ag all daro eraill sydd yn edrych ar bethau o bell ffordd. Bum yn ddiweddar yn cymeryd teithiau byrion gyda'r llyfr-gludwyr, ac yr wyf wedi eu gweled wrth eu gwaith. Maent mewn gwirionedd yn genadon, oblegyd nid ydynt yn edrych arnynt eu hunain fel dim ond gwerthwyr Biblau, ac yn wir gwnant waith rhagorol. Yr wythnos ddiweddaf hon maent wedi bod yn llawenhau dan erledigaeth er mwyn Crist. Bygythiwyd hwy â cheryg, pastynau, a phigffyrch, yn ystod yr wythnos. Bytheffnos yn ol, ar y llaw arall, derbyniwyd hwy yn garedig yn Concarneau, er fod Mr. Groignec wedi cael ei luchio â cheryg yn yr un dref yn y flwyddyn 1869. Mae, pa fodd bynag, lawer iawn o anhawsderau, a gobeithiaf fod llawer o galonau yn cael eu dyrchafu gyda mi at Dduw ar iddynt gael eu symud ymaith. Mae y rhwystrau hyn wedi peri i mi er ys amser roddi fy ymddiried yn fwy yn Nuw, ac wedi fy arwain i weddïo yn fwy taer am ei Ysbryd.

Yr ydym o'r diwedd wedi cael ystafell yn Douarnenez, sydd yn llawer mwy cyfleus na'r un oedd genym. Mae yr ardreth yn uwch, yn 200 o *francs* (£8), ond cawn lawer mwy o dawelwch. Gobeithiwn yn ystod y flwyddyn allu gweinyddu y Cymun yn Douarnenez. Mae genym yn awr gnewyllyn eglwys, a theimlwn yn hyderus y bydd ychwaneg yn dyfod cyn diwedd y flwyddyn ymlaen. Mae Mr. Groignec wedi cymeryd ystafelloedd yn yr un tŷ, er mwyn bod yn ymyl, gogyfer â'r cyfarfodydd. Credwn yn sicr y bydd i'r gwaith fod ar ei fantais oddiwrth y cyfnewidiad. Ar ol chwilio yn lled hir am ystafell a chael cynnyg ar hon, cymerasom hi ar unwaith. Mae yn nghanol y dref, yn nês at Treboul na'r hen ystafell, a chan fod pobl Treboul gymaint dan ddylanwad yr offeiriad, barnwn mai gwell i ni roddi i fyny y cyfarfodydd yno, yn enwedig gan fod yr ystafell hon yn ddigon agos i'r rhai fyddo yn dewis i allu dyfod. Yn Treboul y bygythiwyd y Biblgludwyr yr wythnos ddiweddaf

Yr ydym wedi barnu mai gwell i ni hefyd yn Pont l'Abbé symud i'r rhan o'r dref o ba un y mae ein gwrandawyr yn dyfod. Mae yn fwy yn nghanol y gweithwyr, ac yr ydym yn fwy sicr o gael cynnulleidfa. Mae yr ystafell hon yn dra chyfleus, ond cyst ychydig yn ychwaneg,—160 *francs* (£6 10s.) Yr wyf yn dysgwyl y bydd i'r cyfeillion yn Quimper dalu am ystafell genadol yn y pen arall i'r dref, fel y bydd genym ddwy ystafell; bydd hyn yn golygu llafur ychwanegol, ond y mae Duw hyd yma wedi dal i fyny fy nerth. Synwyd fi y dydd o'r blaen trwy dderbyn oddiwrth foneddwr o Sais,—un a fuasai drwodd yma ar daith,—o'r enw Mr. Hepburn, o Swydd Devon, *bank note* am 100 *francs* (£4) tuag at Gronfa Adeiladu; dadganai ei lawenydd wrth ddeall ein bod yn gobeithio cael adeilad i ni ein hunain yn Douarnenez. Yr oedd y fath arwydd o gydymdeimlad, ar ol ychydig ymddyddan pan na wnaethid crybwylliad genyf am unrhyw anghen arbenig, yn dyfod i mi yn nerthol fel cefnogaeth oddiuchod, a diolchais i'r Arglwydd am dano. Pan byddwn yn myned ati i adeiladu (ac y mae genyf yn awr, ddechreuad trysorfa), teimlaf yn sicr y bydd i gyfeillion yn y wlad hon gyfranu yn haelionus; yn wir, mae rhai eisoes wedi addaw gwneuthur felly. Byddai yn dda genyf gael caniatâd i adeiladu. Mae Mr. Jenkins, Morlaix, yn awr yn adeiladu ystafell arall,—y drydedd sydd ganddo heblaw y capel. Pe byddai y swm anghenrheidiol wedi ei gael i law, neu yn agos i hyny, byddai i ni chwilio am lecyn o dir a pharotoi. Dylid cofio nad ydyw y rhai ffyddlawn yn Douarnenez ond pysgodwyr tlodion, gan mwyaf. Mae y geiriau "yn anhawdd yr ä y rhai y mae golud ganddynt i mewn" yn wir yma, ond y mae y tlodion yn ei wrandaw yn ewyllysgar.

Sylhet.

RHANAU O LYTHYRAU ODDIWRTH Y PARCH. J. PENGWERN JONES.

YN mis Mehefin ysgrifenai y Parch. J. Pengwern Jones, "Yr wyf mor brysur yn

awr fel mai prin y gallaf gael amser i ysgrifenu. Gan fod genyf i fyned i Ysgol y Genethod ar hyd y dydd a'r ysgol arall yn fynych yn y boreu cyn myned i Ysgol y Genethod, a chyfarfodydd bob nos, nid wyf yn cael llawer o hamdden i ysgrifenu llythyrau.

Mae yr hin yn hynod o afiachus yma yn bresennol. Mor gynted ag yr aeth y *cholera* heibio torodd y dwymyn allan. Mae miloedd yn Sylhet yn unig i lawr dan dwymyn, ac y mae llawer yn meirw. Bu farw dau o blant amddifaid a fabwysiadwyd gan Gour Babu, ac y mae yr holl deulu wedi bod yn dyoddef mwy neu lai. Nid yw y trigianydd hynaf yn cofio cynnifer yn wael ar yr un pryd. Weithiau cymerid y genethod yn wael ar ganol yr ysgol. Da genyf eich hysbysu fy mod i wedi cadw yn lled dda trwy y cyfan. Er pan ysgrifenais atoch ddiweddaf yr ydym wedi dechre dau o ddosbarthiadau i wraggedd, ac y mae un arall ar gael ei ddechre. Mae genym yn agos i ugain o wragedd dan addysg grefyddol. Gofala y *Misses* Dass (merched Gour Babu) am y dosbarthiadau hyn yn gynnar yn y boreu, a dychwelant mewn pryd i'r ysgol. Mae yr ysgol hefyd yn dyfod rhagddi yn dda. Darfu i rieni rhai o'r genethod brynu Biblau iddynt, ac y maent yn dyfod â hwy gyda hwy i'r ysgol. Dyma gam mawr ymlaen, gan mai y dynion hyn oedd ar y cyntaf yn wrthwynebol i ddysgu y Bibl. Mae rhai o'r genethod a gymerwyd ymaith wedi dychwelyd yn ol eisoes."

Ychydig ddyddiau wedi hyny, ysgrifena Mr. Jones, "Da iawn genyf fod Miss Williams yn dyfod allan yn mis Medi. Yr ydym er ys tro mawr yn trefnu gwaith iddi. Da fyddai i ni gadw addysg y genethod yn ein dwylaw ein hunain; tybiaf y daw yr ysgol yn y man yn hunan-gynnaliol, ond rhaid i'r ysgol fod yn un effeithiol. Bydd yn anghenrheidiol cyn hir agor ysgolion bychain yma a thraw i'r dosbarthiadau isaf. Ni byddant ond ychydig o draul i'r Genadaeth, ond bydd yn rhaid cael rhywun i'w harolygu. Bu y Parch. K. S. Macdonald, M.A., o Calcutta, a Mrs. Macdonald, yn aros gyda ni yma am ychydig ddyddiau. Cawsom gynnulleidfa fawr i Mr. Macdonald ar y Sabboth, ac ar ddydd Llun hefyd. Yr wyf yn teimlo fy mod wedi cael llawer o les trwy ei brofiad addfed ef."

Mewn llythyrau diweddarach, crybwylla Mr. Jones ei fod wedi cael ymosodiad o'r dwymyn, a'i fod wedi ei luddias i fesur gyda'i waith. Gobeithiai y byddai i gyfnewidiad am ychydig ddyddiau i'r Bryniau wneyd cyfnewidiad mawr yn ei iechyd. Mewn nodyn dyddiedig Awst 13, crybwylla y Cenadwr fod y Misses Dass yn gweithio yn egniol iawn, fod ganddynt amryw ddosbarthiadau yn y Zenanas, a dau ddosbarth bob wythnos am hanner awr wedi chwech y boreu. Mae Mr. Greaves, Barnwr Sylhet, wedi ei foddhau gymaint gyda'u gweithgarwch, fel y rhoddodd i Mr. Jones 100 o *rupees* i geisio iddynt rywbeth a fyddai o wasanaeth gyda'r gwaith. Barnodd Mr. Jones mai yr hyn a atebai y pwrpas oreu fyddai *American Organ*, ac anfonodd yr arian drosodd er pwrcasu offeryn.

Bryniau Jaintia.

DOSBARTH SHANGPOONG.

Llythyr oddiwrth y Parch. Robert Evans.

Gorphenaf 19eg, 1889.

"Mae genyf amryw bethau i'w dyweyd am y gwaith, ond y mae fy amser wedi bod yn brin i ysgrifenu. Wythnos i Sadwrn a Sabboth diweddaf yr oedd genym gyfarfod chwarterol yn Mawkyndeng; a throdd allan yn gyfarfod a allaf alw yn ogoneddus. Pan oeddwn wedi parotoi i gychwyn, daeth galwad arnaf i fyned ar frys i Nongbah yn nosbarth Jowai, fel y methais i a bod yn bresennol. Ac y mae yn ymddangos nad oedd yn golled i neb ond i mi fy hunan; yr oedd yr Ysbryd Glân yno, ac yn arddel y cyfarfod mewn modd neilldnol. Nid oes diwedd ar ganmol y cyfarfodydd; ac nid hyny yn unig sydd i'w ddyweyd. Mae yn ymddangos fod un oddiyma, o leiaf, wedi cael yno symbyliad newydd i waith, yr hyn ydyw y prawf goreu o ddylanwad daionus y cyfarfod. Dywedir fod rhyw ireidd-dra rhyfedd yn yr holl gyfarfodydd; a nerth neilldnol yn yr Efengyl ar y Sabboth. Yr oedd Cristionogion y lle hefyd wedi parotoi yn dda a helaeth ar gyfer y dyeithriaid. Ofnid na buasai yno ddigon o ymborth, gan fod y bobl yn dlodion, ac wedi dyoddef llawer oddiwrth eu cymydogion eilunaddolgar; ond siomwyd pawb o'r ochr oreu. Ac yr oedd llawnder yn gwneyd y rhoddwyr a'r derbynwyr yn llawen. Wedi gweled pa beth a all eu cariad at yr efengyl wneyd, ni bydd arnynt ofn derbyn y Gymdeithasfa yn y dyfodol. Mae y cyfarfod nesaf i gael ei gynnal yn Mynsaw ymhen tri mis.

Mae y gwaith yma yn Shangpoong yn myned yn ei flaen yn rheolaidd, ac yn cael ei gario ymlaen yr wythnosau hyn gyda gradd o yni. Gobeithio y cawn iechyd i fyned ymlaen yn debyg hyd ddiwedd y tymmor gwlyb. Mae gan Mrs. Evans ddau gyfarfod gyda'r merched bob wythnos, un i ddarllen "Rhyfel Sanctaidd" *(Holy War)* John Bunyan, a'r llall i chwilio yr holl adnodau a allant gael ar wahanol faterion, sef, anwiredd a thwyll, cybyddod, ariangarwch, cariad Duw, ein dyledswydd ni i garu Duw, &c. Yr wyf finnau yn traddodi math o ddarlith unwaith yn yr wythnos ar *Daith y Pererin*, er ceisio dangos llwybr y Cristion, a chreu profiad ysbrydol ynddynt. Yr wyf hyd yn hyn yn gallu creu dyddordeb yn y bobl i ddyfod i'r cyfarfodydd. Dywedai un dyn ieuanc duwiol wrthyf yr wythnos ddiweddaf ei fod yn teimlo fod ei daith yntau rywbeth yn

debyg i'r eiddo "Cristion." Bydd yn aml yn cael ei arwain ar gyfeiliorn, ond bydd weithiau yn teimlo ei fod yn fwy na gorchfygwr drwy yr Hwn a'i carodd. Heblaw y cyfarfodydd rheolaidd, y mae genyf gyfarfod canu i'r bobl ieuainc bob wythnos, a dosbarth duwinyddol bob yn ail dydd gyda'r athraw. Y llyfr a ddarllenwn ydyw *Athrawiaeth yr Iawn* gan Dr. Edwards. Dyma'r trydydd tymmor i'r dosbarthiadau hyn gael eu cynnal yma; a gwnaeth yr athraw blaenorol yn lled dda yn yr arholiadau a gynnaliwyd yn Cherra.

Os bydd pob peth yn dda, bwriadaf fyned yfory i dreulio y Sabboth yn Nongbah, gan fod arnynt eisieu cael cyfranogi o Swper yr Arglwydd.

Mae y tywydd yn awr yn lled afiach, ac yn effeithio yn fawr arnom.

NODIADAU CENADOL.

Shella.—Mewn llythyr diweddar dywed y Parch. W. Williams, "Yr wyf yn mwynhau iechyd rhagorol, ac yr wyf yn dra dedwydd yn fy ngwaith, neu yn hytrach yn *Ei waith Ef*." Anfonai Mr. Williams gyda'r llythyr arian am dri dwsin o gopïau o Esboniad *Brown and Faussset* at wasanaeth y pregethwyr brodorol, ac y maent wedi eu hanfon allan.

Cherra.—Mewn llythyr a ysgrifenwyd yn Gorphenaf, dywed y Parch. J. Ceredig Evans eu bod er ys cryn amser yn nghanol y gwlawogydd, ac fod yn hollol anmhosibl symud cam o'r lle. Disgynai 20 modfedd o wlaw ar gyfartaledd bob dydd am bedwar neu bum' niwrnod yn olynol. Pan gofir nad yw cyfartaledd y disgyniad o wlaw yn nghanolbarth y deyrnas hon mewn blwyddyn gyfan ond 25 o fodfeddi, ac nad ydyw mewn rhai lleoedd ond 17 o fodfeddi, gellir cael rhyw syniad am y rhuthr o wlaw sydd yn disgyn yn Cherra mewn un diwrnod. Yr oedd amryw yn dyoddef dan y *cholera* mewn dau neu dri o'r pentrefi sydd dan ofal Mr. Evans.

Shillong.—Bydd yn ddrwg gan ein darllenwyr ddeall fod y Parch. T. Jerman Jones wedi cael amryw o ymosodiadau o afiechyd yn ddiweddar, yn codi, fel y barna y meddygon, oddiar or-lafur mewn ysgrifenu gyda gofalu am gyfrifon y Genadaeth, &c., yn ychwanegol at ei waith arferol fel cenadwr. Yn nechreu Gorphenaf ysgrifenai Mr. Jones, "Diolch yn fawr i chwi am eich cydymdeimlad â mi yn yr ymosodiadau o afiechyd a gefais. Ni chefais ddim tebyg o'r blaen. Byddwn yn fynych yn cael y dwymyn yn dost, ond byddai hono yn myned heibio ymhen rhai dyddiau, a byddwn yn cryfhau fel o'r blaen. Ond yr oedd y rhai hyn yn hollol wahanol, a'u heffeithiau yr un modd. Ond yn awr yr wyf yn llawer gwell. Cefais un ymosodiad pan yn myned i ddechreu pregethu y Sabboth wythnos i'r diweddaf, ond nid oedd ond ysgafn mewn cymhariaeth, ac aeth heibio yn fuan." Mae y Cyfeisteddfod Gweithiol wedi trefnu fod i Mr. Jones gael un o'r brodorion i'w gynnorthwyo yn arbenig gyda'i waith fel Trysorydd, cadw y cyfrifon, &c., er mwyn ysgafnhau rhyw gymaint ar ei faich.

Yr Hen Destament yn Khasiaeg.—Mae y Cenadon yn myned ymlaen yn rheolaidd gyda'r gwaith o gyfieithu yr Hen Destament. Y Parchn. J. Roberts, T. Jerman Jones, a'r gŵr dall o Cherra, sydd yn ffurfio y *Revising Committee* i arolygu y cyfieithiadau a wneir gan yr amrywiol genadon. Buont yn cyfarfod amryw weithiau yn ddiweddar yn Shillong ac yn Cherra. Gorphenaf 23, ysgrifenai Mr. Jones o Cherra, "Dyma lle yr wyf er's deng niwrnod, yn adolygu cyfieithiadau o ranau o'r Hen Destament gyda Mr. Roberts, ac wedi bod wrthi yn ddygn a chaled yr holl amser. Byddaf yn cychwyn yn ol i Shillong yfory. Yr ydym y dyddiau hyn wedi arolygu 33 o bennodau. Fel hyn o dro i dro, o hwb i hwb, yr ydym yn ymsymud ymlaen yn raddol; ac yr ydym yn hyderu, os ceir estyn dyddiau ac iechyd, y bydd yr Hen Destament oll yn barod i'w argraffu yn y flwyddyn 1891." Dysgwyliwn y bydd Llyfr y Salmau yn cael ei argraffu y flwyddyn hon.

Ymadawiad Cenadon. — Bwriedir i'r Parch. John Jones ddychwelyd i India gyda'r agerlong *Manora*. Bydd yn cychwyn o Lundain ar y 10fed o Hydref. Dyddorol fydd gan lawer o'n darllenwyr wybod mai dau fab i'r awdwr enwog, Canon Westcott, sydd yn gyd-deithwyr yn yr un ystafell â Mr. Jones. Mae y ddau yn myned allan i'r India fel cenadon. Bydd Miss Elizabeth Williams yn myned allan gyda'r *Chusan*, agerlong yn perthyn i'r Peninsular and Oriental Co. Mae amryw o genadesau yn myned allan gyda'r llestr hon, ac yn eu plith dair oedd dan addysg yn Llundain yn yr un sefydliad a Miss Williams.

Rhoddion i'r Genadaeth.—Derbyniwyd oddiwrth y Parch. Ellis Edwards, M.A., lyfrau gwerthfawr i'w rhoddi i'r Efengylydd U Jura; oddiwrth y Parch. E. Parry, M.A., gistiad o lyfrau rhagorol at wasanaeth y pregethwyr brodorol; sypynau o ddefnyddiau at wasanaeth ysgolion y genethod oddiwrth Miss Williams a Miss Jones, Llanwrin, a Mrs. Jones Bee Hive, Brymbo. Mae yr eglwys yn Charing Cross, Llundain, wedi anfon llestri cymundeb i'r eglwys yn Sylhet, trwy law Miss Williams, a *medicine chest* i'r Genades. Teimlir yn dra diolchgar os bydd i gyfeillion anfon pethau at wasanaeth yr ysgolion mewn pryd i fyned gyda'r Cenadon. Bydd pob math o ddefnyddiau gwnïo yn dderbyniol, darnau o wlaneni, *calicoes*, *cotton reels*, *knitting and crochet cotton and needles*, gwnïaduron, *scissors*, nodwyddau, llyfrau gyda darluniau, rhifynau glân o'r *British Workman*, *Band of Hope Review*, *Children's Friend*, &c., llechau ysgrifenu, pensils, &c., &c. Anfoner y sypynau i ofal Messrs. D. & L. Hughes, Fenwick Court, 8, Fenwick Street, Liverpool, a gofaler am anfon i hysbysu yr Ysgrifenydd am gynnwys pob sypyn.

DERBYNIADAU AT Y GENADAETH.

Dymuna y Trysorydd Cyffredinol gydnabod yn ddiolchgar dderbyniad y symiau canlynol er yr hysbysiad diweddaf:—

	£	s.	d.
Parkfield, Birkenhead	11	3	3
"A"	2	0	0
Cymro	1	0	0
Babell, Sir Fflint	3	13	10
Eto, at Gof-golofn i U Borsing	0	10	0
Mr. Thomas Phillips, trwy law y Parch. T. Hughes, Kenchester, at yr Ysbytty yn Jiwai	0	10	0

CAIS AM WEINIDOG I PATAGONIA.

Y mae ein cydgenedl yn Patagonia yn parhâu i deimlo yn awyddus i gael gweinidog i lafurio yn eu mysg. Adeiladwyd tri chapel yno yn ddiweddar, ac ail adeiladwyd un arall. Agorwyd dau o honynt yn ddiddyled, ac y mae un hen chwaer yn penderfynu cael y llall yn ddiddyled erbyn y daw gweinidog, er ei bod, meddai, yn dysgwyl ei weled bob dydd. Onid oes ymysg ein pregethwyr ieuainc ryw un a fyddai yn barod i gysegru ei hun i'r gwaith hwn am ychydig flynyddoedd? Teimla y sefydlwyr yn hyderus erbyn hyn i addaw swm i gyfarfod â'r hyn a roddid gan y Genadaeth. Bydd yn dda gan y Cyfeisteddfod Gweithiol dderbyn ceisiadau oddiwrth weinidogion fyddont yn teimlo awydd i ymgysegru i'r maes hwn. Gyda golwg ar y cymhwysderau anghenrheidiol, nis gellir gwneyd yn well na dyfynu ychydig eiriau o adroddiad y Parch. W. Roberts, Llanrwst, yr hwn a fu yn ymweled â Patagonia: "Yr hyn y rhoddent bwys mawr arno, ac y teimlent yn bryderus iawn yn ei gylch, oedd cael gŵr cymhwys i'r lle. Teimlid y byddai yn ddymunol, os gellid, cael dyn wedi cael peth profiad yn y gwaith; ond rhaid iddo feddu gallu naturiol, mesur helaeth o ddoethineb a thymher dda, cymeriad sanctaidd, ysbryd ymroddgar, a gweinidogaeth rymus ac effeithiol." Byddai y Cyfeisteddfod yn barod i dalu rhyw swm, dyweder am dair blynedd, i gyfarfod â'r hyn a wneir gan y sefydlwyr, gan ddysgwyl y byddent ymhen yr amser hwnw yn alluog i ymgymeryd â'i gynnaliaeth.

TREULIADAU Y GENADAETH.

Rhaid i ni ddwyn ar gof i garedigion y Genadaeth fod y treuliadau yn myned ymlaen ar hyd y flwyddyn, tra nad oes, hyd yma, ond ychydig wedi dyfod i law i'w cyfarfod. Mae y gweddill oedd yn yr Ariandy wedi ei dreulio yn llwyr, a'r Trysorydd erbyn hyn mewn dyled i'r Ariandy. A gawn ni erfyn ar i'r swyddogion ymhob eglwys ofalu ar fod i'r Casgliad Cenadol gael ei wneyd yn brydlawn, ac ar i'r swm a gesglir gael ei anfon yn ddioed i'r Trysorydd Sirol, fel ag i fod, mor fuan ag y byddo modd, yn llaw y Trysorydd Cyffredinol.

Mae Cyfeisteddfodau Cenadol wedi eu penodi erbyn hyn yn agos bob un o'r Cyfarfodydd Misol a'r Henaduriaethau, ac y mae amryw o honynt wedi dechreu gweithio o ddifrif, trwy drefnu cyfarfodydd cenadol, ac mewn dulliau eraill. Mae amgylchiadau y Genadaeth yn gyfryw ag y dylai hyn gael ei wneyd ymhob Cyfarfod Misol cyn y gellir dysgwyl i'r gwaith gael ei ddwyn ymlaen yn effeithiol.

CASGLIAD CENADOL Y PLANT.

Taer erfynir ar Swyddogion eglwysig, Swyddogion ac Athrawon yr Ysgol Sabbothol, Arweinwyr y *Bands of Hope*, a rhieni, i ddwyn y Tocynau Casglu a'r Blychau Cenadol i sylw y plant, a'u hannog i'w defnyddio.

1. Gellir cael Tocynau a Blychau ond ymofyn â'r Ysgrifenydd.

2. Anfoner, hyd y byddo modd, trwy un o'r Swyddogion eglwysig neu Swyddogion yr Ysgol Sabbothol, gan yr arbeda gryn lawer ar y draul anfon nifer gyda'u gilydd nag anfon un i bob plentyn.

3. Gofaler am ddywedyd pa nifer o Docynau neu o Flychau y dymunir eu cael, a pha un ai rhai Cymraeg ai Saesoneg.

4. Rhoddir gwobrwyon bychain i'r Plant (dyweder dan 15 oed) a gasglant bum' swllt neu ychwaneg. Rhoddir gwobr yn y 4ydd dosbarth i bob un a gasglo 5s. a than 10s.; yn yr 2il ddosbarth o 10s. i 20s.; yn y 3ydd dosbarth, o 20s. i 80s.; ac yn y dosbarth 1af, 30s. neu ragor.

5. *Rhaid i enwau y rhai a fyddant wedi casglu 5s. ac uchod gael eu hanfon i'r Ysgrifenydd Cyffredinol erbyn Ionawr 25ain, ac anfonir y Gwobrwyon yn yr wythnos gyntaf yn Chwefror.* Ni ddylid anfon y Tocynau na'r Blychau yn ol, dim ond rhestr yn cynnwys enwau y casglyddion o bum' swllt ac uchod, ac, os dewisir, enwau cyfranwyr o 2s. 6c. ac uchod.

6. Manteisiol fyddai i'r Blychau a'r Tocynau gael eu galw i mewn ddwywaith yn y flwyddyn, sef ar ddiwedd Mehefin a diwedd Rhagfyr.

Derbynir rhoddion at y Genadaeth gan y Trysorydd, David Hughes, Esq., J.P., 4, *William Moult Street, Liverpool.*

☞ Gellir talu unrhyw swm mewn unrhyw gangen o'r *North and South Wales Bank, to the credit of Mr. David Hughes, Treasurer of the Welsh C. M. Foreign Missionary Society.* Gofaler am i bob *cheque* neu *Postal Order* a anfonir fod yn "crossed."

Derbynir rhoddion at Drysorfa Gweddwon ac Amddifaid Cenadon, &c., gan J. Herbert Lewis, Esq., J.P., *Central Buildings, North John Street, Liverpool.*

Pob llythyrau yn achos y Gymdeithas i'w cyfeirio i'r Ysgrifenydd, *The Rev.* Josiah Thomas, M.A., 28, *Breckfield Road Scuth, Liverpool.*

P. M. EVANS AND SON, ARGRAFFWYR, TREFFYNNON.